Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 9fed Mehefin, 2026 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Cyfarfod Hybrid / Hybrid Meeting – Siambr Hywel Dda a Zoom |
| **PWYNT CYSWLLT** | Gwen Alaw Roberts<br><br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Nia Wyn Jeffreys | Arweinydd y Cyngor |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Paul John Rowlinson | Aelod Cabinet Tai ac Eiddo |
| Menna Trenholme | Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd |
| June Jones | Aelod Cabinet dros Briffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd |
| R Medwyn Hughes | Aelod Cabinet Economi a Chymuned |
| Dewi Jones | Aelod Cabinet Addysg |
| Huw Wyn Jones | Aelod Cabinet Cyllid |
| Llio Elenid Owen | Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a’r Gymraeg |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION Y CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 19 MAI | | | 3 - 15 |
| 6 | YSGOL Y GARREG - ADRODDIAD GWRTHWYNEBU | Cyng Dewi Jones | Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg | 16 - 79 |
| 7 | POLISI IAITH ADDYSG GWYNEDD | Cyng Dewi Jones | Siwan Llwyd Roberts, Pennaeth y Gyfundrefn Addysg Drochi | 80 - 106 |

**Y CABINET DYDD MAWRTH, 19 MAI 2026**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Nia Jeffreys, Menna Trenholme, R. Medwyn Hughes, Craig ab Iago, Huw Wyn Jones, June Jones, Dilwyn Morgan, Llio Elenid Owen, Dewi Jones a Paul Rowlinson.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Debbie Jones (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg), Cyng Dafydd Davies (Aelod Lleol Ward Clynnog), Cyng Peter Thomas (Aelod Lleol Ward Llanllyfni), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod y chymerwyd y cyfle i gydnabod buddugoliaeth Plaid Cymru yn Etholiad y Senedd yn gynharach y mis hwn. Llongyfarchwyd y Prif Weinidog ar ei benodiad, ynghyd â chyn-aelodau o'r Cyngor hwn sydd wedi eu hethol yn ogystal.
Diolchwyd i Dîm Etholiadau'r Cyngor, a'r holl staff a fu'n ymwneud â'r Etholiad am eu gwaith.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw fater brys.

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

**5. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2026 fel rhai cywir.

6. **YSGOL NEBO – ADRODDIAD YMGYNGHORI**
Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dewi Jones.

**PENDERFYNIAD**

Ystyriwyd cynnwys yr adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol (Adroddiad Ymgynghori) ar y cynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen, a chymeradwywyd cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig, yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan ddatgan ei fod yn nodi canlyniad proses hir, drylwyr ac emosiynol iawn. Diolchwyd i'r rheiny sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Cyfeiriwyd at bwysigrwydd ysgolion gwledig i gymunedau Gwynedd, ond nodwyd bod cyfrifoldeb yn ogystal i ystyried realiti'r sefyllfa yn onest. Aethpwyd ymlaen i dynnu sylw at y gostyngiad sylweddol yn nifer y plant sydd yng Ngwynedd, gan amlygu bod y gostyngiad hwn hefyd yn wir ar draws y wlad. Ategwyd yr effaith y caiff hyn ar gynaliadwyedd ysgolion o fewn y Sir. Esboniwyd bod nifer o resymau am y lleihad mewn genedigaethau, gan grybwyll materion sy'n ymwneud ag ail gartrefi, diffyg swyddi da mewn ardaloedd gwledig a'r argyfwng costau byw parhaus.
Wrth gyfeirio at Ysgol Nebo'n benodol, cydnabuwyd yr heriau addysgol, ariannol a gweithredol sy'n deillio o'r niferoedd isel o ddisgyblion. Pwysleisiwyd nad yw hyn yn adlewyrchiad o safon gwaith y staff nac ar ymrwymiad y gymuned. Amlygwyd natur gynhennus ac anodd penderfyniad o'r natur hwn, ond datganwyd yr angen i sicrhau'r cyfleoedd addysgol gorau posib i blant Gwynedd a diogelu dyfodol addysg yn y sir.

Pe bai'r Cabinet yn cytuno i symud ymlaen â'r broses, bydd cyfnod gwrthwynebu ffurfiol o 28 diwrnod cyn y daw'r mater yn ôl gerbron y Cabinet. Sicrhawyd y bydd camau'n cael eu cymryd i wneud y trosglwyddiad yn ofalus a chefnogol i'r plant, a chymuned ehangach yr Ysgol.

Croesawyd Aelod Lleol Ward Clynnog i'r cyfarfod. Diolchwyd i'r gymuned, y staff a'r Corff Llywodraethol am y ffordd adeiladol a pharchus y maent wedi delio â'r sefyllfa anodd hon. Cydnabuwyd y niferoedd isel yn yr Ysgol a'r costau uchel sy'n wynebu'r Cyngor, ond pryderwyd bod y drafodaeth ynglŷn â dyfodol yr Ysgol wedi bod yn gul ac yn canolbwyntio ar rifau yn unig. Credwyd bod y cynnig gafodd ei gyflwyno gan y Corff Llywodraethol, sef datblygu Nebo fel darpariaeth fwy meithringar ar gyfer plant gydag anghenion cymdeithasol, emosiynol a llesiant, wedi haeddu mwy o ystyriaeth. Yn sgil y pwysau cynyddol sydd ar wasanaethau plant ac oedolion, cynigiwyd gan yr Aelod Lleol y dylid ystyried ysgolion fel Nebo fel rhan o ymyrraeth gynnar ac atal. Yn ogystal, pryderwyd am effaith cau'r Ysgol ar y Gymraeg yn y gymuned.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Holwyd a oes ymgynghori wedi cymryd lle gyda phlant yr Ysgol ac os yw llais y plentyn wedi'i ystyried yma. Sicrhawyd bod rhaid i lais y plentyn gael ei glywed fel rhan o'r broses statudol a datganwyd bod hwylusydd annibynnol wedi'i gomisiynu er mwyn cwblhau'r gwaith hwn. Nodwyd bod

rhaid pwyso a mesur y farn sydd wedi'i roi gan blant yn erbyn y darlun ehangach sydd gerbron y Cabinet.

- Mewn ymateb i gwestiwn am y cynlluniau sydd i baratoi a chefnogi plant at unrhyw newid o'r math hwn, amlygwyd bod yr Adran wedi bod yn gweithio gyda phlant a theuluoedd i gynllunio ar gyfer y newid a thrafod unrhyw gefnogaeth a fydd ei angen.
- Mynegwyd tristwch am y mater gerbron, a gofynnwyd am sicrwydd o ran cynlluniau i gefnogi'r gymuned pe bai cymeradwyaeth i'r penderfyniad gerbron. Cadarnhawyd bod yr asesiadau effaith yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad, ac ychwanegwyd bod yr Adran wedi ail ymweld â'r asesiadau effaith hyn yn dilyn y sylwadau a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriad gan gyfarch rhai pryderon. Ategwyd pwysigrwydd adeilad yr Ysgol fel adnodd cymunedol yn Nebo, gan nodi y byddai'r Polisi Ôl-ddefnydd ar waith a chefnogaeth bellach yn cael ei rhoi i'r gymuned pe bai cymeradwyaeth gan y Cabinet.
- Cyfeiriwyd at y ganmoliaeth sydd am y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol o fewn Ysgol Nebo, a gofynnwyd am sicrwydd y bydd y ddarpariaeth hon yn parhau yn yr ysgol amgen. Nodwyd bod y Cyngor yn edrych ar ei strwythurau o ran anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad, ac yn edrych i gryfhau'r gefnogaeth i'r holl ysgolion. Amlygwyd bod heriau ariannol a strwythurol yn y maes hwn, ond mai'r nod yw sicrhau fod pob ysgol yn gynhwysol.
- Cadarnhawyd bod capasiti digonol gan Ysgol Llanllyfni i ymgymryd â'r nifer disgyblion a fyddai'n ymuno o Ysgol Nebo. Tynnwyd sylw at y ffaith fod gan rieni yr hawl i anfon eu plant i unrhyw ysgol, felly does dim gorfodaeth ar ddisgyblion Ysgol Nebo i ymuno â Ysgol Llanllyfni pe bai'r cynnig yn dod yn weithredol.
- Nodwyd mai 9 o blant sydd yn nalgylch Ysgol Nebo, a bod nifer o ffactorau cymdeithasol yn effeithio ar ddewis rhieni o ba ysgol i anfon eu plant. Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phryder plant o gael eu bwlio mewn ysgol fwy, cadarnhawyd bod cynlluniau o ran integreiddio plant i ysgolion eraill. Ychwanegwyd bod trafodaethau gyda'r ysgolion sy'n derbyn y plant yn mynd rhagddo, i sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol.

## 7. YSGOL BALADEULYN – ADRODDIAD YMGYNGHORI

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dewi Jones.

**PENDERFYNIAD**

Ystyriwyd cynnwys yr adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol (Adroddiad Ymgynghori) ar y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen, a chymeradwywyd cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig, yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

**TRAFODAETH**

Diolchwyd i'r holl gymuned am eu cyfraniad at y broses ymgynghori.
Nodwyd bod y Cabinet yn parchu ac yn cydnabod faint y mae'r Ysgol yn ei olygu i bobl yr ardal.

Aethpwyd ymlaen i adrodd ar y newid yn nemograffeg y Sir, gyda'r nifer o enedigaethau wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Golyga hyn fod llai o blant nawr yn byw yng Ngwynedd. Adnabuwyd y caiff hyn effaith uniongyrchol ar gynaliadwyedd ysgolion y Sir, a chyfeiriwyd at yr angen i ail edrych ar drefniadaeth addysg er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy. Pwysleisiwyd bod ysgolion bach yn aml yn ysgolion cryf gyda chymunedau angerddol iawn o'u cwmpas, ond nodwyd bod heriau addysgol, ariannol a gweithredol wrth gynnal ysgol gyda niferoedd isel iawn am gyfnod hir. Derbyniwyd bod y penderfyniad gerbron yn anodd, ond bod rhaid meddwl am ddyfodol addysg y Sir gyfan.
Pe bai'r Cabinet yn cytuno i symud ymlaen â'r broses, bydd cyfnod gwrthwynebu ffurfiol o 28 diwrnod cyn y daw'r mater yn ôl gerbron y Cabinet. Sicrhawyd y bydd camau'n cael eu cymryd i wneud y trosglwyddiad yn gefnogol a pharchus i'r plant, a chymuned ehangach yr Ysgol.

Croesawyd Aelod Lleol Ward Llanllyfni i'r cyfarfod. Diolchwyd i swyddogion yr Adran Addysg, yr Aelod Cabinet, a chymuned yr Ysgol yn Nantlle. Cydnabuwyd nad yw'r niferoedd o blant sy'n mynychu Ysgol Baladeulyn yn gynaliadwy, ond credwyd mai'r ffordd ymlaen fyddai ffederaleiddio'r Ysgol gydag Ysgol Talysarn ac ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu arbenigol. Pryderwyd am yr effaith a fyddai cau Ysgol Baladeulyn yn ei gael ar ddefnydd cymdeithasol y Gymraeg yn y gymuned, ac effaith posib hyn ar y farchnad dai yn y pentref.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Gofynnwyd a oes digon o gyfle wedi ei roi i'r gymuned a'r plant leisio eu barn. Cadarnhawyd bod yr Adran wedi bod yn yr Ysgol dair gwaith, ac wedi cynnal sesiynau i drafod yr heriau, yr opsiynau a ffafrir, ac yna i edrych ar ganfyddiadau'r Adran. Amlygwyd bod sesiwn galw heibio hefyd wedi'i chynnal, a oedd yn rhoi cyfle i'r gymuned ofyn unrhyw gwestiynau a chael mwy o wybodaeth. Ychwanegwyd bod barn y plant wedi ei dderbyn yn ogystal.
- Mewn ymateb i gwestiwn am liniaru unrhyw effaith negyddol ar y plant yn sgil y penderfyniad gerbron, nodwyd bod trafodaethau gyda'r dysgwyr, y teuluoedd a'r ddwy ysgol wedi eu cynnal er mwyn gallu rhoi cefnogaeth mewn lle i gynorthwyo gyda phryderon sy'n codi.
- Holwyd sut mae'r awdurdod yn cefnogi ysgolion bach y Sir. Datganwyd bod cefnogaeth i bob agwedd o fywyd ysgol mewn ffyrdd gwahanol. Eglurwyd am y Cynllun Gwarchodaeth sydd mewn lle i gefnogi ysgolion llai, a'i fod yn sicrhau isafswm lefelau staffio o fewn yr ysgolion hynny.
- Cynigiwyd y dylid cychwyn trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru am Strategaeth Addysg yng nghefn gwlad i'r dyfodol.
- Esboniwyd bod lleihad mewn genedigaethau yn duedd ryngwladol, ond adnabuwyd efallai bod effaith hyn i'w weld yn gynt yng Ngwynedd gan fod nifer o ysgolion y Sir yn ysgolion bychan beth bynnag. Cynigiwyd bod angen cyfeiriad strategol ar draws y wlad o ran sut i ymateb i'r heriau hyn.
- Pryderwyd am drefniadau trafnidiaeth i fynd a phlant i'r ysgol amgen. Nodwyd bod y Cyngor yn darparu cludiant yn unol â'r gofyn statudol a'r Polisi Cludiant

Addysg. Ychwanegwyd y byddai cludiant yn cael ei ddarparu pe na fyddai'r ffordd yn addas i gerdded yn ogystal. Awgrymwyd y dylai unrhyw un sydd â phryder ynglŷn â chludiant i'r ysgol gysylltu â'r Adran.

- Mewn ymateb i gwestiwn am yr ystyriaeth a roddwyd i'r opsiwn o ffederaleiddio, datganwyd bod asesiad manwl o'r manteision wedi ei lunio ond credwyd na fyddai ffederaleiddio ar ei ben ei hun yn newid yr heriau sylfaenol sydd i'w gweld yma. Esboniwyd efallai y byddai'r opsiwn hon yn fwy addas ar gyfer ysgolion mwy, ac ar gyfer dwy ysgol debycach na'r rhai dan sylw.
- Cyfeiriwyd at yr asesiad effaith ieithyddol a wnaethpwyd, ac ategwyd nad oes effaith yn cael ei ragweld ar ddarpariaeth addysgol Gymraeg yn sgil y cynnig. Wrth sôn am effaith posib ar ddefnydd cymdeithasol y Gymraeg, datganwyd bod canran uwch o blant yn rhugl yn Ysgol Talysarn o'i gymharu ag Ysgol Baladeulyn. Gobeithiwyd felly y byddai'r Gymraeg yn cael ei atgyfnerthu y tu allan i'r ysgol ac yn gymdeithasol o ganlyniad. Soniwyd am y mesurau lliniaru sydd wedi eu hadnabod o fewn yr asesiad effaith yn ogystal.

## 8. COMISIYNU YMCHWILIADAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd:

a) Comisiynu y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a ble'n berthnasol y Swyddog Monitro i fwrw ymlaen a'r ymchwiliadau ac adolygiadau pellach a nodir yn rhan 4 o'r adroddiad hwn yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder gan gynnwys :

(a) Cytuno y cylch gorchwyl a'r camau gweithredol,
(b) Adnabod a phenodi ymchwilydd annibynnol allanol lle bo'r gofyn
(c) Trefnu i dderbyn adroddiadau terfynol a chymryd camau i'w cyflwyno i'r pwyllgorau a fforymau perthnasol

b) I awdurdodi'r Prif Weithredwr i barhau i gyfathrebu gyda chyrff a phartneriaid perthnasol eraill ynglŷn â pha gamau ac ymchwiliadau y maent hwy yn eu cynnal a'r gwersi a ddysgwyd allasai fod o fudd i'r Cyngor

c) I awdurdodi'r Prif Weithredwr i ddargyfeirio adnoddau staff i gefnogi ymchwilwyr annibynnol i gwblhau'r gwaith

ch) I awdurdodi'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid ac Aelod Cabinet Cyllid, i flaenoriaethu a chymeradwyo dyraniadau o'r gronfa a sefydlwyd drwy'r drefn Bidiau Un tro 2026-27 i ariannu'r ymchwiliadau.

**TRAFODAETH**

Amlygwyd bod y Cyngor yn derbyn yr Adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder yn llawn, a bod bwriad i weithredu ar bob argymhelliad yn yr Adroddiad. Diolchwyd i'r dioddefwyr am eu dewrder ac ymddiheurwyd am fethiannau'r Cyngor. Pwysleisiwyd bod y dioddefwyr ar flaenau meddyliau pob un wrth drafod y pwnc hwn.

Nodwyd mai pwrpas comisiynu'r gwaith hwn yw ychwanegu at negeseuon Adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, ac i edrych ar rai pynciau yn fanylach. Esboniwyd bod nifer o ystyriaethau wedi eu gwneud yma megis effaith ar y dioddefwyr, y gwersi a ddysgwyd, a'r hyn y gall y Cyngor ei gyflawni.

Cyfeiriwyd at y nifer o ymchwiliadau a restrir sydd eisoes ar waith neu sydd wedi eu cwblhau. Cadarnhawyd bod yr ymchwiliadau hyn wedi adnabod gwersi i'w dysgu. Amlygwyd yr angen i ddeall popeth sydd wedi digwydd yn iawn er mwyn gallu gwella, a phwysigrwydd bod y Cyngor yn gorffen cynnal pob ymchwiliad sydd o fewn ei rym.

Datganwyd bod yr adolygiad i drefniadau llywodraethiant y Cyngor yn ystyried y cyfleoedd a gollwyd, yr argymhellion a gaiff eu nodi yn adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, ac yn sefydlu a oes gwersi llywodraethiant i'w dysgu. Aethpwyd ymlaen i drafod yr adolygiad diwylliant, gan nodi y bydd yn cynnwys tynnu at ei gilydd materion diwylliant gwaith drwy nifer o ffynonellau. Ychwanegwyd y bydd hyn yn tynnu ar nifer o wybodaeth sydd gan y Cyngor yn barod. Bwriedir cwblhau'r gwaith hwn mewn dwy ran, a phwysleisiwyd pwysigrwydd derbyn mewnbwn gan Aelodau Etholedig cyfredol a'r rheiny a gaiff eu hethol yn yr etholiadau lleol yn 2027, staff a rhanddeiliaid eraill.
Wrth gyfeirio at Effeithiolrwydd y Gyfundrefn Llywodraethu Ysgolion, amlygwyd nad yw'r drefn bresennol o ran rhaniad cyfrifoldebau statudol wastad yn glir. Soniwyd bod y Cyngor wedi cael mewnbwn i adolygiad o drefniadau llywodraethu ysgolion Llywodraeth Cymru. Tra mae'r Cyngor yn disgwyl am ganlyniad yr adolygiad hwnnw, adnabuwyd y bydd yn edrych ar ei drefniadau mewnol a'r gyfundrefn llywodraethu ysgolion bresennol.
Adroddwyd bod cryn newidiadau wedi digwydd i drefniadau delio gyda chyfeiriadau rhan 5 y Cyngor ers cyhoeddi Adroddiad Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder. Gobeithiwyd adrodd ar y gwaith hwn i'r Panel Strategol Diogelu ym mis Hydref 2026.
Yn dilyn o hynny, datganwyd bod bwriad i edrych yn fanwl eto ar unrhyw ysgolion a fu o dan arweinyddiaeth y troseddwr gan ehangu'r gwaith Rhan 5 i edrych ar yr ysgolion hyn. Ategwyd bod bwriad i edrych mor bell yn ôl a phosib er mwyn cwblhau'r gwaith hwn.
Amlygwyd bod ymrwymiad i annog sefydliadau eraill i gynnal eu hymchwiliadau eu hunain, er mwyn gweld a oes gwersi ehangach i'w dysgu.

Cadarnhawyd gan y Swyddog Monitro ei fod wedi cael mewnbwn i'r adroddiad hwn, ac yn fodlon â phriodoldeb yr argymhellion. Petai unrhyw beth yn codi yn yr ymchwiliadau hyn sydd angen ei gyfeirio at gorff neu broses statudol arall, yna nodwyd y byddai hynny yn digwydd ac yn flaenoriaeth. Cadarnhawyd y bydd yr

ymchwiliadau hyn yn cael eu cynnal gan ddal sylw at ofynion diogelu data a chyfrifoldebau at gynnal prosesau teg a phriodol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Diolchwyd am yr adroddiad a chroesawyd yr ymchwiliadau hyn. Holwyd pe bai modd crynhoi'r gwersi sydd wedi eu dysgu hyd yma, a'r camau sydd eisoes wedi eu cymryd er mwyn cryfhau trefniadau'r Cyngor. Mewn ymateb, cyfeiriwyd at adroddiadau chwarterol Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb. Aethpwyd ymlaen i sôn am gynnwys gwefan y Cyngor a'r wybodaeth sydd yno am gasgliadau'r Adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder, yr hyn sydd wedi'i gyflawni, a'r hyn sy'n mynd rhagddo fel rhan o ymateb y Cyngor. Datganwyd hefyd bod gan ysgolion y Sir fynediad at system reoli data electroneg, fel bod modd cofnodi newid ymddygiad mewn plant. Ychwanegwyd bod capasiti'r Tîm Diogelu a Lles Addysg wedi cynyddu yn ogystal. Crybwyllwyd y newidiadau i drefniadau diogelu Adran 5, ar system sy'n cael ei beilota i hwyluso cofnodi cyfarfodydd diogelu Adran 5. Soniwyd am y fideo hyfforddiant diogelu sydd wedi ei ddatblygu mewn modd hygyrch ac addas ar gyfer holl weithlu'r Cyngor. Pwysleisiwyd bod cytundeb mewn lle i alluogi cyd-weithio gyda'r Heddlu mewn argyfwng. Tynnwyd sylw penodol at y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd a gafodd ei ddatblygu gan yr Adran Plant, gan nodi ei fod yn egluro disgwyliadau ar gyfer hyfforddiant, cefnogaeth a dysgu. Ychwanegwyd mai'r nod yw sicrhau y caiff y gefnogaeth orau ei rhoi i blant a theuluoedd, a chadarnhawyd bod y Fframwaith yn gam ymlaen wrth geisio gwreiddio diwylliant a newid hirdymor o fewn y Cyngor.
- Pwysleisiwyd nad oes ymyrraeth wleidyddol wrth ymwneud â materion staffio o fewn y maes hwn. Cydnabuwyd bod diddordeb cyhoeddus yn y mater hwn, ond bod rhaid gweithredu yn unol â'r gyfraith a pharchu hawliau cyflogaeth unigolion. Sicrhawyd bod y Cyngor yn deall eu cyfrifoldeb ac yn gweithredu'n briodol ac yn amserol.
- Cadarnhawyd gan Aelod Cabinet bod gwersi yn cael eu dysgu, a bod popeth posib yn cael ei wneud i sicrhau na all unrhyw beth fel hyn ddigwydd eto. Crybwyllwyd ganddo ei gred fod y Cyngor wedi gweithredu yn briodol drwy'r broses hon, gyda chyngor annibynnol wedi'i dderbyn a bod y Cyngor wedi gweithredu ar y cyngor hwnnw. Amlygwyd yr her mewn perthynas â gwneud penderfyniadau ynghylch rhagor o ymchwiliadau ac adroddiadau heb fod yn sicr o'u heffaith ar yr unigolion sydd wrth galon hyn, a heb wybod os mai dyma'r camau y byddant hwy yn ei ddymuno. Ategwyd bod y Cyngor wedi bod yn cefnogi'r teuluoedd drwy gydol y broses hon. Pryderwyd nad yw llais y plentyn yn amlwg yn y ddogfen hon. Holwyd sut y mae posib sicrhau bod penderfyniadau o fewn y maes hwn yn parchu anghenion y plant.
- Mewn ymateb, cadarnhawyd bod y Cyngor yn ceisio bod yn drawma ymwybodol ym mhob rhan o'r daith a bod lles y dioddefwyr ar frig ystyriaethau'r Cyngor. Ategwyd y cais i beidio â defnyddio llun y troseddwr yn y cyfryngau, gan bryderu am effaith posib gweld llun o'r troseddwr ar y dioddefwyr. Pwysleisiwyd yr angen i fod yn drawma ymwybodol o effaith unrhyw ymchwiliad neu adroddiad a fydd yn cael ei gynnal.
- Cyfeiriwyd at yr adolygiad o drefniadau llywodraethu ysgolion sy'n cael ei gynnal, gan nodi ei fod yn gyfan gwbl sylfaenol i ddyfodol addysg a diogelwch plant yng Nghymru wrth fynd ymlaen. Gobeithiwyd y bydd y gwaith hwn yn parhau, ac yn

mynd i wraidd systemau cyfredol. Credwyd y dylid edrych ar y rhaniad pwerau rhwng cyrff llywodraethol ac adrannau addysg o fewn awdurdodau lleol.

## 9. DYRANNU INCWM O'R PREMIWM AIL GARTREFI A THAI GWAG AR GYFER 2026-27

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Huw Wyn Jones.

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd:

Dyrannu'r incwm ychwanegol o'r premiwm ar eiddo gwag ac ail gartrefi i'r meysydd blaenoriaeth a nodir yn Rhan 4 isod.

Comisiynu gwaith pellach i lunio cynigion ar gyfer y defnydd o'r arian premiwm ychwanegol o £914k sydd yn berthnasol i 2025/26 a'r swm o £4k sydd weddill heb ei ddyrannu yn yr adroddiad yma.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei bod yn ofynnol ar gynghorau i bennu defnydd o'r premiwm yn unol â'r Canllawiau Statudol Treth Gyngor ar dai gwag ac ail gartrefi.

Adroddwyd bod y Cyngor wedi dilyn yr egwyddor hon wrth ddyrannu i ddibenion a meysydd penodol; aliniad â'r canllawiau statudol ar ddefnyddio incwm premiwm ac aliniad â'r amcanion a nodir yng Nghynllun y Cyngor.
Aethpwyd ymlaen i restru nifer o ystyriaethau sydd hefyd angen eu gwneud wrth ystyried y dyraniad. Mae'r rhain yn cynnwys nifer uwch o ymholiadau am y premiwm, newidiadau deddfwriaethol pellach i'r gyfundrefn drethi yn 2026-27 all arwain at fwy o ymholiadau / apeliadau, nifer ac amser apeliadau i'r Swyddfa Brisio yn rhoi pwysau ar drigolion ac ar weinyddiaeth y Gwasanaeth Trethi, a bod y rhybudd i derfynu grant tai gwag Llywodraeth Cymru o Fedi 2026 yn golygu nad oes ffrwd incwm ar gyfer gwireddu targedau tai gwag y Cynllun Gweithredu Tai.

Amlygwyd yr angen i glustnodi'r incwm ychwanegol i sy'n deillio o gynyddu'r Premiwm ar Eiddo Gwag a chasglu incwm premiwm oedd uwchlaw'r amcangyfrifon yn 2024/25, i feysydd blaenoriaeth.
Argymhellwyd gwerth £1.2 miliwn i'w ddyrannu, sydd wedi'i fanylu yn yr adroddiad, gan nodi fod hyn yn £1.14 miliwn ar sail barhaol a £79 o filoedd ar sail un-tro.

<u>Sylwadau sy'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Croesawyd yr adroddiad a phwysleisiwyd pwysigrwydd y Gronfa Gymunedol gan ei fod yn galluogi'r Cyngor i gefnogi cymunedau.
- Mynegwyd balchder bod colofn ar effaith wedi'i ychwanegu at yr adroddiad, sy'n rhoi cyfle i fesur effaith yr arian hwn ar gymunedau a phobl Gwynedd.

## 10. CYFRIFON TERFYNOL 2025/26 – ALLDRO REFENIW

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Huw Wyn Jones.

**PENDERFYNIAD**

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad ac ystyried y sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2025/26:

| | *Colofn A* | *Colofn B* | *Colofn C* | *Colofn CH* | *Colofn D* |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Gor/(Tan) Wariant Gros 2025/26** | **Addasiadau a Argymhellir** | | | **Gor/(Tan) Wariant Addasedig 2025/26** |
| | **£ '000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,381 | (1,281) | | | **100** |
| Plant a Theuluoedd | 3,396 | (3,296) | | | **100** |
| Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal | (99) | | | | **(99)** |
| Addysg | (24) | | | | **(24)** |
| Economi a Chymuned | 269 | | (269) | | **0** |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC | 407 | (307) | | | **100** |
| Amgylchedd | 1,378 | (22) | | (1,256) | **100** |
| Tai ac Eiddo | (20) | | | | **(20)** |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | (39) | | | | **(39)** |
| Gwasanaethau Corfforaethol | (20) | | | | **(20)** |
| Cyllid | (38) | | | | **(38)** |

Gan nodi bod gwariant sylweddol uwchlaw'r gyllideb gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd a'r Adran Amgylchedd yn 2025/26 (Gweler colofn A yn y tabl uchod). Cymeradwywyd y trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u hegluro yn Atodiad 2) –

- Yr adrannau sydd yn gorwario i dderbyn cymorth ariannol un tro gan gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k (Gweler colofn B yn y tabl uchod).
- Cadarnhau'r cymorth ariannol o £269k uwchlaw'r taliad cytundebol i Gwmni Byw'n Iach (Gweler colofn C yn y tabl uchod).
- Cyllido'r gorwariant o £1.256 miliwn yn y maes Gwastraff trwy ddefnyddio £786k o'r Gronfa Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer a £470k o'r Gronfa Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu (Gweler colofn CH yn y tabl uchod).
- Dyrannu bid ariannol o hyd at £800k i'r Adran Tai ac Eiddo i gyllido'r pwysau ar y gwasanaeth llety argyfwng yn 2026/27.
- Ar gyllidebau Corfforaethol:

- defnyddio (£2.8 miliwn) o'r tanwariant ar gyllidebau corfforaethol i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2025/26.
- y gweddill o (£3.174 miliwn) sydd ei angen i gyllido'r holl ofynion i gael ei gyllido o Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor.
– y tanwariant o (£914k) ar Bremiwm Treth Cyngor yn cael ei drosglwyddo i gronfa Premiwm Treth Cyngor gyda'i ddefnydd i'w benderfynu gan y Cabinet.

Cymeradwywyd y symiau i'w cario 'mlaen (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" yng ngholofn D uchod ac yng ngholofn D Atodiad 1).

Cymeradwywyd y trosglwyddiadau ariannol o'r Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor fel yr amlinellir yn Atodiad 3 yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd:

- £6.6 miliwn yn cael ei symud i falansau cyffredinol y Cyngor
- £1.5 miliwn yn cael ei symud i gronfa Diogelu Adeiladau.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi y caiff talfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

Manylwyd ar gynnwys Atodiad 2 gan adrodd rhai o'r prif bwyntiau. Nodwyd bod gwariant yn y meysydd lleoliadau all-sirol plant, gwastraff, gofal preswyl a gofal cartref wedi parhau i fod yn uwch na'r gyllideb a ddyrannwyd iddynt. Amlygwyd bod y tanwariant ar gyllidebau corfforaethol yn cynorthwyo i leddfu'r sefyllfa ariannol ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Ychwanegwyd y bydd angen defnyddio £3.2 miliwn o'r Gronfa Strategaeth Ariannol i fantoli sefyllfa o ddiffyg ariannol yr adrannau.

Datganwyd bod diffyg cyllidebol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesant wedi lleihau i £1.4 miliwn, gan adnabod bod y pwysau ar y gwasanaethau darparu yn gyfrifol am ran helaeth o'r pwysau adrannol.

Wrth gyfeirio at yr Adran Plant a Theuluoedd, esboniwyd y bu cynnydd o 11 o leoliadau all-sirol gan gynnwys achosion eithriadol o leoliadau heb gofrestriad. Ategwyd bod hyn yn fwy costus ac wedi arwain at gynnydd yn y diffyg cyllidebol adrannol i £3.4 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yn ogystal, soniwyd bod pwysau cynyddol ar gyllideb y Gwasanaeth Ôl-16 ac ar gefnogaeth cynlluniau cefnogol a gweithwyr maes.

Adroddwyd ar ddiffyg cyllidebol o £407k gan yr Adran Priffyrdd Peirianneg ac YGC. Crybwyllwyd bod lleihad yn y gwaith a gaiff ei gomisiynu gan asiantaethau allanol wedi cael effaith negyddol ar incwm y gwasanaethau Priffyrdd.

Aethpwyd ymlaen i drafod yr Adran Amgylchedd, gan amlygu diffyg cyllidebol o £1.38 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Esboniwyd bod tueddiad gorwariant yn y maes gwastraff yn parhau, ac yn gyfrifol am £1.26 miliwn o'r sefyllfa adrannol. Soniwyd bod cynlluniau arbedion mewn nifer o wasanaethau yn llithro, sydd hefyd yn rhan o'r darlun. Nodwyd bod y gorwariant yn y maes gwastraff i'w gyllido o'r enillion ail-

ariannu Parc Adfer ac incwm o ardoll ar ddeunyddiau pacio i gynhyrchwyr a mân-werthwyr.

Tynnwyd sylw at yr Adran Tai ac Eiddo, ynghyd â'r pwysau sylweddol sy'n wynebu'r gwasanaeth llety argyfwng. Datganwyd bod y sefyllfa ariannol hon yn dilyn ystyried cyllideb ychwanegol o £4.2 miliwn a ddyrannwyd o bremiwm treth cyngor, yn ogystal â chyllideb un-tro ychwanegol o £859k a ddyrannwyd fel rhan o'r drefn bidiau i gynorthwyo â'r pwysau cynyddol.

Soniwyd bod balansau'r ysgolion wedi gweld gostyngiad o £1.2 miliwn, ac amlygwyd bod gan saith ysgol gynradd a thair ysgol uwchradd ddiffyg ar ddiwedd blwyddyn ariannol 25/26.

Adroddwyd ar y trosglwyddiadau sydd i'w gweithredu o gronfeydd y Cyngor, fel a gaiff eu hamlinellu yn Atodiad 3.

Nodwyd gan y Pennaeth Cyllid ei fod o'r farn y dylid cynyddu balansau cyffredinol y Cyngor.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Pwysleisiwyd mai'r un yw'r stori yn sgil tan gyllido gwasanaethau'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda phwysau cynyddol ar y gwasanaethau hyn. Amlygwyd mai darparu ar gyfer trigolion fwyaf bregus y sir yw'r flaenoriaeth.
- Soniwyd am y galw cynyddol sydd ar y gwasanaeth plant a chefnogi teuluoedd, sy'n arwain at gostau uwch. Nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i geisio lleihau'r ddibyniaeth ar leoliadau all-sirol, a cheisio cefnogi'r plant yn eu cymunedau lle bu hynny'n bosib. Esboniwyd bod diogelu plant yn flaenoriaeth i'r Cyngor, a bod y defnydd o gronfeydd wrth gefn yn pwysleisio'r flaenoriaeth hon.
- Pryderwyd am y gost sylweddol o leoli plant yn all sirol, a'r diffyg cefnogaeth ychwanegol gan y Llywodraeth i ymateb i hyn. Pwysleisiwyd bod dyletswydd foesol i gartrefu unrhyw blentyn sydd angen y cymorth hwn, ac felly bod angen mynd a'r sgwrs am gyllido'r maes ymhellach na ffiniau'r Cyngor.
- Soniwyd bod y gwariant ar ddigartrefedd yn creu pryder. Adnabuwyd bod y Llywodraeth flaenorol wedi addo ariannu'n gost ychwanegol i wasanaethau a fydd yn deillio o'r ddeddfwriaeth newydd, a'i bod felly yn allweddol i'r Llywodraeth newydd gadw at yr addewid hon. Amlygwyd bod y Cyngor wedi cymryd camau i brynu adeiladau, felly rhagwelwyd y bydd y gwariant ar ddigartrefedd yn lleihau yn sgil hynny.
- Rhybuddiwyd gan yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned y bydd angen gwariant sylweddol ar isadeiledd adeiladau Byw'n Iach yn y blynyddoedd nesaf.
- Adnabuwyd mai helpu pobl Gwynedd yw'r brif flaenoriaeth, ond bod tan gyllido blynyddol yn arwain at gael yr un drafodaeth yn flynyddol. Wrth gyfeirio at San Steffan, nodwyd bod y baich dreth ar y wlad yn uchel ond bod penderfyniadau i beidio ariannu gwasanaethau angenrheidiol a gaiff eu darparu gan Gynghorau yn cael effaith fawr ar bobl o fewn ein cymunedau. Eglurwyd bod angen cofio mai dyrannu arian y maent yn ei gael gan San

Steffan mae Llywodraeth Cymru, a phryderwyd na fydd llawer mwy o arian yn cael ei roi gan San Steffan.

## 11. RHAGLEN GYFALAF 2025/26 – ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 MAWRTH 2026)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Huw Wyn Jones.

### PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2026) o'r rhaglen gyfalaf.

Cymeradwywyd yr addasiadau canlynol i'r Gyllideb Gyfalaf a gymeradwywyd ar 6 Mawrth 2025 ac a addaswyd ar 11 Tachwedd 2025 a'r 20 Ionawr 2026 o safbwynt dulliau ariannu'r rhaglen (fel nodir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad), sef:

- cynnydd o £35,000 mewn defnydd o fenthyca
- cynnydd o £14,058,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- cynnydd o £485,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- cynnydd o £1,313,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- lleihad o £2,493,000 mewn defnydd o'r gronfa cyfalaf
- lleihad o £667,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

### TRAFODAETH

Eglurwyd bod yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £164.9 miliwn am y 3 blynedd rhwng 2025/26 – 2027/28. Ychwanegwyd bod yr adroddiad yn manylu ar y ffynonellau i ariannu'r cynnydd net sydd oddeutu £12.7 miliwn ers yr adolygiad diwethaf.

Adroddwyd mai'r prif gasgliadau yw bod y Cyngor wedi llwyddo i wario £83.8miliwn yn 2025/26 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £52.7miliwn (63%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol. Amlygwyd bod £21.9miliwn ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2025/26 i 2026/27 a 2027/28. Aethpwyd ymlaen i restru'r prif gynlluniau sydd wedi llithro ers y gyllideb wreiddiol.

Tynnwyd sylw at y rhestr o'r grantiau ychwanegol y llwyddodd y Cyngor eu denu ers yr adolygiad diwethaf, sy'n cynnwys:

- £3.2 miliwn – Grant Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) gan Lywodraeth Cymru.
- £2.4 miliwn – Grant ychwanegol Cynnal a Chadw Ysgolion 2025/26.
- £2.3 miliwn – Grant Cyfalaf Cyffredinol Ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.
- £1.8 miliwn – Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at Hwb Cymunedol Anabledd Dysgu, Canolfan Dolfeurig.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Amlygwyd amryw o faterion cadarnhaol sy'n deillio o'r adroddiad, gan gynnwys y gwerth sylweddol o grantiau ychwanegol mae'r Cyngor wedi llwyddo i'w denu. Tynnwyd sylw at y gwaith helaeth sy'n mynd rhagddo o fewn adrannau'r Cyngor er mwyn llunio'r ceisiadau am y grantiau dan sylw.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00yh a daeth i ben am 3:45yh

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 9 Mehefin 2026 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dewi Jones |
| **Swyddog Cyswllt:** | Gwern ap Rhisiart – Pennaeth Addysg |
| **Teitl yr Eitem:** | Ysgol Y Garreg - Adroddiad Gwrthwynebu |

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

---

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Gofynnir i'r Cabinet gadarnhau'n derfynol y cynnig a roddwyd drwy hysbysiad statudol sef - "Cau Ysgol Y Garreg ar 31 Awst 2026 a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen o 1 Medi 2026," yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018.

### 2. CEFNDIR

2.1. Ysgol gynradd gymunedol yw Ysgol Y Garreg sydd wedi ei lleoli ym mhentref Llanfrothen. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 11 oed ac yn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3. Derbynnir dysgwyr i'r ysgol yn rhan amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn ddysgwyr llawn amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

2.2. Dengys data CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) ar y dyddiad 20 Ionawr 2026 mai dim ond 2 o ddysgwyr sydd yn yr ysgol (Derbyn i Blwyddyn 6) gyda 0 dysgwr yn y Dosbarth Meithrin.

| **Niferoedd dysgwyr yn Ysgol Y Garreg (CYBLD Ionawr 2026)** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Meithrin** | **Derbyn** | **Bl1** | **Bl2** | **Bl3** | **Bl4** | **Bl5** | **Bl6** | **Cyfanswm** |
| **2026** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | **2** |

2.3. Mae gostyngiad o 88% yn y niferoedd sy'n mynychu'r ysgol o'i gymharu a data CYBLD Ionawr 2025 pan oedd 17 o ddysgwyr ar y gofrestr. Pan fydd niferoedd dysgwyr yn gostwng

i lefelau isel iawn, yn enwedig islaw 10 mae'r gallu i sicrhau cyflwyno cwricwlwm eang i'r dyfodol yn cael ei lesteirio. Mae'r nifer isel o ddysgwyr yn codi pryderon ynghylch:

- Profiad addysgol a rhyngweithio â chyfoedion
- Hyfywedd a gwydnwch staffio
- Cynaliadwyedd ariannol a defnydd effeithlon o adnoddau
- Y gallu i fodloni gofynion statudol y cwricwlwm

## 3. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

3.1. Cyflwynodd yr Adran Addysg adroddiad i'r Cabinet 10 Chwefror 2026 yn gofyn am ganiatâd i gynnal cyfnod gwrthwynebu statudol ar y cynnig i gau Ysgol Y Garreg yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

3.2. Os oes gan ysgol lai na 10 o ddysgwyr ar y gofrestr pan gynhelir y cyfrifiad yma ym mis Ionawr (CYBLD - Cyfrifiad Ysgolion Blynyddoedd ar Lefel Disgyblion), mae'r Cod yn nodi:

*"Mae Deddf 2013 yn caniatáu i gyrff llywodraethu / awdurdodau lleol ddilyn gweithdrefn symlach er mwyn cau'r ysgol yn swyddogol. Yr unig beth y byddai'n ofynnol iddynt ei wneud o dan y weithdrefn honno fyddai cyhoeddi'r hysbysiad cau – byddai'r gofyniad i ymgynghori'n gyffredinol yn cael ei hepgor, cyhyd â bod digon o leoedd mewn ysgolion cyfatebol wedi'u nodi a fyddai'n rhesymol hygyrch i'r disgyblion hynny sydd wedi'u dadleoli neu a allai gael eu dadleoli."*

3.3. Oherwydd bod llai na 10 o ddysgwyr cofrestredig yn Ysgol Y Garreg (CYBLD Ionawr 2026), mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn caniatáu'r awdurdod i ddilyn gweithdrefn symlach er mwyn cau'r ysgol. Yn benodol, mae'r gofyniad i ymgynghori'n gyffredinol yn cael ei hepgor, a'r unig beth fyddai'n ofynnol ei wneud fyddai cyhoeddi'r rhybudd statudol.

3.4. Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd i'r Cabinet yn dilyn cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig sef –

"Cau Ysgol Y Garreg ar 31 Awst 2026 a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen o 1 Medi 2026."

3.5. Cyhoeddwyd y Rhybudd Statudol 25 Chwefror 2026, gan gychwyn cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben 24 Mawrth 2026, ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad.

## 4. **CYFNOD GWRTHWYNEBU STATUDOL**

4.1. Yn sgil y penderfyniad a wnaed gan y Cabinet yn ei gyfarfod 10 Chwefror 2026, cyhoeddwyd Hysbysiad Statudol (**Atodiad A**) ar 25 Chwefror 2026, gan gychwyn cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod.

4.2. Rhoddwyd yr hysbysiad ar y giatiau a phrif fynedfa Ysgol Y Garreg ac Ysgol Cefn Coch. Cyhoeddwyd yr hysbysiad ar wefan y Cyngor gyda chefndir y cynnig, linc i'r adroddiad gyflwynwyd i'r Cabinet ar 10 Chwefror 2026, ynghyd ag eglurhad o sut i gyflwyno

gwrthwynebiadau. Bu i'r holl ran-ddeiliaid perthnasol dderbyn e-bost gyda linc i'r wefan i'w hysbysu fod y cyfnod gwrthwynebu yn cychwyn ar 25 Chwefror 2026.

4.3. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben 24 Mawrth 2026 ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad.

4.4. Bu i athrawes yn Ysgol Y Garreg egluro ystyr yr hysbysiad statudol i'r dysgwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall y cynnig ac er mwyn rhoi cyfle iddynt ddatgan eu barn ar y cynnig pe buasent yn dymuno gwneud hynny.

Dyma grynodeb o'r ddau lythyr dderbyniwyd gan y dysgwyr sydd yn nodi eu sylwadau ynglŷn â'r cynnig –

- Mynegwyd eu tristwch fod yr ysgol yn mynd i gau.
- Nodwyd eu bod yn hapus yn Ysgol Y Garreg ac yn dysgu llawer o bethau yn yr ysgol.
- Gwahoddwyd y Pennaeth Addysg i'r ysgol gan un o'r dysgwyr i siarad gyda hwy.

4.5. Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd i ystyried barn y plant sy'n cael eu heffeithio, yn unol â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Mae deall beth yw teimladau'r dysgwyr ynglŷn â'r cynnig yn elfen allweddol er mwyn cyfrannu at benderfyniad cytbwys a thryloyw sy'n ystyried effaith y cynnig ar eu llesiant, yn ogystal ag ystyriaethau strategol ac ariannol.

4.6. Cyflwynir yr adroddiad hwn er mwyn i'r Cabinet ystyried y sefyllfa cyn dod i benderfyniad ar gadarnhau'r cynnig yn derfynol.

## 5. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y 'PENDERFYNIAD A GEISIR'

5.1. Yn unol â strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'* ystyriwyd nifer o ffactorau wrth ddatblygu a gwerthuso opsiynau ar gyfer y sefyllfa. Bu i'r materion hyn gael sylw manwl yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet 10 Chwefror 2026. Gweler **Atodiad B** am y pecyn cefndirol.

5.2. Wedi cynnal y cyfnod gwrthwynebu a hynny drwy hysbysiad statudol, a'r ffaith na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad, y mae'r Awdurdod yn fodlon mai gweithredu'r cynnig yw'r ymateb mwyaf priodol i'r rhesymau a nodwyd dros lunio'r cynnig, gan na fyddai'r un o'r opsiynau eraill a ystyriwyd yn mynd i'r afael a'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu gan gynnwys:

- **Niferoedd isel o ddysgwyr** – Dengys data CYBLD Ionawr 2026 fod 2 dysgwr llawn amser yn yr ysgol (Derbyn i Blwyddyn 6) a 0 dysgwr yn y dosbarth meithrin.
- **Arweinyddiaeth a staffio –** Mae strwythur staffio presennol Ysgol y Garreg yn cynnwys pennaeth mewn gofal dros dro sydd yn gyfrifol am ddwy ysgol drwy drefniant anffurfiol, un athrawes llawn amser a chymhorthydd dros dro (0.6 FTE). Mae'r trefniant staffio presennol wedi cynnig datrysiad tymor byr; fodd bynnag, mae'r niferoedd isel iawn o ddysgwyr wedi cyfrannu at sefyllfa sy'n heriol o ran cynaliadwyedd hirdymor.
- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Yn seiliedig ar ffigyrau Ionawr 2026 (Derbyn i Blwyddyn 6) mae 95% o lefydd gweigion yn yr ysgol (39 mewn nifer). Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 41 o ddysgwyr (Derbyn i Blwyddyn 6) a chapasiti ar gyfer 7 o ddysgwyr

yn y Dosbarth Meithrin. Felly gyda 0 dysgwr meithrin ar y gofrestr, mae 7 o lefydd gweigion yn y meithrin yn ogystal.

- **Maint dosbarthiadau bychain iawn ac amrediad oedran eang –** Mae'r dysgwyr (Derbyn i Bl6) yn cael eu haddysgu mewn un dosbarth. Mae'r ail ddosbarth yn yr ysgol yn wag. Nid oes dysgwyr ym mlynyddoedd Meithrin i Blwyddyn 5 yn yr ysgol.
- **Rhagamcanion niferoedd** - Mae rhagamcanion yn seiliedig ar niferoedd CYBLD Ionawr 2026 yn awgrymu na fydd dysgwyr o oedran statudol yn yr ysgol ym mis Medi 2026 gan nad oes dysgwyr yn y dosbarthiadau Derbyn i blwyddyn 5 nac ychwaith yn y dosbarth Meithrin eleni.
- **Dysgwyr y dalgylch –** Dengys cyfrifiad CYBLD Ionawr 2026 mai dim ond 9% o ddysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg sy'n dewis mynychu'r ysgol. Mae 91% o ddysgwyr y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion all-dalgylch.
- **Ysgol Y Garreg yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad cyllidol craidd –** Mae Ysgol Y Garreg yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Yn seiliedig ar niferoedd Medi 2025 byddai'r ysgol yn derbyn £68,822 yn ychwanegol i'r dyraniad arferol drwy'r polisi lleiafswm staffio.
- **Cyfartaledd cost fesul dysgwr –** Byddai cost fesul dysgwr yn Ysgol Y Garreg ar gyfer 2026/27 yn seiliedig ar niferoedd Medi 2025 yn £21,471 o gymharu â'r cyfartaledd sirol o £5,998.

## 6. FFACTORAU PENODOL WRTH YSTYRIED CAU YSGOL

Er bod proses i gau ysgol gyda llai na 10 o ddysgwyr yn hepgor y gofyn i ymgynghori'n gyffredinol, mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi fod rhaid ystyried materion perthnasol sydd wedi eu cynnwys yn y Cod. Mae'n nodi y dylid rhoi sylw arbennig i'r opsiynau canlynol wrth ystyried os yw'n briodol cau ysgol:

a. *A ellid ystyried sefydlu ysgolion â mwy nag un safle fel ffordd o gadw adeiladau, neu resymau dros beidio â dewis yr opsiwn hwn.*

Gyda dim ond 2 ddysgwr yn yr ysgol, mae Ysgol Y Garreg yn wynebu her gynyddol i osod cyllideb gytbwys gan fod yr ysgol yn derbyn dyraniad ar sail niferoedd dysgwyr, a bydd hynny, ynghyd â swm gwarchodaeth a ddyrannir iddynt yn eu galluogi i gyflogi pennaeth a chymhorthydd yn unig yn seiliedig ar niferoedd o 2 ddysgwr. Oherwydd hyn mae Cyngor Gwynedd o'r farn ni ellid ystyried sefydlu ysgolion â mwy nag un safle fel ffordd o gadw yr ysgol ar agor.

b. *A ellid ystyried posibiliadau amgen heblaw cau'r ysgol, megis clystyru, cydweithredu neu ffedereiddio ag ysgolion eraill, neu'r rhesymau dros beidio ag ystyried y rhain fel opsiwn amgen yn lle cau'r ysgol.*

Gan y byddai clystyru, cydweithredu neu ffedereiddio ag ysgolion eraill, yn golygu parhau gyda'r ysgol bresennol, a felly bod tebygolrwydd uchel y bydd yr heriau presennol yn parhau ac yn dwysáu dros y blynyddoedd nesaf, mae'r Cyngor felly o'r farn nad ydi gwneud hyn yn opsiwn fyddai'n cyfarch yr heriau sy'n wynebu Ysgol Y Garreg heddiw ac i'r dyfodol.

c. *A ellid archwilio'r posibiliadau o wneud defnydd llawnach o'r adeiladau presennol fel adnodd cymunedol neu addysgol.*

Gan fod Canolfan Gymdeithasol Llanfrothen wedi ei lleoli drws nesaf i'r ysgol, ac mae'r dafarn lleol Menter Y Ring (Tafarn Brondanw Arms) wedi derbyn nawdd er mwyn ail-agor er budd y gymuned, ni ragwelir bod angen adnodd cymunedol arall yn yr ardal. Serch hynny, pe gweithredir y cynnig, mae gan Cyngor Gwynedd bolisi ôl-ddefnydd safleoedd ysgolion a byddai y polisi hwn yn cael ei ddilyn wrth ystyried dyfodol y safle.

*ch. Effaith gyffredinol cau'r ysgol ar y gymuned leol (gan gynnwys colli cyfleusterau yn yr ysgol a ddefnyddir gan y gymuned leol).*

Does dim defnydd cymunedol o'r ysgol bresennol. Mae Canolfan Gymdeithasol wedi ei lleoli drws nesaf i'r ysgol. Mae Cyngor Gwynedd o'r farn, gan fod y Ganolfan yn annibynnol o'r ysgol, ni ragwelir y byddai cau'r ysgol yn cael unrhyw effaith ar ddigwyddiadau cymunedol lleol.

*d. Sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig.*

Er mwyn lliniaru unrhyw effaith negyddol posib ar y dysgwyr, byddwn yn annog trafodaethau rhwng Ysgol Cefn Coch â rhieni dysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg fel bod modd iddynt fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog cydweithio rhwng yr ysgol a chymuned Llanfrothen.

## 7. RHAGDYBIAETH YN ERBYN CAU YSGOLION GWLEDIG

7.1. Yn achos Ysgol Y Garreg sydd wedi ei dynodi yn ysgol wledig at ddiben y cod, rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r gofynion gweithdrefnol ychwanegol mewn perthynas â llunio cynigon ar gyfer ysgolion gwledig.

7.2. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cynnwys gweithdrefn arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig, gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau. Fe nodir yn y Cod *"Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau, ond bod rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwybodol gan y cynigydd, gan gynnwys ffederaleiddio."*

7.3. Yn ogystal â'r ffactorau sy'n berthnasol wrth ddatblygu unrhyw gynnig, mae'n rhaid hefyd cynnal asesiadau penodol mewn perthynas a chynnig arfaethedig o'r math yma. Cynhaliwyd nifer o asesiadau yn unol â gofynion y Cod, o'r opsiynau y credir y byddent yn mynd i'r afael â sefyllfa'r ysgol.

7.4. Cynhaliwyd nifer o asesiadau effaith yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 gan gynnwys:

- Asesiad o'r Effaith debygol ar yr Iaith Gymraeg
- Asesiad o'r Effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio
- Asesiad o'r Effaith debygol ar y gymuned
- Asesiad o'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg
- Asesiad Ardrawiad Cyfansawdd

Rhoddwyd ystyriaeth bellach i'r asesiadau uchod yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig felly ystyrir bod canfyddiadau'r asesiadau

yn parhau'n gyfredol ac yn berthnasol i'r argymhelliad. Mae'r asesiadau diweddaraf wedi eu cynnwys yn **Atodiad B.**

7.5. Nodir casgliadau'r asesiad o'r effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio y byddai'r opsiwn o gau'r ysgol yn golygu fod angen i ddysgwyr dalgylch bresennol Ysgol Y Garreg deithio yn bellach i'w hysgol bob dydd. Gan fod yr ysgol amgen fwy na 2 filltir o'u cartrefi, bydd ganddynt hawl i gludiant am ddim i'r ysgol amgen. Mae Ysgol Cefn Coch wedi ei lleoli 2.1 milltir o Ysgol Y Garreg a bydd cludiant i'r ysgol amgen yn cael ei gynnig yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

7.6. Dengys yr asesiad cymunedol y rhagwelir peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir y cynnig i gau Ysgol Y Garreg. Cydnabyddir y byddai cau'r ysgol yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Llanfrothen, fodd bynnag nodai'r asesiad fod cyfran helaeth iawn o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill (78%), gan gynnwys Ysgol Cefn Coch (13%), ac felly deuir i'r casgliad fod peth cyswllt rhwng Ysgol Cefn Coch a chymuned Ysgol Y Garreg yn bodoli eisoes.

7.7. Cynhaliwyd asesiad o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg ar yr holl opsiynau. Gweler yr adroddiad llawn yn **Atodiad B.** Yn ôl adroddiadau diweddaraf Estyn, mae Ysgol Cefn Coch yn cynnig addysg o ansawdd a safon sy'n gyfatebol, ag Ysgol Y Garreg, fan lleiaf.

Cafodd Ysgol Y Garreg ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn 2023 (fframwaith arolygu newydd) a nodwyd bod 'safon yr addysgu yn gyson dda'. Bu i Estyn gyflwyno'r canlynol fel argymhellion:

- *Sicrhau lefel her briodol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau hyd orau eu gallu.*
- *Darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â rôl arweinyddol, er mwyn cyfrannu at waith a bywyd ehangach yr ysgol.*

Bu i Ysgol Cefn Coch gael eu harolygu diwethaf gan Estyn yn 2018, ble daethpwyd i'r casgliad fod perfformiad presennol yr ysgol yn erbyn y cwestiynau deilliannau a'r ddarpariaeth yn Dda, a'r arweinyddiaeth a'r gofal a lles yn Rhagorol (fframwaith adolygu blaenorol).

Gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Cefn Coch, rhagwelir y bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy, gyda chyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau pe gweithredir y cynnig arfaethedig. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau dysgu ac addysgu dysgwyr dalgylch Y Garreg yn Ysgol Cefn Coch.

7.8. Dylid nodi nad pryder ynghylch ansawdd yr addysg bresennol yn Ysgol Y Garreg sydd wedi arwain at y cynnig hwn. Yn wir, oherwydd cymhareb isel iawn o ddysgwr i athro, mae'r plant yn gwneud cynnydd da. Serch hynny, mae'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu o niferoedd isel iawn a dosbarthiadau o niferoedd bychain, yn golygu bod yna gyfyngiadau ar allu'r ysgol i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr feithrin a manteisio ar brofiadau allgyrsiol, cymdeithasol a'r gallu i gydweithio gyda pharau a grwpiau o gyfoedion yn y dosbarth yn unol â gofynion y cwricwlwm.

**8. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

8.1. Cynhaliwyd yr asesiadau effaith yn unol â chanllawiau penodol ‘rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgol wledig.’ Cafodd yr asesiadau ynghyd â’r adroddiad eu cyflwyno i’r Cabinet ar 10 Chwefror 2026 a chrynhoir eu casgliadau isod. Nid oes newid i gasgliadau’r asesiadau gan na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i’r cynnig.

8.2. **Asesiad Ardrawiad Cyfansawdd**

Cynhaliwyd asesiad effaith ardrawiad cyfansawdd ar y cynnig arfaethedig. Gellir gweld yr asesiad llawn yn **Atodiad B.**
Mae’r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae’r asesiad yn nodi’r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisïau a threfniadau mewn lle a fyddai’n sicrhau bod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal.

Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol, deuir i’r casgliad nad yw’r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar y mwyafrif o nodweddion cydraddoldeb. Nodir fod mesurau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol nac aflonyddu.

Rhagwelir y byddai gweithredu’r cynnig arfaethedig yn lleihau’r anghyfartaledd yn achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau bod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at ragor o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen. Byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd mwy cyfartal gan y byddai'r dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy’n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi sydd wedi’u gwahaniaethu’n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

Drwy weithredu’r cynnig arfaethedig, byddai dysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg yn cael gwell amgylchedd dysgu a byddai’r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.
Byddai’r Cyngor yn dilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pob ysgol â’r nodweddion cydraddoldeb.

8.3. **Asesiad Effaith Ieithyddol**

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion. Gweler yr asesiad llawn yn **Atodiad B**. Nodai’r asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg y rhagwelir y byddai’r cynnig arfaethedig yn cael effaith rhannol ar rai elfennau yng nghyd-destun y Gymraeg, yn bennaf:

- byddai’r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Y Garreg yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.
- byddai’r cynnig arfaethedig yn golygu y byddai gan ddysgwyr fynediad at gyflenwad uwch yn nhermau staffio a byddent yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion o’r un oedran, gallai’r cynnig gryfhau’r cyfleoedd i ddysgwyr o fewn y dosbarth.

- y byddai’r cynnig arfaethedig yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg yn debygol o ddefnyddio’r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol gyda’u cyfoedion y tu hwnt i oriau ysgol.
- y byddai’r cynnig arfaethedig yn golygu y byddai llai o rieni yn debygol o gyfarfod yn ddyddiol yng nghymuned Llanfrothen wrth ddanfon a gollwng plant.

Ar sail yr uchod, o weithredu’r cynnig arfaethedig, rhagwelir na fyddai effaith ar ddefnydd dysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg o’r Gymraeg mewn cyd-destun ffurfiol yn yr ysgol. Serch hynny, rhagwelir y byddai mwy o ddefnydd o’r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol y tu hwnt i oriau ysgol.

## 9. CASGLIAD

9.1. Gan na dderbyniwyd gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, a’r ffaith na adnabuwyd opsiwn arall a fyddai’n dod i’r afael a’r prif heriau y mae’r ysgol yn ei wynebu, argymhellir i’r Cabinet i gymeradwyo'r penderfyniad a geisir, sef cadarnhau’n derfynol y cynnig a roddwyd drwy hysbysiad statudol, i gau Ysgol Y Garreg ar 31 Awst 2026 a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen o 1 Medi 2026, yn unol ag Adran 53 o’r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018.

9.2. Y mae’r Adran Addysg yn parhau i fod o’r farn, a hynny ar ôl cynnal y cyfnod gwrthwynebu, na fyddai'r un o’r opsiynau eraill, gan gynnwys ffederaleiddio, yn mynd i’r afael a’r prif heriau sydd yn wynebu’r ysgol sef –


- niferoedd isel iawn o ddysgwyr.
- rhagamcanion yn dangos gostyngiad pellach o ddysgwyr.
- dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau sydd yn fychan iawn mewn niferoedd gyda dim ond 2 o ddysgwyr mewn un dosbarth a’r dosbarth arall yn wag.
- cost y pen yn parhau yn uchel iawn o’i gymharu a’r swm cyfartalog yn y sir.

## 10. GOBLYGIADAU’R CYNNIG


### 10.1. Dysgwyr y dalgylch

Os bydd y Cabinet yn penderfynu gweithredu’r cynnig, bydd Ysgol Y Garreg yn cau ar 31 Awst 2026 a bydd Ysgol Cefn Coch yn cael ei dynodi fel yr ysgol amgen o 1 Medi 2026. Byddai dalgylch Ysgol Y Garreg yn cael ei addasu i gynnwys ardal dalgylch presennol Ysgol Cefn Coch.

**Map 1: Dalgylchoedd presennol Ysgol Y Garreg ac Ysgol Cefn Coch**




**Map 2: Dalgylch Ysgol Cefn Coch os gweithredir y cynnig arfaethedig**




10.2. **Cludiant**

Os bydd y Cabinet yn penderfynu gweithredu'r cynnig bydd Ysgol Y Garreg yn cau ar 31 Awst 2026, bydd cludiant i'r ysgol amgen yn cael ei gynnig yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

10.3. **Ystyriaethau Staffio**

Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai goblygiadau staffio allasai arwain at ddiswyddiadau. Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau fyddai'n deillio o'r cynnig hwn gyd-fynd â'r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion.

**11. ARGYMHELLIAD**

11.1. Argymhellir bod y Cabinet yn cymeradwyo'r penderfyniad a geisir sef cadarnhau'n derfynol y cynnig a roddwyd drwy hysbysiad statudol, sef –

"Cau Ysgol Y Garreg ar 31 Awst 2026 a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen o 1 Medi 2026."

Yn unol ag adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/18.

**12. CAMAU NESAF**

Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet, dyma gamau nesaf y broses ynghyd ag amserlen;

| | |
|---|---|
| Mehefin 2026 | Rhannu'r penderfyniad terfynol gyda'r holl rhanddeiliaid perthnasol.<br><br>Cynnal trafodaethau gyda staff Ysgol Y Garreg. |
| 31 Awst 2026 | Gweithredu'r cynnig o gau Ysgol Y Garreg. |

**13. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

*"Mae'r gwaith yma wedi ei gefnogi gyda chyngor ac arweiniad gan y Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar ganlyniad y cyfnod gwrthwynebu statudol sydd wedi bod yn ei le o dan Rhan 3 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac yn cyflwyno cynnig terfynol i gau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen. Rwy'n fodlon felly gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir."*

**Y Pennaeth Cyllid:**

*"Fel nodwyd yn yr adroddiad blaenorol yn Chwefror 2026, mae'n amlwg o'r dystiolaeth sydd wedi ei gasglu nad yw sefyllfa Ysgol y Garreg bellach yn gynaliadwy ac fod angen gweithredu pendant er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa. Mae canlyniad y gwaith pellach sydd wedi ei gynnwys yn yr*

*adroddiad hwn yn ategu'r casgliad flaenorol a nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir."*

**14. SYLWADAU'R AELOD LLEOL**

*"Nid oes yr un cynghorydd eisio wynebu'r sefyllfa yma ac mae yn eithriadol o drist gorfod wynebu'r ffaith bod dim plant i fynd i Ysgol Y Garreg yn mis Medi 2026.*
*Mae Ysgol Y Garreg wedi bod yn rhan allweddol o' r gymuned ers dros canrif ac wedi paratoi addysg gwych i blant y fro. Mae yn drist bod y niferoedd wedi gostwng i'r graddau yma. Mae y ddau ddisgybl sydd yn ar ysgol ym Mlwyddyn 6 ac yn symud i Ysgol Uwchradd mis Medi 2026.*

*Fel rhannau eraill o Wynedd ac yn wir y byd gorllewinol mae niferoedd plant wedi gostwng yn sylweddol iawn a trwy reswm yn effeithio nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr.*
*Hefyd mae cymdeithas wedi newid a gyda'r hawl wedi ei roddi ers blynyddoedd bellach i rieni edrych ar addysgu eu plant mewn ysgolion o'u dewis, sydd yn aml iawn yn cyd fynd a gwaith a gofal.*
*Credaf ei fod yn bwysig diolch i'r staff am eu ymroddiad i'r dau ddisgybl mewn amgylchiadau anodd ac am gynnig profiadau addysgiadol gwych a difyr iddynt.*

*Hoffwn dynnu sylw at farn y corff llywodraethol sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad aeth ger bron y Cabinet ym mis Chwefror 2026 -*

*"Pe bai'r Cyngor yn penderfynu cau'r ysgol, hoffwn eich annog yn gryf i ystyried ailstrwythuro'r adeilad fel canolfan arbenigol ar gyfer disgyblion sy'n cael trafferth setlo mewn ysgolion prif lif, ond nad ydynt yn gymwys ar gyfer Ysgol Anghenion Dysgu Arbennig."*

## CYNGOR GWYNEDD

### ADRAN 48 DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

## HYSBYSIAD O GYNNIG I GAU YSGOL Y GARREG

### CYNGOR GWYNEDD, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON, GWYNEDD, LL55 1SH

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Gwynedd yn cynnig cau YSGOL Y GARREG, Llanfrothen, Penrhyndeudraeth, Gwynedd, LL48 6LJ. Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Gwynedd.

Cynigir gweithredu'r cynnig ar **31 Awst 2026.**

Yr ysgol a ddynodir ar gyfer dysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg yw Ysgol Cefn Coch, Penrhyndeudraeth, Gwynedd, LL48 6AE o 1 Medi 2026. Mae Ysgol Cefn Coch yn Ysgol Gymuned Cyfrwng Cymraeg. Mae'r ysgol ar gyfer genethod a bechgyn 3 i 11 oed.

Yr awdurdod mynediad ar gyfer Ysgol Cefn Coch yw Cyngor Gwynedd a bydd disgyblion yn cael eu derbyn i'r ysgolion gan Gyngor Gwynedd yn unol â'i bolisi mynediad. Bydd y trefniadau mynediad i'r ysgolion yn cael eu gwneud heb gyfraniad at allu na medr (bandio disgyblion).

Bydd cludiant yn cael ei ddarparu i'r ysgol yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion Cyngor Gwynedd.


Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod cynhaliol a Chyngor Gwynedd fydd yn gweithredu'r cynnig yma.

Lluniwyd y cynnig o ganlyniad i'r angen i gyfarch y niferoedd isel iawn o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Y Garreg ac o ganlyniad, maint bychain y dosbarthiadau, yn ogystal â rhagamcanion isel o niferoedd i'r dyfodol. Nid oedd yr un o'r opsiynau eraill a adnabuwyd ar gyfer yr ysgol, gan gynnwys ffederaleiddio, yn mynd i'r afael a'r heriau yma. Fel canlyniad ystyrir mai cau'r ysgol yw'r opsiwn mwyaf priodol.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig hwn, hynny yw erbyn **24 Mawrth 2026.**

Dylid anfon gwrthwynebiadau ysgrifenedig at sylw'r Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH neu drwy anfon neges e-bost at sylw'r Pennaeth Addysg i moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru

Llofnodwyd:



Gwern ap Rhisiart

Y Pennaeth Addysg, ar ran Cyngor Gwynedd

Dyddiad Cyhoeddi: **25 Chwefror 2026**

**NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw'r isod yn rhan o'r hysbysiad ond mae'n cynnig esboniad o'i bwrpas)

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig cau Ysgol Y Garreg ar 31 Awst 2026, a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen o 1 Medi 2026.

Yn unol â pholisi mynediad yr Awdurdod, mae gan rieni hawl i wneud cais mynediad (neu gais i drosglwyddo) i unrhyw ysgol. Darperir cludiant ysgol am ddim i ddysgwyr o ddalgylch Ysgol Y Garreg sydd yn dymuno mynychu Ysgol Cefn Coch os ydynt yn byw dros 2 filltir oddi wrth yr ysgol neu yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim oherwydd natur y ffordd i'r ysgol, yn unol â'r polisi cludiant cyfredol.

# CYNGOR GWNEDD

## SECTION 48 SCHOOL STANDARDS AND ORGANISATION ACT (WALES) 2013

## NOTICE OF PROPOSAL TO CLOSE YSGOL Y GARREG

### CYNGOR GWYNEDD, COUNCIL OFFICES, CAERNARFON, GWYNEDD, LL55 1SH

Notice is hereby given in accordance with Section 43 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and the School Organisation Code that Cyngor Gwynedd propose to close YSGOL Y GARREG, Llanfrothen, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6LJ. The school is maintained by Cyngor Gwynedd.

It is proposed to implement the proposal on **31 August 2026**.

The school denoted for the learners of Ysgol y Garreg's catchment area is Ysgol Cefn Coch, Penrhyndeudraeth, Gwynedd, LL48 6AE from 1 September 2026. Ysgol Cefn Coch is a Welsh medium Community School. The school is for girls and boys aged 3 to 11 years old.

The admission authority for Ysgol Cefn Coch will be Cyngor Gwynedd and pupils will be admitted to the schools by Cyngor Gwynedd in accordance with its admissions policy. The admissions arrangements for the school will not make provision for selection by aptitude or ability (pupil banding).

Transport will be provided to the school in accordance with Cyngor Gwynedd's School Transport Policy.

Cyngor Gwynedd is the maintaining authority and Cyngor Gwynedd will implement this proposal.

This proposal has been formulated as a result of the need to address the very low numbers of pupils who attend Ysgol Y Garreg and consequently, the small classes, as well as low projections of future numbers. None of the other options identified for the school, including federalisation, addressed these challenges. As a result, closing the school is considered the most appropriate option.

Anyone may object to the proposal within a period of 28 days from the date on which this proposal was published, that is by **24 March 2026.**

Written objections should be sent to the Head of Education, Cyngor Gwynedd, Council Offices, Caernarfon, LL55 1SH or by sending an e-mail directed to the Head of Education to modernisingeducation@gwynedd.llyw.cymru.

Signed:



Gwern ap Rhisiart
Head of Education, on behalf of Cyngor Gwynedd
Publication Date: **25 February 2026**

**EXPLANATORY NOTE**

(The following is not part of the notice but is intended to explain its general purpose)

Cyngor Gwynedd is proposing to close Ysgol Y Garreg on 31 August 2026 and denote Ysgol Cefn Coch as the alternative school from 1 September 2026.

In accordance with the Authority's admissions policy, parents are entitled to apply for admission (or transfer request) to any school. Free transport will be provided for pupils within Ysgol Y Garreg's catchment area if they wish to attend Ysgol Cefn Coch if they live over 2 miles from the school or are eligible to receive free transport due to the nature of the road to the school, in accordance with the current transport policy.

# Atodiad B

## Asesiadau Effaith
## Ysgol Y Garreg


| | |
|---|---|
| Asesiad Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg | 1 |
| Asesiad Effaith debygol ar Drefniadau Teithio | 7 |
| Asesiad Effaith debygol ar y Gymuned | 11 |
| Asesiad Effaith Ieithyddol | 20 |
| Asesiad Ardrawiad Cyfansawdd | 33 |

# ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG – YSGOL Y GARREG

## Mai 2026

# 1. CYFLWYNIAD

Ysgol gynradd gymunedol yw Ysgol Y Garreg sydd wedi ei lleoli ym mhentref Llanfrothen. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 11 oed ac yn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Y Garreg dros y blynyddoedd diwethaf, o 26 disgybl yn 2016 i 2 disgybl erbyn heddiw, sydd yn peri ansicrwydd ynghylch dyfodol yr ysgol.

Yn ei gyfarfod ar 10 Chwefror 2026, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd gymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol yn caniatau cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 011/2018: ar y cynnig a ganlyn -

"Cau Ysgol Y Garreg ar 31 Awst 2026 a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen o 1 Medi 2026."

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, sydd yn cynnwys 'Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig', mae angen gwneud asesid ar yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg ar unrhyw opsiwn rhesymol a ellir datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu. At ddiben y Cod, mae Ysgol Y Garreg wedi ei dynodi fel 'Ysgol Wledig'.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu addysg o'r ansawdd gorau posibl a fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.

Mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i ddarparu'r profiadau dysgu gorau posibl - ar gyfer pob dysgwr o fewn y Sir, gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang, yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol sy'n eu hysgogi i ddysgu a deall, a fydd yn arwain at wella safonau.

Cynhaliwyd y cyfnod gwrthwynebu rhwng 25 Chwefror 2026 a 24 Mawrth 2026 ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig.

# 2. CRYNODEB

Bu i Ysgol Y Garreg gael ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn 2023 drwy'r fframwaith arolygu newydd. Cafodd Ysgol Cefn Coch ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn 2018. Mae crynodeb isod o'r arolygon diwethaf Ysgol Y Garreg a Cefn Coch i'w weld yn y tabl isod.

| Ysgol | Blwyddyn yr arolwg | Safonau | Lles ac agweddau at ddysgu | Addysgu a phrofiadau dysgu | Gofal, cymorth ac arweiniad | Arweinyddiaeth a rheolaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Garreg** | 2023 | Fframwaith arolygu newydd | | | | |
| **Cefn Coch** | 2018 | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Rhagorol |

# 3. YR OPSIYNAU DAN SYLW

- *Dim newid – parhau gyda'r sefyllfa bresennol*

Noder, er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r model 'Dim newid' wedi ei gynnwys yn yr asesiad at ddiben cymharu.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Llanfrothen trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai corff llywodraethol Ysgol Y Garreg yn cael eu diddymu a byddai'r ysgol yn dod o dan arweinyddiaeth un pennaeth a chorff llywodraethu y ffederasiwn. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Ystyriwyd y posibilrwydd o ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos yn benodol Ysgol Cefn Coch ac Ysgol Talsarnau (Ffederasiwn Afon Dwyryd).

- *Cau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu cau Ysgol Y Garreg 31 Awst 2026 a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen o 1 Medi 2026.

## 4. ASESIAD O EFFAITH TEBYGOL AR SAFONAU AC ANSAWDD ADDYSG

*Rydym wedi defnyddio arolygon diweddaraf Estyn ar yr ysgolion perthnasol fel meini prawf ar gyfer asesu y gwahanol opsiynau ar gyfer dyfodol addysg ar gyfer dalgylch Ysgol Y Garreg.*

***OPSIWN 1: GWNEUD DIM - PARHAU GYDA'R SEFYLLFA BRESENNOL***

Byddai'r opsiwn yma yn golygu dim newid a bydda Ysgol Y Garreg yn parhau fel ac y mae.

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Dim newid. | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Dim newid. | Niwtral |
| Profiadau dysgu ac addysgu | Dim newid. | Niwtral |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Dim newid. | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Dim newid. | Niwtral |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Dim newid. | Niwtral |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Dim newid. | Niwtral |

*OPSIWN 2: FFEDERALEIDDIO GYDAG YSGOL GYFAGOS*

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos. Roedd canlyniadau arolygon Estyn diweddaraf Ysgol Y Garreg ac Ysgol Cefn Coch yn gryf ar gyfer dangosyddion safonau. O ganlyniad, deuir i'r casgliad mai niwtral fyddai'r effaith ar safonau o ffedereiddio Ysgol Y Garreg gydag Ysgol Cefn Coch ac Ysgol Talsarnau. | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Roedd canlyniadau arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Y Garreg yn gryf gyda adroddiad Ysgol Cefn Coch yn 'rhagorol' ar gyfer dangosyddion Llesiant ac agweddau at ddysgu. O ganlyniad, deuir i'r casgliad mai niwtral fyddai'r effaith ar lles ac agweddau at ddysgu o ffedereiddio Ysgol Y Garreg gydag Ysgol Cefn Coch ac Ysgol Talsarnau. | Niwtral |
| Profiadau addysgu a dysgu | Nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Y Garreg fod yr ysgol "*yn cynllunio'n drwyadl i ddarparu profiadau buddiol sy'n cwmpasu pob un o'r meysydd dysgu a phrofiad.*" Nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Cefn Coch fod "*yr ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Mae staff yn sefydlu perthynas waith effeithiol gyda'r disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch ddysgu gefnogol a gweithgar.*" O ganlyniad, deuir i'r casgliad mai niwtral fyddai'r effaith ar profiadau addysgu a dysgu. | Niwtral |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Y Garreg fod yr ysgol "*yn gymuned ofalgar a theuluol sy'n darparu gofal, cymorth ac arweiniad cadarn i'r disgyblion*". Mae Ysgol Cefn Coch wedi cael ei asesu yn 'rhagorol' o dan y dangosydd Gofal, Cymorth ac Arweiniad. O ganlyniad, rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n cael effaith niwtral ar ofal, cymorth ac arweiniad. | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Byddai'r model ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos yn cynnig cyfleoedd i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth Ysgol Y Garreg, deuir i'r casgliad y byddai arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael effaith bositif neu o leiaf niwtral o weithredu'r opsiwn ffedereiddio. | Positif/Niwtral |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 ym mhob ysgol yng Ngwynedd. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai effaith yr opsiwn yma ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith gan y byddai Ysgol Y Garreg yn parhau. Yn ogystal, roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Y Garreg yn gryf, fel ag yr oedd canlyniad arolwg Ysgol Cefn Coch. Yn seiliedig ar wybodaeth yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o weithredu'r opsiwn yma. | Niwtral |

**_OPSIWN 3:_ CAU YSGOL Y GARREG A DYNODI YSGOL CEFN COCH FEL YR YSGOL AMGEN**

| **Meini Prawf Effaith** | **Disgrifiad** | **Statws o'r effaith a'r gwaith** |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Roedd canlyniadau arolygon Estyn diweddaraf Ysgol Y Garreg ac Ysgol Cefn Coch yn gryf ar gyfer dangosyddion safonau. O ganlyniad, deuir i'r casgliad mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn drwy addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Cefn Coch. | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Yn yr achos hwn, pe weithredir y cynnig, ni rhagwelir y byddai dysgwyr o oed statudol yn Ysgol Y Garreg ar 1 Medi 2026 yn trosglwyddo i'r ysgol amgen. Yn y tymor hir, y bwriad yw y byddai gweithredu ar yr opsiwn yma yn cael effaith gadarnhaol ar les dysgwyr ag agweddau tuag at ddysgu, gan y byddai Ysgol Cefn Coch yn cynnig cyfleoedd cymdeithasol ac allgyrsiol gydag amrediad o ddysgwyr o grwpiau oedran amrywiol.<br><br>Roedd canlyniadau arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Y Garreg yn gryf gydag adroddiad Ysgol Cefn Coch yn 'rhagorol' ar gyfer dangosyddion Llesiant ac agweddau at ddysgu. O ganlyniad, deuir i'r casgliad byddai llesiant ac agweddau at ddysgu yn cael effaith bositif neu o leiaf niwtral o weithredu ar yr opsiwn yma. | Niwtral / Positif |
| Profiadau addysgu a dysgu | Roedd canlyniadau arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Y Garreg a Ysgol Cefn Coch yn gryf ar gyfer dangosydd Profiadau Addysgu a Dysgu. Er hynny, gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Cefn Coch, rhagwelir bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy a gyda chyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith gadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr dalgylch Y Garreg yn Ysgol Cefn Coch. | Positif |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Y Garreg fod yr ysgol "*yn gymuned ofalgar a theuluol sy'n darparu gofal, cymorth ac arweiniad cadarn i'r disgyblion*". Mae Ysgol Cefn Coch wedi cael ei asesu yn 'rhagorol' o dan y dangosydd Gofal, Cymorth ac Arweiniad. O ganlyniad, rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n cael effaith niwtral ar ofal, cymorth ac arweiniad. | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Roedd canlyniadau arolygon Estyn diweddaraf Ysgol Y Garreg a Ysgol Cefn Coch yn gryf ar gyfer dangosyddion Arweinyddiaeth a Rheolaeth. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai effaith yr opsiwn yma ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 ym mhob ysgol yng Ngwynedd.<br>Wrth gynllunio staffio (e.e. rôl y CADY) a'r map darpariaeth, mae'r gofyn ar ysgolion yn heriol, ac mae hynny yn dod yn fwy amlwg wrth ystyried y gofyn ar ysgolion llai. Mewn ysgolion mwy mae amodau'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn well, ac mae cyfarch y gofyn statudol yn haws yn sgil hynny. Yn ogystal, mae ymateb i angen y dysgwyr hefyd yn haws mewn ysgolion mwy gan y gallent efallai cynnal grŵp ymyrraeth i dargedu anghenion penodol. Mae map darpariaeth yn fwy eang mewn ysgolion mwy er mwyn ymateb i'r gofyn.<br>O ganlyniad, gan y byddai dysgwyr yn cael cynnig lle mewn ysgol gyda nifer uwch o ddysgwyr, rhagwelir mai positif fyddai effaith yr opsiwn yma ar y maen prawf hwn. | Positif |

| | | |
|---|---|---|
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Y Garreg yn gryf, fel ag yr oedd canlyniad arolwg Ysgol Cefn Coch. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon yma, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar safonau o addysgu dysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg yn Ysgol Cefn Coch. O ganlyniad, rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth yn Ysgol Cefn Coch yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar hyn o bryd yn Ysgol Y Garreg, fan lleiaf. | Niwtral |

## 4. CASGLIAD

Dengys yr asesiad hwn o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg, y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen yn debygol o gael effaith bositif, neu effaith niwtral fan leiaf.

Yn ogystal, mae'r asesiad yn nodi mai effaith niwtral/rhannol bositif a ragwelir ar ansawdd a safonau addysg o weithredu yr opsiwn ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos, byddai'n caniatáu cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol aml-safle, a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.

Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiadau uchod a chymharu adroddiadau Estyn, deuir i'r casgliad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Cefn Coch yn cyfateb i safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Y Garreg. Gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Cefn Coch, rhagwelir y bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy, gyda cyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr dalgylch Y Garreg yn Ysgol Cefn Coch.

Cynhaliwyd y cyfnod Gwrthwynebu Statudol rhwng 25 Chwefror 2026 a 24 Mawrth 2026, a ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig. O ganlyniad nid oes newid i'r asesiad effaith ar ansawdd a safonau addysg a rhagwelir mai niwtral/rhannol bositif fyddai effaith tebygol gweithredu'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen.

## ASESIAD EFFAITH TEBYGOL AR DREFNIADAU TEITHIO – YSGOL Y GARREG MAI 2026

## 1. CYFLWYNIAD

### 1.1 Polisi Cludiant Cyngor Gwynedd

Mae strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'* yn anelu at gyfyngu teithio o'r cartref i'r ysgol i daith un ffordd sydd heb fod yn fwy na 30 munud.

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (nid yw'n cynnwys dysgwyr meithrin). Disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd. Mae'r polisi cludiant i'w weld yn y llawlyfr i rieni: Gwybodaeth i Rhieni 2025/26

### 1.2 Cyd-destun Ysgol Y Garreg

Mae Ysgol Y Garreg yn ysgol gymunedol wedi ei lleoli ym mhentref Llanfrothen, sydd rhyw ddwy filltir o Benrhyndeudraeth, ac sydd yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3-11 oed. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Y Garreg dros y blynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn, Ionawr 2026, dim ond 2 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 a dim dysgwr Meithrin sydd yn mynychu'r ysgol.

Yn ei gyfarfod ar 10 Chwefror 2026, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd gymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol yn caniatau cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 011/2018: ar y cynnig a ganlyn -

"Cau Ysgol Y Garreg ar 31 Awst 2026 a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen o 1 Medi 2026."

Cynhaliwyd y cyfnod gwrthwynebu rhwng 25 Chwefror 2026 a 24 Mawrth 2026 ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig.

## 2. ASESIAD O EFFAITH TEBYGOL POB OPSIWN AR DREFNIADAU TEITHIO

Mae'r asesiad effaith ar drefniadau teithio hwn wedi'i gynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae'r Cod yn mynnu bod unrhyw newid trefniadaeth ysgolion yn asesu effaith ar deithio dysgwyr, gan gynnwys pellter, amser teithio, diogelwch, a chostau cludiant i'r awdurdod. Mae'r asesiad hwn yn ystyried yr holl opsiynau arfaethedig, yn nodi effaith ar drefniadau teithio, ac yn cadarnhau cydymffurfiaeth â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd (tudalen 12), gan sicrhau nad oes unrhyw ddysgwr yn gorfod teithio pellter afresymol.

2.1 Nodir isod effaith tebygol pob opsiwn ar drefniadau teithio:

- *Dim newid- Parhau gyda'r sefyllfa bresennol*

  Byddai'r model yma yn golygu na fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol yn nalgylch Ysgol Y Garreg.

**Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Y Garreg, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Y Garreg. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Y Garreg angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.**

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*

  Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Llanfrothen trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai corff llywodraethol Ysgol Y Garreg yn cael eu diddymu a byddai'r ysgol yn dod o dan arweinyddiaeth un pennaeth a chorff llywodraethu y ffederasiwn. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

  Ystyriwyd y posibilrwydd o ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos yn benodol Ysgol Cefn Coch ac Ysgol Talsarnau (Ffederasiwn Afon Dwyryd).

  **Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Y Garreg, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Y Garreg a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Y Garreg angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.**

- *Cau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen*

  Byddai'r opsiwn yma'n golygu cau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen.

  Mae Ysgol Cefn Coch wedi ei leoli 2.1 milltir o Ysgol Y Garreg. Dyma'r ysgol ddaearyddol agosaf at Ysgol Y Garreg.

  **Byddai'r opsiwn hwn yn cael effaith ar drefniadau teithio, gan y byddai angen darparu cludiant pe byddai holl ddysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg yn dewis mynychu Ysgol Cefn Coch (yn unol a dewis rhieni/gwarcheidwaid). Rhagwelir costau cludiant ychwanegol (amcan gost) rhwng £30,000 i hyd at £40,000 y flwyddyn. Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Y Garreg angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.**

## 2.2 Opsiynau cludiant di-dâl

Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd, disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf.

Y llwybr byrraf sydd ar gael yw'r un nad yw'r Cyngor yn ei ystyried yn arbennig o beryglus, ar ôl asesu'r llwybrau eraill y gellid eu defnyddio, a byddai'r llwybrau hyn yn cael eu hasesu yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

## 2.3. Crynodeb o'r effaith tebygol ar drefniadau teithio

Mae crynodeb isod o'r effaith ar drefniadau teithio yr opsiynau dan ystyriaeth:

| **Opsiynau** | **Yr effaith debygol ar drefniadau teithio i ddysgwyr** | **Yr effaith debygol ariannol blynyddol ar drefniadau teithio i'r Awdurdod** |
|---|---|---|
| Dim newid - Parhau gyda'r sefyllfa bresennol | Niwtral – Dim newid<br><br>Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Y Garreg angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | £0 |
| Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Y Garreg a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br><br>Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Y Garreg angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | £0 |
| Cau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen | Negyddol<br><br>Mae Ysgol Cefn Coch wedi ei lleoli 2.1 milltir o Ysgol Y Garreg. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr dalgylch presennol Ysgol Y Garreg fyddai'n dymuno mynychu Ysgol Cefn Coch ac yn byw fwy na 2 filltir o'r ysgol, yn unol â Pholisi Cludiant yr Awdurdod.<br><br>Wedi ystyried niferoedd presennol sy'n byw yn nalgylch Ysgol Y Garreg (Ionawr 2026), rhagwelir y byddai angen trefnu bws 30 sedd i gludo holl ddysgwyr y dalgylch fyddai'n dymuno mynychu Ysgol Cefn Coch (yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd). Rhagwelir y byddai hyn ar gost rhwng £30,000 - £40,000.<br><br>Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Y Garreg angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | £30,000 - £40,000 |

## 3. CASGLIAD

Ni ragwelir y byddai effaith negyddol ar drefniadau teithio yn deillio o weithredu'r unrhyw un o'r opsiynau a restrir uchod (adran 2), ac eithrio'r opsiwn i gau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen.

Pe byddai'r opsiwn o gau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y byddai effaith ar drefniadau teithio. Fodd bynnag ni ragwelir y bydd unrhyw ddysgwr dalgylch Y Garreg angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.

Wrth ystyried y data niferoedd diweddaraf, sef Ionawr 2026, rhagwelir y byddai angen trefnu cludiant 30 sedd pe byddai holl ddysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg yn dewis mynychu Ysgol Cefn Coch (yn unol â pholisi cludiant Addysg Gwynedd). Amcangyfrifir i'r costau cludiant ar gyfer cludo holl ddysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg i Ysgol Cefn Coch fod rhwng £30,000 - £40,0000 y flwyddyn.

Cynhaliwyd y cyfnod Gwrthwynebu Statudol rhwng 25 Chwefror 2026 a 24 Mawrth 2026, ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig. O ganlyniad nid oes newid i'r asesiad teithio a rhagwelir y byddai'r opsiwn i gau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen yn arwain at gostau cludiant ychwanegol i'r Awdurdod. Amcangyfrifir i'r costau hyn fod oddeutu £30,000 - £40,000 y flwyddyn i ddarparu cludiant pe byddai holl ddysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg yn dewis mynychu Ysgol Cefn Coch (yn unol a dewis rhieni/gwarcheidwaid).

# ASESIAD O’R EFFAITH TEBYGOL AR Y GYMUNED – YSGOL Y GARREG (MAI 2026)

## 1. CYFLWYNIAD

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer trefniadaeth ysgolion, mae’n ofynnol i’r Awdurdod gynnal asesiad o effaith debygol ar y gymuned, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

### 1.1 Cefndir

Mae Ysgol Y Garreg yn ysgol gymunedol wedi ei lleoli ym mhentref Llanfrothen, sydd rhyw ddwy filltir o Penrhyndeudraeth, ac yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3-11 oed. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Y Garreg dros y blynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn, Ionawr 2026, dim ond 2 ddysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 sydd yn mynychu’r ysgol gyda dim dysgwyr yn y dosbarth Meithrin.

Oherwydd cwymp sylweddol yn niferoedd y dysgwyr sy’n mynychu Ysgol Y Garreg, mae’r sefyllfa erbyn hyn yn anghynaladwy ac yn hynod o fregus. Ar sail CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddoedd ar Lefel Disgyblion) Ionawr 2026, Ysgol Y Garreg yw’r ysgol leiaf yn y sir.

Yn ei gyfarfod ar 10 Chwefror 2026, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd gymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol yn caniatau cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 011/2018: ar y cynnig a ganlyn -

“Cau Ysgol Y Garreg ar 31 Awst 2026 a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen o 1 Medi 2026.”

Cynhaliwyd y cyfnod gwrthwynebu rhwng 25 Chwefror 2026 a 24 Mawrth 2026 ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig.

## 2. YR OPSIYNAU

Bu i’r Awdurdod ystyried a thrafod nifer o opsiynau ar gyfer dyfodol Ysgol Y Garreg, gan gynnwys:

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol*
- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*

Byddai’r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Llanfrothen trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai corff llywodraethol Ysgol Y Garreg yn cael ei ddiddymu a byddai’r ysgol yn dod o dan arweinyddiaeth un pennaeth a chorff llywodraethu y ffederasiwn. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai’n galluogi’r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Ystyriwyd y posibilrwydd o ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos yn benodol Ysgol Cefn Coch ac Ysgol Talsarnau (Ffederasiwn Afon Dwyryd) .

- *Cau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen*

Golygai’r opsiwn yma y byddai Ysgol Y Garreg yn cau a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen.

## 3. CRYNODEB O’R DALGYLCH

### 3.1 Yr Ardal

Mae Ysgol Y Garreg wedi ei lleoli ym mhentref gwledig Llanfrothen, sydd rhyw ddwy filltir o Penrhyndeudraeth yng Ngwynedd o fewn Ward Glaslyn. Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae 1,633 o bobl yn byw yn ward Glaslyn.

## 3.2 Yr Economi

Mae 55.7% o bobl dros 16 mlwydd oed o fewn ward Glaslyn yn weithgar yn economaidd, a 4% o'r rhain yn ddi-waith. Mae 43.4% o bobl yn yr un grŵp oedran yn anweithgar yn economaidd gyda 2.9% o'r rhain yn sâl neu'n anabl am gyfnod hir.

Mae'r math o ddiwydiant y mae'r boblogaeth yn weithgar ynddo yn amrywiol yn yr ardal, gyda'r gyfradd uchaf (16.5%) yn gweithio yn y maes Gweithgareddau Llety a Bwyd.

Yn ôl data 'Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2025)' mae cyfradd cyflogaeth ardal Llanfrothen o gymharu â ardaloedd eraill yng Nghymru yn rhoi ranc o 1701 allan o 1917 o ardaloedd. Felly, mae ardal Llanfrothen o fewn y 50% lleiaf difreintiedig yng Nghymru.

## 3.3 Amddifadedd

Mae Llanfrothen wedi'i restru'n 1231 allan o'r 1,917 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, sy'n ei rhoi ymhlith y 50% lleiaf difreintiedig.

Mae safle amddifadedd cyffredinol pob ardal yn seiliedig ar ei safle ar draws wyth categori o amddifadedd, gan gynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai.

Nodir fod Llanfrothen o fewn y 20-30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'Tai'. Dangosyddion y maes hwn yw'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi gorlawn (defnydd ystafelloedd gwely), a'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi heb wres canolog.

Yn ogystal, mae Llanfrothen o fewn y 20-30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'mynediad i wasanaethau', h.y. amddifadedd am nad yw pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r dangosyddion yn cynnwys cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i nifer o wasanaethau megis siopau bwyd, meddygfa, ysgolion cynradd ac uwchradd, swyddfa bost, llyfrgell gyhoeddus, fferyllfa, canolfan hamdden ac amser teithio preifat i orsaf betrol.

Mae crynodeb isod o sut y mae ardal Llanfrothen wedi ei lleoli yng nghyd-destun ardaloedd eraill yng Nghymru yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2025):

| **Maes** | **Ranc yng Nghymru, allan o 1917 o ardaloedd. (1 = mwyaf difreintiedig a 1917 = lleiaf difreintiedig)** | **Mwyaf difreintiedig % yng Nghymru** |
|---|---|---|
| Cyflogaeth | 1701 | |
| Incwm | 1342 | |
| Iechyd | 1615 | |
| Addysg | 1021 | |
| Tai | 284 | O fewn y 10% mwyaf difreintiedig |
| Amgylchedd ffisegol | 1509 | |
| Mynediad i wasanaethau | 221 | O fewn y 10% mwyaf difreintiedig |
| Diogelwch cymunedol | 1453 | |

## 3.4 Y Gymuned

Nid oes unrhyw ddefnydd cymunedol yn cael ei wneud o adeilad Ysgol Y Garreg.

# 4. YSGOL Y GARREG A'R YSGOL AMGEN

## 4.1 Cyd-destun yr ysgolion yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn

Fel rhan o adroddiadau Estyn, gosodir yr ysgolion o fewn cyd-destun, a manylir ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma'r cyd-destun a roddwyd i Ysgol Y Garreg ac Ysgol Cefn Coch gan arolygwyr Estyn.

**Ysgol Y Garreg**

> *"Mae'r ysgol y gwneud defnydd da o'r gymuned i ehangu'r ddarpariaeth a'r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion."*

*Ffynhonnell: Adroddiad Estyn, 2023.*

**Ysgol Cefn Coch**

> *"Mae disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned ac yn ymfalchïo yn y cyfle i gefnogi gweithgareddau fel gwasanaethau diolchgarwch yn y capel a chyngherddau yn y neuadd gymunedol."*

*Ffynhonnell: Adroddiad Estyn, 2018.*

## 4.2 Gwybodaeth ystadegol yr ysgolion

Dengys y tabl isod niferoedd Ysgol Y Garreg ac Ysgol Cefn Coch. Gwelir yn ogystal yn y tabl hwn beth yw capasiti'r ysgol a nifer ar y gofrestr yn Ionawr 2026. Mae pob ysgol yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

| **Ysgol** | **Capasiti Llawn** (M – Bl6) | **Nifer ar y gofrestr** Ionawr 2026 (M – Bl6) | **Categori Cyfreithiol** | **Categori Ieithyddol** |
|---|---|---|---|---|
| **Y Garreg** | 48 | 2 | Ysgol Gymunedol | Cyfrwng Cymraeg, Categori 3 |
| **Cefn Coch** | 231 | 148 | Ysgol Gymunedol | Cyfrwng Cymraeg, Categori 3 |

***Ffynhonnell: Cyfrifiad CYBLD Ionawr 2026***

## 4.3 Gwybodaeth dalgylchol a dewis ysgolion dysgwyr

Mae gan bob ysgol ddalgylch penodol y mae'n gwasanaethu ac sydd yn bwysig o ran polisi mynediad a chludiant y Cyngor. Nid oes rhaid i ddysgwyr fynychu eu hysgol dalgylch, mae'r dewis i fyny i rieni (yn unol â'r polisi mynediad).

Dengys y data diweddaraf (data GIS Ionawr 2026) fod 92% o blant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Y Garreg yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Mae'r tabl isod yn nodi cyfran y dysgwyr sy'n byw yn y dalgylch ac yn mynychu'r ysgol dalgylch, a'r gyfran o ddysgwyr y dalgylch sy'n mynychu ysgolion tu allan i'r dalgylch.

| **Ysgol** | **Cyfran o ddysgwyr y dalgylch sy'n mynychu'r ysgol dalgylch** | **Cyfran o ddysgwyr y dalgylch sy'n mynychu ysgolion all-dalgylch** | **Cyfran o ddysgwyr yr ysgol sy'n mynychu'r ysgol o du allan i'r Dalgylch** |
|---|---|---|---|
| Y Garreg | 8% | 92% | 0% |
| Cefn Coch | 78% | 22% | 16% |

***Ffynhonnell: Data GIS Ionawr 2026***

## 4.4 Crynodeb o'r amrywiol gyfleusterau sydd yng nghymuned Llanfrothen a Phenrhyndeudraeth (Ionawr 2026)

| | Y Garreg | Cefn Coch |
|---|---|---|
| **Canolfan Gymuned / Neuadd Bentref** | ✓ | ✓ |
| **Capel/Eglwys** | ✓ | ✓ |
| **Trafnidiaeth Gyhoeddus** | ✓ | ✓ |
| **Siop** | ✓ | ✓ |
| **Caffi/Tafarn** | ✓ | ✓ |
| **Swyddfa Bost** | | ✓ |
| **Fferyllfa** | | ✓ |
| **Llyfrgell** | | |
| **Cae Chwarae Plant** | | ✓ |
| **Banc** | | |
| **Cartref Henoed** | | |
| **Canolfan Hamdden** | | |
| **Garej** | | ✓ |
| **Atyniad Twristaidd** | ✓ | ✓ |
| **Cylch Ti a Fi + Cylch Meithrin** | | ✓ |

## 4.5 Crynodeb o ddefnydd yr ysgol y tu allan i oriau craidd yr ysgol

Mae crynodeb o ddefnydd cymunedol neu all-gwricwlaidd o adeiladau'r ysgolion lleol isod:

| | Y Garreg | Cefn Coch |
|---|---|---|
| **Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)** | | ✓ |
| **Aelwyd yr Urdd** | | ✓ |
| **Dramâu** | | |
| **Grwpiau Gwirfoddol** | | ✓ |
| **Bore/Noson Goffi** | | ✓ |
| **Arwerthiant Cymunedol** | | |
| **Ymarfer Côr** | | |
| **Cymraeg i Oedolion** | | |
| **Cyfarfod Cyngor Tref/Gymuned** | | |
| **Cylch/Ysgol Feithrin** | | ✓ |
| **Clwb/Gweithgaredd Chwaraeon** | | ✓ |
| **Clwb ar ôl Ysgol** | | ✓ |
| **Clwb Diddordeb Lleol** | | |

Mae Cylch Meithrin Penrhyn wedi ei leoli ar safle Ysgol Cefn Coch ac yn darparu gofal ac addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg i blant cyn-ysgol. Mae'r cyd-weithio rhwng Ysgol Cefn Coch a'r Cylch yn golygu trosglwyddiad esmwyth i'r plant o'r Cylch i'r dosbarth meithrin. Mae'r Cylch yn darparu lleoedd i blant rhwng 2 a 4 oed, ac yn rhan o'r cynllun Gofal Plant 2 oed ble gall teuluoedd sydd yn byw o fewn codau post penodol dderbyn hyd at 12.5 awr o ofal plant am ddim y tymor ar ôl i'r plentyn gael ei ben-blwyddyn yn ddwy oed.

Mae'r Cylch Meithrin hefyd yn rhan o'r Cynllun Gofal Plant, sef cynllun sy'n cynnig hyd at 30 awr yr wythnos o ofal plant blynyddoedd cynnar am ddim. Mae plant yn gallu manteisio ar y Cynnig Gofal Plant o ddechrau'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd tan y Medi ar ôl iddynt droi'n bedair.

Mae'r Cylch Meithrin yn ogystal yn darparu gofal plant amlap ar y safle o 8:00 hyd 18:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Nid oes darpariaeth blynyddoedd cynnar yn Ysgol Y Garreg, ac eithrio dosbarth Meithrin yr ysgol.

### 4.6 Crynodeb o weithgareddau neu grwpiau y mae'r ysgol yn ymwneud yn rheolaidd â nhw:

| | Y Garreg | Cefn Coch |
|---|---|---|
| **Cylch Meithrin/Ti a Fi** | | ✓ |
| **Eisteddfodau (Lleol/Sirol/Cenedlaethol)** | | ✓ |
| **Adrannau'r Urdd** | | ✓ |
| **Gweithgareddau eraill (chwaraeon, clybiau)** | | ✓ |

### 4.7 Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol ar ran y gymuned ble y byddent yn cael eu darparu os caiff yr ysgol ei chau?

| Ysgol | Ble darparir cyfleusterau pe bai'n cau |
|---|---|
| **Y Garreg** | Ni chynhelir unrhyw ddigwyddiad cymunedol yn adeilad Ysgol Y Garreg ar hyn o bryd. Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig i gau Ysgol Y Garreg, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol. Mae gan y gymuned leol amryw o opsiynau ar gyfer cynnal unrhyw ddigwydd megis Ganolfan Gymdeithasol Llanfrothen a'r Brondanw Arms (Y Ring). |

### 4.8 Gwybodaeth am bellter ac amser teithio i ysgolion eraill y dalgylch

Mae'r tabl isod yn nodi pellter ac amser teithio rhwng Ysgol Y Garreg ac ysgolion yr ardal. Gwelwn mai Ysgol Cefn Coch yw'r agosaf at Ysgol Y Garreg. Mae'r amseroedd teithio isod yn ystyried natur y lonydd a'r effaith y gall hynny ei gael ar amser teithio mewn ardal wledig.

| **Ysgol** | | **Y Garreg** |
|---|---|---|
| **Y Garreg** | **Milltir** | **2.1** |
| | **Munudau** | **6** |

***Ffynhonnell: Mapiau Google 2026***

## 5. ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR Y GYMUNED

Er mwyn asesu effaith cymunedol y modelau posib, penderfynwyd creu meini prawf yn unol ag argymhellion ystyriaethau asesiad cymunedol y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

### *OPSIWN 1: DIM NEWID - PARHAU GYDA'R SEFYLLFA BRESENNOL*

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Gan na fyddai unrhyw newid i'r ddarpariaeth bresennol felly ni ragwelir unrhyw effaith ar iechyd a llesiant. | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Gan na fyddai newid i'r ddarpariaeth gyfredol ni ragwelir effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus. Bydd unrhyw gludiant sydd angen i Ysgol Y Garreg ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol â Pholisi Cludiant y Sir. | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Gan na fyddai newid i'r ddarpariaeth felly ni ragwelir unrhyw effaith ar ddefnydd presennol yr ysgol. | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Gan na fyddai newid i'r ddarpariaeth felly ni ragwelir unrhyw effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach. | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Gan na fyddai newid i'r ddarpariaeth felly ni ragwelir unrhyw effaith ar sut mae rhieni yn dewis ysgol i'w plant nac yn effeithio ar ddewis byw yn y dalgylch. | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Gan na fyddai unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith ar wasanaethau eraill lleol. | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Gan na fyddai unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned. | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Gan na fyddai unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir effaith ar y gymuned leol. | Niwtral |

## *OPSIWN 2: FFEDERALEIDDIO GYDAG YSGOL GYFAGOS*

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Gan y byddai ffederaleiddio yn golygu bod Ysgol Y Garreg yn parhau ar agor ni fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol felly ni ragwelir effaith ar iechyd a llesiant. | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Gan y byddai ffederaleiddio yn golygu bod Ysgol Y Garreg yn parhau ar agor ni ragwelir effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus. Bydd unrhyw gludiant sydd angen i Ysgol Y Garreg ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol â Pholisi Cludiant y Sir. | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Gan y byddai ffederaleiddio yn golygu bod Ysgol Y Garreg yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw newid i ddefnydd presennol yr ysgol. | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Gan y byddai ffederaleiddio yn golygu bod Ysgol Y Garreg yn parhau ar agor ni ragwelir effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach. | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Gan y byddai ffederaleiddio yn golygu bod Ysgol Y Garreg yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar sut mae rhieni yn dewis ysgol i'w plant nac yn effeithio ar ddewis byw yn y dalgylch neu ddim. Mae cyfran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (92% data GIS Ionawr 2026) | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Gan y byddai ffederaleiddio yn golygu bod Ysgol Y Garreg yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar yr hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd, felly ni ragwelir unrhyw effaith ar wasanaethau eraill lleol. | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Gan y byddai ffederaleiddio yn golygu bod Ysgol Y Garreg yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar yr hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned. | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Gan y byddai ffederaleiddio yn golygu bod Ysgol Y Garreg yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar yr hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith ar y gymuned leol. Fodd bynnag, nodir cyfleoedd i gymuned Llanfrothen a chymuned Ysgol Cefn Coch i ddod at ei gilydd. | Niwtral |

## *OPSIWN 3: CAU YSGOL Y GARREG A DYNODI YSGOL CEFN COCH FEL YR YSGOL AMGEN*

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Mae Ysgol Cefn Coch wedi ei lleoli tua dwy filltir o Ysgol Y Garreg, ac ymhellach o gartrefi dysgwyr y dalgylch, ni ragwelir y byddai dysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg yn debygol o gerdded i'r ysgol amgen.<br><br>Rhagwelir y byddai bod mewn ysgol mwy megis Ysgol Cefn Coch yn cynnig mwy o gyfleoedd chwarae a chymryd rhan mewn chwaraeon tîm ac felly yn cyfrannu'n bositif tuag at iechyd a llesiant dysgwyr. | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Ni ragwelir bydd unrhyw effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y bydd unrhyw gludiant i ysgol amgen yn sgil unrhyw newid yn cael ei drefnu yn benodol ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn unol â Pholisi Cludiant y Sir. | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Nid oes defnydd rheolaidd o adeilad Ysgol Y Garreg er mwyn cynnal digwyddiadau cymunedol. Mae Canolfan Gymdeithasol Llanfrothen wedi ei lleoli drws nesaf i'r ysgol, felly mae darpariaeth cymunedol ar gael. | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Ni ragwelir effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach. | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Gan fod cyfran uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion all-dalgylch eisoes (92% data GIS Ionawr 2026), ni ragwelir y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned pe byddai'r ysgol yn cau. Yn ogystal, gan fod ysgol amgen wedi ei lleoli 2.1 milltir o Ysgol Y Garreg, ni ragwelir y byddai'n cael effaith ar deuluoedd a phant oedran ysgol yn gadael y gymuned. | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Gan fod cyfran uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion all-dalgylch eisoes, ni ellir ddod i gasgliad y byddai cau yr ysgol yn cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol. | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Gan fod mwyafrif o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion all-dalgylch, ni ragwelir y byddai cau Ysgol Y Garreg yn cael effaith ar economi ehangach y gymuned. | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Pe byddai Ysgol Y Garreg yn cau, byddai'r ysgol agosaf wedi ei lleoli ymhellach i ffwrdd oddi wrth gartrefi dalgylch presennol Ysgol Y Garreg, ac o safbwynt amddifadedd – golyga fod un o ddangosyddion 'mynediad i wasanaethau' yn pellhau oddi wrth drigolion yr ardal. O ganlyniad, rhagwelir y bydd peth effaith negyddol ar y gymuned leol pe byddai'r ysgol yn cau.<br><br>Fodd bynnag dylid nodi fod canran uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion all-dalgylch eisoes.<br><br>I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Llanfrothen yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Cefn Coch a chymuned Llanfrothen, ble'n briodol. | Negyddol |

## 6. CASGLIAD

Dengys yr asesiad hwn mai niwtral fyddai'r effaith tebygol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiynau a restrir isod:

- Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol
- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos

Dengys yr asesiad y rhagwelir peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Y Garreg. Cydnabyddir y byddai cau Ysgol Y Garreg yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Llanfrothen, fodd bynnag nodai'r asesiad fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill. Felly, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng ysgolion cyfagos a chymuned Ysgol Y Garreg yn bodoli eisoes.

Pe byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Y Garreg yn cael ei wireddu, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Cefn Coch. I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Llanfrothen yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Cefn Coch a chymuned Llanfrothen, lle'n briodol.

Pe byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Y Garreg yn cael ei wireddu, bydd yn hanfodol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen (Ysgol Cefn Coch) a rhieni dysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg fel bod modd i rieni a dysgwyr fanteisio ar eu cyfleusterau ac unrhyw weithgareddau ar ôl ysgol.

Yn ogystal, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Y Garreg, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol.

Cynhaliwyd y cyfnod Gwrthwynebu Statudol rhwng 25 Chwefror 2026 a 24 Mawrth 2026, a ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig. O ganlyniad nid oes newid i'r asesiad effaith cymunedol.

# ASESIAD EFFAITH IEITHYDDOL – YSGOL Y GARREG (MAI 2026)

## 1. CYFLWYNIAD

Mae cefnogi a datblygu gallu plant Gwynedd i ddysgu a defnyddio eu sgiliau iaith yn allweddol bwysig i strategaethau addysg y Sir.

### 1.1 Y Sefyllfa yng Ngwynedd

Mae ffigyrau yng Nghyfrifiad 2021 yn nodi fod 66% o bobl dros dair oed yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae Cyfrifiad 2021 hefyd yn nodi bod 64% yn siarad Cymraeg sydd yn ostyngiad ers y cyfrifiad blaenorol, pan oedd y ffigwr yn 65%.

Yng Ngwynedd, fel mewn sawl Awdurdod Lleol eraill yng Nghymru, mae cryn wahaniaeth yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o fewn gwahanol wardiau. Ar un eithaf, mewn wardiau megis Aberdyfi, Tywyn a Canol Bangor mae rhwng 26% a 44% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, tra bod cymaint â 86% yn siarad Cymraeg yn yr ardaloedd mwyaf Cymreig e.e. Hendre a Llanrug.

### 1.2 Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg (CSGA)

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022 - 2032 Cyngor Gwynedd yn ddogfen statudol yr Awdurdod Lleol ac yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg (yn unol â thargedau *Cymraeg 2050*). Mae 7 deilliant y disgwylir i Awdurdodau Lleol eu gweithredu er mwyn gwireddu'r deilliannau, sef:

1. Mwy o blant meithrin/3 oed yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
2. Mwy o blant dosbarth derbyn/5 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
3. Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall.
4. Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
5. Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.
6. Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018).
7. Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

### 1.3 Polisi Iaith

**Cynradd**

Yr un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y Sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyfedr yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, parheir i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

**Uwchradd**

Yn yr uwchradd, disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd y lefel angenrheidiol, sef lefel 3+ ar ddiwedd CA2 ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Y gobaith yw y gall y disgyblion hyn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd blwyddyn 11.

Mae'r ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau fod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r Sir yn diffinio ysgolion uwchradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un disgwyliad mewn perthynas â'r Polisi Iaith, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y Sir fod yn hyfedr ddwyieithog.

## 1.4 Miliwn o siaradwyr erbyn 2050

*Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* yw strategaeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ac mae'n cwmpasu'r tri degawd nesaf. Nodir yn y ddogfen hon dargedau penodol ar gyfer cynyddu'r niferoedd sy'n siarad yr iaith ynghyd â'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae nodau Cymraeg 2050 yn cynnwys:

| | Nod | Targed |
|---|---|---|
| 1. | Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg | 1 Miliwn o siaradwyr erbyn 2050 |
| 2. | Cynyddu defnydd o'r Gymraeg | Defnyddwyr dyddiol o'r Gymraeg yn cynyddu o 10% i 20% |

Pwysleisia'r ddogfen strategol '*Cymraeg 2050*: Miliwn o siaradwyr' bwysigrwydd cynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg ond hefyd pwysleisir fod cynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg yr un mor bwysig.

*Mae symud i sefyllfa lle mae miliwn o siaradwyr yn un agwedd ar ein gweledigaeth ar gyfer ffyniant y Gymraeg. Ond mae iaith Gymraeg sy'n ffynnu yn iaith sy'n cael ei defnyddio. Rydym am i'r defnydd o'r Gymraeg fod yn rhan arferol o fywyd bob dydd, fel bod siaradwyr ar bob lefel yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol...... Yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2013–15 (Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg 2015) mae cysylltiad clir rhwng rhuglder a pha mor aml y defnyddir y Gymraeg – mae 84% o siaradwyr Cymraeg rhugl yn siarad Cymraeg bob dydd.*

*Ffynhonnell: Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (2017)*

Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn darparu fframwaith statudol i gryfhau rôl y Gymraeg yn y system addysg, gan gefnogi targed Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno system newydd o gategorïau iaith ysgolion, gyda gofyn o isafswm ar ganran yr addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd awdurdodau lleol ac ysgolion yn gyfrifol am gynllunio'n strategol i gynyddu darpariaeth Gymraeg yn raddol.

Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg, ac ar awdurdodau lleol i lunio a gweithredu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg wedi'u cryfhau. Defnyddir lefelau Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd i safoni disgwyliadau o ran gallu yn y Gymraeg. Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gefnogi dysgu Cymraeg i bobl o bob oed. Bydd gweithredu'r Ddeddf yn digwydd yn raddol rhwng 2025 a 2027.

## 1.5 Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033

Mae Safonau'r Gymraeg a osodwyd ar Gyngor Gwynedd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod disgwyliad ar y Cyngor i lunio strategaeth 5 mlynedd fydd yn dangos sut y bwriedir mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg ar draws y sir. Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033 yw strategaeth ddiweddaraf Cyngor Gwynedd ar gyfer y Gymraeg. Nodir yn y ddogfen hon dargedau penodol ar gyfer cynyddu'r niferoedd sy'n siarad yr iaith:

| | **Sut byddwn yn cynyddu nifer siaradwyr?** | **Sut byddwn yn mesur ar lefel leol, ac yn ystod cyfnod y strategaeth?** |
|---|---|---|
| 1. | Rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc nad ydynt eto yn siaradwyr Cymraeg (e.e. newydd-ddyfodiaid, plant sydd ddim yn derbyn addysg | Nifer y plant sydd yn cael addysg cyfrwng Cymraeg. Nifer plant sydd yn cael cefnogaeth drwy gyfundrefn drochi'r Adran Addysg. |

| | | |
|---|---|---|
| | prif ffrwd), i ddysgu a dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. | |
| 2. | Rhoi cyfleoedd i oedolion ddod yn siaradwyr newydd drwy gynlluniau cefnogi dysgwyr y Cyngor a darpariaeth gymunedol partneriaid. | Nifer gweithwyr y Cyngor sydd yn derbyn gwersi dysgu Cymraeg.<br>Darpariaeth cyrsiau dysgu Cymraeg cymunedol. |

*Ceir yn y Strategaeth hefyd ymrwymiad i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y meysydd canlynol:*

- *Iaith y blynyddoedd cynnar*
- *Iaith Dysgu*
- *Iaith Gwaith a Gwasanaeth*
- *Iaith y Gymuned*
- *Ymchwil a thechnoleg*

### 1.6 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ledled Cymru a enwir yn y ddeddf weithio tuag at gyflawni saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

## 2. PROFFIL IAITH DALGYLCH YSGOL Y GARREG

### 2.1 Cefndir Proffil Iaith Gwynedd

Mae 64.4% o boblogaeth y Sir sydd dros dair oed yn siaradwyr Cymraeg – sylweddol uwch na'r ffigwr trwy Gymru gyfan o 17.8%. Yng Ngwynedd, mae'r gallu i siarad Cymraeg uchaf yn ward Hendre (mae 86% yn siarad Cymraeg), ac ar ei isaf yn ardal Canol Bangor (25.6%).

### 2.2 Wardiau

### 2.2.1 Ward Glaslyn a Penrhyndeudraeth

Mae dalgylch Ysgol Y Garreg o fewn ward Glaslyn gyda dalgylch Ysgol Cefn Coch o fewn ward Penrhyndeudraeth (Swyddfa Ystadegol Gwladol 2021). Mae proffil ieithyddol wardiau'r ysgolion hyn wedi ei grynhoi yn y tabl isod:

| | **Glaslyn** | **Penrhyndeudraeth** | **Gwynedd** | **Cymru** |
|---|---|---|---|---|
| Hunaniaeth Gymreig yn unig | 934<br>(57.2%) | 1,294<br>(65.1%) | 69,560<br>(59.3%) | 1,715,975<br>(55.2%) |
| Dim hunaniaeth Gymreig | 39.3% | 30.6% | 36.3% | 36.7% |
| Poblogaeth 3+ mlwydd oed | 1,592<br>(100%) | 1,937<br>(100%) | 114,308<br>(100%) | 3,018,172<br>(100%) |
| Gallu siarad Cymraeg | 1,054<br>(66.2%) | 1,423<br>(73.5%) | 73,560<br>(64.4%) | 538,296<br>(17.8%) |
| Dim sgiliau Cymraeg | 410<br>(25.8%) | 372<br>(19.2%) | 29, 977<br>(26.2%) | 2,259,017<br>(74.8%) |
| Gallu deall Cymraeg ar lafar yn unig | 109<br>(6.8%) | 111<br>(5.7%) | 8,166<br>(7.1%) | 156,762<br>(5.2%) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gallu siarad Cymraeg ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg | 83 (5.2%) | 95 (4.9%) | 6,142 (5.4%) | 68,391 (2.3%) |
| Gallu siarad a darllen Cymraeg ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg | 36 (2.3%) | 43 (2.2%) | 3,170 (2.8%) | 33,971 (1.1%) |
| Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | 927 (58.2%) | 1,269 (65.5%) | 63,256 (55.3%) | 429,313 (14.2%) |
| Gallu ysgrifennu Cymraeg ond ddim yn gallu siarad na darllen Cymraeg | 2 (0.1%) | 6 (0.3%) | 387 (0.3%) | 4,970 (0.2%) |
| Gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg ond ddim yn gallu siarad Cymraeg | 5 (0.3%) | 15 (0.8%) | 1,004 (0.9%) | 17,560 (0.6%) |
| Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg | 8 (0.5%) | 16 (0.8%) | 993 (0.9%) | 6,621 (0.2%) |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegol Gwladol*

## 2.3 Ysgol Y Garreg

Dengys y tabl isod fod y mwyafrif o ddysgwyr Ysgol Y Garreg yn siarad Cymraeg yn rhugl.

| Ysgol | Siarad Cymraeg yn rhugl gartref | Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg o gwbl |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Garreg** | 0% | 50% | 0% | 50% | 0% |

*Ffynhonnell: CYBLD Ionawr 2026*

## 2.4 Ysgol Cefn Coch

Mae data ieithyddol ar gyfer yr ysgolion cyfagos i'w gweld isod.

| Ysgol | Siarad Cymraeg yn rhugl gartref | Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg o gwbl |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cefn Coch** | 58.1% | 1.4% | 8.8% | 6.8% | 17.6% |

*Ffynhonnell: CYBLD Ionawr 2026*

## 2.5 Gweithgareddau ar ôl ysgol

Dyma grynodeb o'r hyn mae Ysgol Y Garreg a'r ysgol amgen (Ysgol Cefn Coch) yn ei gynnig ar safleoedd yr ysgol.

| | Y Garreg | Cefn Coch |
|---|---|---|
| **Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)** | | ✓ |
| **Aelwyd yr Urdd** | | ✓ |
| **Bore/Noson Goffi** | | ✓ |
| **Cylch/Ysgol Feithrin** | | ✓ |
| **Clwb/Clwb ar ôl ysgol / Gweithgaredd Chwaraeon** | | ✓ |

Gwelir o'r tabl uchod fod Ysgol Cefn Coch yn cynnig amrywiaeth o glybiau ar ôl ysgol. Golygai hyn gallai'r dysgwyr o ddalgylch Ysgol Y Garreg fanteisio ar y gweithgareddau hyn fel cyfle ychwanegol i ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg.

## 2.6 Gweithgareddau Cymunedol

Nid oes unrhyw ddefnydd cymunedol yn cael ei wneud o adeilad Ysgol Y Garreg.

## 2.7 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032

Mae Ysgol Y Garreg ac Ysgol Cefn Coch yn gweithredu amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys:

- Bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bod y disgwyliad hwnnw yn gyson ar draws pob un o'r ysgolion.
- Bod darpariaeth addas i alluogi pob disgybl i ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion barhau i feithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n ddysgwyr.
- Bod holl sefydliadau addysg y sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

Byddai gweithredu'r cynnig yn cyd-fynd ag amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32.

## 2.8 Tystiolaeth Ychwanegol

**Ysgol Y Garreg**

Mae adroddiad Estyn yn 2023 yn dweud:

"*31.3% yw canran y dysgwyr sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Maent yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg wrth gydweithio â'u cyfoedion."*

Adroddiad arolwg Estyn Ysgol Y Garreg Ionawr 2023

**Ysgol Cefn Coch**

Mae adroddiad Estyn 2018 yn dweud:

*"Lleolir Ysgol Gynradd Cefn Coch ym mhentref Penrhyndeudraeth yng Ngwynedd. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae tua 80% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref."*

Adroddiad arolygiad Estyn Ysgol Cefn Coch Mehefin 2018

## 3. Asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg

### 3.1 Yr Opsiynau

- *Gwneud dim- Parhau gyda'r sefyllfa bresennol*

Byddai cadw'r drefn bresennol yn golygu fod Ysgol Y Garreg yn parhau yn yr un modd, gyda'r un strwythur staffio.

Noder, er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r model Gwneud Dim wedi ei gynnwys yn yr asesiad at ddiben cymharu.

- *Ffederaleiddio gydag Ysgol Gyfagos*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Llanfrothen trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai corff llywodraethol Ysgol Y Garreg yn cael eu diddymu a byddai'r ysgol yn dod o dan arweinyddiaeth un pennaeth a chorff llywodraethu y ffederasiwn. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.
Ystyriwyd y posibilrwydd o ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos yn benodol Ysgol Cefn Coch ac Ysgol Talsarnau (Ffederasiwn Afon Dwyryd).

Ni ragwelir y byddai ffederaleiddio yn cael effaith ar Yr Iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Y Garreg yn parhau, gyda chyfleoedd i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth, a chydweithio ar gyfer yr ysgol.

- *Cau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu cau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen.

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn cynnwys asesiad o effaith cau Ysgol Y Garreg ac addysgu dysgwyr yn Ysgol Cefn Coch, ar yr iaith Gymraeg o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'r tabl hefyd yn amlinellu'r cyfleoedd ychwanegol ar gyfer cryfhau'r iaith Gymraeg, a dulliau lliniaru unrhyw effaith negyddol allai ddeillio o'r cynnig.

## 4. ASESIAD O'R EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG

Mae'r asesiad effaith ieithyddol hwn wedi'i gynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), sy'n mynnu bod unrhyw newid trefniadaeth ysgolion yn asesu effaith ar Yr Iaith Gymraeg ac yn nodi mesurau lliniaru i ddiogelu neu gryfhau ei defnydd. Mae'r asesiad yn ystyried iaith ffurfiol ac anffurfiol yr ysgol, mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, a defnydd cymunedol o'r Gymraeg, gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r egwyddorion statudol a nodir yn y Cod.

## Asesiad o'r effaith ar yr Iaith Gymraeg – Cynnig i gau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith | Oes unrhyw fesurau wedi'u hadnabod i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd positif | Effaith derfynol (yn dilyn dulliau lliniaru) |
|---|---|---|---|---|
| **Iaith yr ysgol (ffurfiol)** | Mae Ysgol Y Garreg yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng (Cyfrwng Cymraeg Categori 3). Gan fod Ysgol Cefn Coch hefyd yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng (Cyfrwng Cymraeg Categori 3), deuir i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn cael effaith ar iaith addysg y plant. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Iaith yr ysgol (anffurfiol)** | Mae ystadegau CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 0% o ddysgwyr Ysgol Y Garreg yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 58.1% o ddysgwyr Ysgol Cefn Coch. Gan y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, gallasai'r cynnig gryfhau'r cyfleodd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda'u cyfoedion. Ar sail hynny, o wireddu'r cynnig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Y Garreg ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach. | Positif | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg** | Mae Ysgol Cefn Coch yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng, fel Ysgol Y Garreg. Ni ragwelir felly y byddai'r cynnig yn effeithio ar y meini prawf hwn. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Darpariaeth anstatudol** | Byddai gan ddysgwyr fynediad at gyflenwad uwch yn nhermau staffio, a byddent yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion o'r un oedran. | Positif | Gallai'r awdurdod lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Cefn Coch drafod dulliau i sicrhau bod dysgwyr yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. | Positif |
| **Gweithgareddau cyn / ar ôl ysgol** | Mae Ysgol Cefn Coch yn ysgol fwy o ran niferoedd o ddysgwyr felly bydd y grwpiau cyfoedion yn fwy. Mae Ysgol Cefn Coch hefyd yn cynnig clybiau a gweithgareddau ar ôl ysgol sydd yn cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg cyn/ar ôl ysgol. | Positif | Gallai'r Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Cefn Coch ystyried unrhyw gyfleodd ychwanegol ar gyfer cynnal gweithgareddau ar ôl ysgol, gan sicrhau fod trefniadau mewn lle i gynnwys dysgwyr dalgylch Y Garreg. | Positif |
| **Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned** | Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Y Garreg yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu'r cynnig, e.e gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd yn | Negyddol | Gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Cefn Coch ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gynnwys cymuned Y Garreg yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol. | Niwtral |

Tud. 56

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cyfarfod yn ddyddiol yng nghymuned Y Garreg wrth ollwng/casglu plant o'r ysgol. | | | |

| Rhan 2 - Sut fydda'r cynnig yn effeithio ar/cyfrannu tuag at/cyd-fynd â Safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg | |
|---|---|
| **Strategaeth Iaith Gwynedd 2023** | Nodir isod grynodeb o'r effaith a ragwelir ar feysydd gweithredu'r Strategaeth Iaith:<br><br>***Iaith y blynyddoedd cynnar*:**<br><br>Gan fod Cylch Meithrin wedi ei lleoli ar safle Ysgol Cefn Coch (yr ysgol amgen), rhagwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith bositif ar iaith y blynyddoedd cynnar.<br><br>***Iaith Dysgu*:**<br><br>Mae Ysgol Y Garreg yn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3. Gan fod Ysgol Cefn Coch hefyd yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng (categori 3), deuir i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn cael effaith ar iaith addysg y plant.<br><br>***Iaith Gwaith a Gwasanaeth*:**<br><br>Cydnabyddir, pe gweithredir y cynnig, y byddai peth effaith negyddol ar yr iaith yn sgil colli presenoldeb ysgol cyfrwng Cymraeg, categori 3 ym mhentref Llanfrothen sy'n gwasanaethau'r ardal, a gan y byddai'n arwain at ddiswyddiadau staff/gweithlu'r ysgol.<br><br>Fodd bynnag, nodir y bod yr ysgol amgen (Ysgol Cefn Coch) fyddai'n gwasanaethu ardal Llanfrothen pe gweithredir y cynnig, hefyd yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3). Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn effeithio ar iaith gwaith a gwasanaeth a ddarperir yn yr ysgol amgen.<br><br>***Iaith y Gymuned:***<br><br>Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Y Garreg yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu'r cynnig, e.e gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd yn cyfarfod yn ddyddiol yng nghymuned Llanfrothen wrth ollwng/casglu plant o'r ysgol.<br><br>Mae tafarn gymunedol Brondanw Arms (Y Ring) a Chanolfan Gymdeithasol Llanfrothen wedi eu lleoli yng nghanol pentref Llanfrothen ar gyfer defnydd cymunedol. Mae'n debygol taw digwyddiadau cyfrwng Cymraeg a gynhelir yn bennaf yn y lleoliadau hyn, felly mae plant dalgylch Ysgol Y Garreg a mynediad cyfleus at ddigwyddiadau cymunedol cyfrwng Cymraeg yn eu milltir sgwâr. |

| | |
|---|---|
| | Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol, gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Cefn Coch ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gynnwys cymuned Llanfrothen yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol. Yn ogystal, pe gweithredir y cynnig, bydd rhaid i'r Awdurdod ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw weithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |
| **Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru** | Mae unrhyw drafodaethau yn ymwneud ag adrefnu angen nodi ymdrech Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br><br>Mae Ysgol Y Garreg ac Ysgol Cefn Coch yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, categori 3. O ganlyniad, pe gweithredir y cynnig i gau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen, byddai dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3.<br><br>Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg, yn bennaf gan:<br>- fod ystadegau CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 0% o ddysgwyr Ysgol Y Garreg yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 58.1% o ddysgwyr Ysgol Cefn Coch.<br>- y byddai'r cynnig i gau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Y Garreg yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, categori 3.<br>- y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig yn cryfhau'r cyfleodd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion.<br><br>Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Y Garreg ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach. |
| **I ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd (Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2022-2032)** | Mae Ysgol Y Garreg ac Ysgol Cefn Coch yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, categori 3.<br><br>Mae'r Ysgol Y Garreg ac Ysgol Cefn Coch yn gweithredu amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys:<br>• Bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bod y disgwyliad hwnnw yn gyson ar draws pob un o'r ysgolion.<br>• Bod darpariaeth addas i alluogi pob disgybl i ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion barhau i feithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n ddysgwyr.<br>• Bod holl sefydliadau addysg y sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd. |

| | |
|---|---|
| | O ganlyniad, pe gweithredir y cynnig i gau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen, byddai dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3, sy'n gweithredu amcanion a chefnogi targedau'r CSGA.<br><br>Ar sail yr uchod, ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith negyddol ar gyflawniad Deilliannau 1, 2, 3, 5 a 6 o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032, Cyngor Gwynedd, sef:<br><br>**Deilliant 1**: Mwy o blant meithrin/3 oed yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.<br>**Deilliant 2:** Mwy o blant dosbarth derbyn/5 oed yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.<br>**Deilliant 3**: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod addysg o'u haddysg statudol i'r llall.<br>**Deilliant 5:** Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.<br>**Deilliant 6**: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)<br><br>O ganlyniad, deuir i'r casgliad y byddai gweithredu'r cynnig yn cyd-fynd ag amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32, a'r targedau a gymeradwywyd yn y Cynllun Strategol y Gymraeg. |
| **Sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg, ac yn yr achosion lle byddai'n lleihau'r ddarpariaeth, nodwch pam bydd y ddarpariaeth yn cael ei lleihau** | Byddai'r cynnig yn golygu fod ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3 (Ysgol Y Garreg) yn cau. Fodd bynnag, pe gweithredir y cynnig, byddai dysgwyr yn cael cynnig lle mewn ysgol amgen, sydd hefyd yn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3, sef Ysgol Cefn Coch. Mae gan Ysgol Cefn Coch ddigon o gapasiti ar gyfer dysgwyr y ddwy ysgol. |

# 5.CASGLIAD

Ein disgwyliadau yw bod holl ddysgwyr y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys, oed perthnasol er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni. Bydd angen i'r cynigion ar gyfer ad-drefnu gymryd ystyriaeth lawn o'r holl effeithiau ieithyddol. Bydd cynnal a gwell defnydd o'r Gymraeg fel iaith addysgol a chymdeithasol ymhlith plant yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion o fewn yr ardal.

Ni ragwelir y byddai unrhyw un o'r opsiynau a nodir yn adran 3 uchod yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.

O safbwynt y cynnig i gau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen, ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg, yn bennaf gan:

- fod ystadegau CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 0% o ddysgwyr Ysgol Y Garreg yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 58.1% o ddysgwyr Ysgol Cefn Coch.
- y byddai'r cynnig i gau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Y Garreg yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3.
- y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig yn cryfhau'r cyfleodd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion.

Mae Ysgol Cefn Coch yn cynnig amrywiaeth o glybiau ar ôl ysgol ynghyd â gweithgareddau gan adrannau'r Urdd, ac mae Eisteddfodau lleol yn cael eu cynnal yn ardal Penrhyndeudraeth. Bydd hyrwyddo cydweithio rhwng Ysgol Cefn Coch a chymuned Llanfrothen i hysbysebu'r gweithgareddau hyn yn cyfoethogi profiadau cyfrwng Cymraeg dysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg wrth iddynt gael cynnig lle yn yr ysgol amgen. Byddai cynnig ystod ehangach o gyfleusterau a gweithgareddau yn yr ardal yn darparu cyfleoedd ychwanegol i ddysgwyr a'u teuluoedd, gan roi cefnogaeth benodol i'r rhai sydd o dan anfantais. Cydnabyddir ei fod yn bellach oddi wrth cartrefi y dysgwyr ond mae ystod ehangach o weithgareddau ar gael yng Nghefn Coch. Byddai hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu hiechyd a'u llesiant drwy gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu gyda grŵp mwy o gyfoedion o'r un oed.

Yn ei gyfarfod ar 10 Chwefror 2026, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd gymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol yn caniatau cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 011/2018: ar y cynnig a ganlyn -

"Cau Ysgol Y Garreg ar 31 Awst 2026 a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen o 1 Medi 2026."

Cynhaliwyd y cyfnod Gwrthwynebu Statudol rhwng 25 Chwefror 2026 a 24 Mawrth 2026, ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig.

O ganlyniad nid oes newid i'r asesiad effaith ieithyddol. Ar sail y wybodaeth uchod, o weithredu'r cynnig rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Y Garreg ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

# Asesiad Ardrawiad Cyfansawdd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010**. Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
  - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
  - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
  - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

  Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.

- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gynghorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

# Ysgol Y Garreg

**Awdur:** Gwern ap Rhisiart

**Dyddiad:** Mai 2026

**Fersiwn:** 2

## CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

**1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?**

- Polisïau, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu rai sy'n cael eu hadolygu (sy'n golygu newid yn narpariaeth y gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)

**2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer**

Cymeradwyo yn derfynol y cynnig yn unol â'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, a roddwyd drwy hysbysiad statudol, sef - "Cau Ysgol Y Garreg ar 31 Awst 2026 a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen o 1 Medi 2026."

Mae'r cwymp sylweddol yn niferoedd y dysgwyr sy'n mynychu Ysgol Y Garreg yn ddiweddar wedi arwain at sefyllfa anghynaladwy a hynod o fregus. Ar sail CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddoedd ar Lefel Disgyblion) Ionawr 2026, Ysgol Y Garreg yw'r ysgol leiaf yn y sir, gyda dim ond 2 o ddysgwyr Dosbarth Derbyn i Blwyddyn 6 ar y gofrestr a 0 yn y dosbarth meithrin. O ganlyniad, mae'n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys:

- **Niferoedd isel o ddysgwyr** – Dengys data CYBLD Ionawr 2026 fod 2 dysgwr llawn amser yn yr ysgol (Derbyn i Blwyddyn 6) a 0 dysgwr yn y dosbarth meithrin.
- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Yn seiliedig ar ffigyrau Ionawr 2026 (Derbyn i Blwyddyn 6) mae 95% o lefydd gweigion yn yr ysgol (39 mewn nifer). Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 41 o ddysgwyr (Derbyn i Blwyddyn 6) a chapasiti ar gyfer 7 o ddysgwyr yn y Dosbarth Meithrin. Felly gyda 0 dysgwr meithrin ar y gofrestr, mae 7 o lefydd gweigion yn y meithrin yn ogystal.
- **Maint dosbarthiadau bychain iawn ac amrediad oedran eang –** Mae'r dysgwyr (Derbyn i Bl6) yn cael eu haddysgu mewn un dosbarth. Mae'r ail ddosbarth yn yr ysgol yn wag. Nid oes dysgwyr ym mlynyddoedd Meithrin i Blwyddyn 5 yn yr ysgol.
- **Rhagamcanion niferoedd -** Mae rhagamcanion yn seiliedig ar niferoedd CYBLD Ionawr 2026 yn awgrymu na fydd dysgwyr yn yr ysgol ym mis Medi 2026 gan nad oes dysgwyr yn y dosbarthiadau Derbyn i blwyddyn 5 nac ychwaith yn y dosbarth Meithrin eleni.
- **Dysgwyr y dalgylch –** Dengys cyfrifiad CYBLD Ionawr 2026 mai dim ond 8% o ddysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg sy'n dewis mynychu'r ysgol. Mae 92% o ddysgwyr y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion all-dalgylch.

- **Ysgol Y Garreg yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad cyllidol craidd –** Mae Ysgol Y Garreg yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 2026-27 (seiliedig ar niferoedd Medi 2025) fyddai £68,822.
- **Cyfartaledd cost fesul dysgwr –** Cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Y Garreg yn 2026-27 fyddai £21,471 o gymharu â'r cyfartaledd sirol o £5,998.
- **Arweinyddiaeth a staffio –** Mae strwythur staffio presennol Ysgol y Garreg yn cynnwys pennaeth mewn gofal dros dro sydd yn gyfrifol am ddwy ysgol drwy drefniant anffurfiol, un athrawes llawn amser a chymhorthydd dros dro (0.6 FTE).

**3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?**

- Staff, Llywodraethwyr, dysgwyr a Rhieni/Gwarchodwyr Ysgol Y Garreg ac Ysgol Cefn Coch.
- Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu cefnogi'r argymhelliad a gyflwynwyd, bydd rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi. Caniateir cyfnod o 28 diwrnod i unrhyw un gyflwyno gwrthwynebiad i'r cynnig, sef y 'Cyfnod Gwrthwynebu'.
- Adran Addysg a Swyddogion adrannau eraill Cyngor Gwynedd.

# CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

**4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?**

Oes

**Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Gwybodaeth |
|---|---|---|
| **Cyfarfod efo'r Corff Llywodraethu** | **25 Tachwedd 2025** | Eglurwyd y bwriad i fynd ag adroddiad gerbron y cabinet, yn ddibynnol ar niferoedd yr ysgol yn dilyn CYBLD Ionawr 2026. Niferoedd yr ysgol wedi gostwng i 2 ddysgwr yn unig, felly wedi cynnal cyfarfod gyda'r corff llywodraethu er mwyn trafod opsiynau posib fyddai'n mynd i'r afael â heriau presennol yr ysgol. |
| **Cyfarfod efo'r Corff Llywodraethu** | **Ionawr 2026** | Cadarnhau niferoedd CYBLD yn dilyn diwrnod y cyfrifiad a'r bwriad i fynd a papur cynnig gerbron Y Cabinet ar y 10fed o Chwefror 2026. |

| | | |
|---|---|---|
| **Hysbysu rhieni o'r bwriad i fynd ag adroddiad gerbron y Cabinet fis Chwefror 2026.** | **Ionawr 2026** | Gohebu ar ffurf llythyr at rieni Ysgol Y Garreg yn egluro'r sefyllfa ac yn nodi'r bwriad i fynd ag adroddiad gerbron Y Cabinet. |
| **Cyfarfod yn yr ysgol gyda staff arlwyo a glanhau er mwyn trafod y camau nesaf.** | **Ionawr 2026** | Cyfarfod yn Ysgol Y Garreg er mwyn egluro'r sefyllfa a nodi'r bwriad i fynd ag adroddiad gerbron Y Cabinet. |
| **Gohebu gyda'r pennaeth ynglŷn â'r angen i hysbysu'r dysgwyr o'r cyfnod gwrthwynebu a bod cyfle iddynt ymateb pe buasent yn dymuno gwneud hynny.** | **Chwefror/Mawrth 2026** | Cynhaliwyd sesiwn yn y dosbarth gyda'r dysgwyr o dan arweiniad athro yr ysgol er mwyn egluro ystyr y cynnig a'r hysbysiad statudol a rhoi cyfle i'r dysgwyr ymateb i'r cynnig. |
| **Gohebu gyda'r pennaeth ynglŷn â'r bwriad i gyflwyno adroddiad gerbron y Cabinet 9 Mehefin 2026 yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol ar y cynnig.** | **Mai 2026** | Anfonwyd neges e-bost at y pennaeth er mwyn hysbysu'r holl rhanddeiliaid fod bwriad i gyflwyno adroddiad I'r Cabinet 9 Mehefin yn dilyn cynnal y cyfnod gwrthwynebu statudol. Eglurwyd nad oes newid i'r amserlen wreiddiol ac y bydd y ddogfennaeth yn fyw ar wefan y Cyngor ar 1 Mehefin 2026. |

**5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?**

| | **Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol** | **Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol** |
|---|---|---|
| **Hil** | Mae gan ysgolion Gwynedd bolisïau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisïau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r Polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol. Yn ogystal, fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn | Dim effaith wedi ei adnabod |

| | | |
|---|---|---|
| | *"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."*<br><br>Ni ragwelir felly y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar y nodwedd yma. | |
| **Anabledd** | Ni rhagwelir y byddai'r newid yn cael effaith ar y nodwedd yma. Byddai asesiad o unrhyw ysgolion amgen perthnasol ar sail hygyrchedd yn cael ei gynnal, a byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw gludiant a ddarperir (yn unol a pholisi cludiant yr Adran Addysg) yn addas ar gyfer anghenion yr unigolyn. Bydd anghenion unrhyw blentyn anabl yn cael eu hystyried yn unol a'r Ddeddf ADY ble mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael Cynllun Datblygu Unigol (CDU). | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Rhyw** | Ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn effeithio ar y nodwedd yma. Byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn golygu fod pawb yn parhau i gael eu trin yn ôl eu hangen beth bynnag yw eu rhyw. Mae bob ysgol yn gweithredu Polisi Cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:<br><br>*"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Oedran** | Pe gweithredir y cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai plant Ysgol Y Garreg yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol yn eu dosbarth gan fod mwy o ddysgwyr yn yr ysgol amgen, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas i'w hoedran ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.<br>Credwn y bydd dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy addas i'w hoedran yn yr ysgol amgen gyfagos oherwydd bydd y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi wedi'u gwahaniaethu yn briodol ar gyfer yr ystod oedran.<br>Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn golygu fod pobl o unrhyw oedran yn cael eu trin yn deg ac yn ôl eu hangen.<br>Mae Ysgol Y Garreg ac yr Ysgol amgen yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn: | Positif |

| | | |
|---|---|---|
| | *"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* | |
| **Crefydd a Chred** | Ysgolion cymunedol yw Ysgol Y Garreg a'r ysgol amgen a nodir yn y cynnig arfaethedig.<br><br>Mae gan bob ysgol Bolisi Cynhwysiad a fyddai'n delio ag unrhyw ddigwyddiad gwahaniaethol a allai godi yn yr ysgol, sy'n gysylltiedig â chrefydd neu gred.<br><br>O ganlyniad, ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar y nodwedd hwn. | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei gyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, sy'n greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau. Credwn y bydd dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd a dysgu yn gydweithredol fel rhan o ddosbarth mwy mewn ysgol amgen.<br><br>Ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar bobl ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Mae Ysgol Y Garreg ac yr ysgol amgen arfaethedig, yn gweithredu polisi cydraddoldeb sy'n nodi fod yr ysgol yn:<br>*"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Ail-bennu rhywedd** | Ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar bobl ar sail ailbennu rhywedd. Fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb | Dim effaith wedi ei adnabod |

| | | |
|---|---|---|
| | sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd gan gynnwys Ysgol Y Garreg ac yr ysgol amgen, fod yr ysgolion yn *"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* | |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | Ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar unrhyw un priod neu mewn partneriaeth sifil, gan fod y ddwy ysgol sy'n rhan o'r cynnig arfaethedig yn gweithredu'r un polisïau. | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar unrhyw un beichiog, boed yn staff neu yn riant, gan fod y ddwy ysgol sy'n rhan o'r cynnig arfaethedig yn gweithredu'r un polisïau. | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Iaith Gymraeg** | Yr un yw nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd y sir. Golyga hyn, pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, y bydd dysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg, yn gallu parhau i dderbyn eu haddysg yn Gymraeg a dwyieithog yn unol â'r Polisi Iaith Addysg yn yr ysgol amgen.<br><br>Ni ragwelir y byddai effaith negyddol pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, ac mae'n debygol y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg wrth i ddysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol. Mae'r ysgol amgen arfaethedig yn gwasanaethu ardaloedd sydd yn gadarnle i'r iaith Gymraeg.<br><br>Fodd bynnag, pe byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Y Garreg yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio, ac o ganlyniad, y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu'r cynnig, gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd yn cyfarfod yn ddyddiol yng nghymuned Llanfrothen wrth ollwng/casglu plant o'r ysgol. | Negyddol / Positif |
| **Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol** | Rhagwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn lleihau anfantais cymdeithasol drwy sicrhau mwy o brofiadau ac amrywiaeth dysgu, mwy o adnoddau a mynediad at fwy o wasanaethau a gweithgareddau. | Positif |

| | | |
|---|---|---|
| **Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghyd a'u Teuluoedd** | Ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog, ynghyd a'u teuluoedd. Bydd plant i deuluoedd milwrol neu gyn-filwrol yn cael yr un chwarae teg pa bynnag ysgol mae nhw'n mynychu. | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Hawliau Dynol** | Ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar hawliau dynol. | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Arall** | - | - |

**6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?**

Nid oes unrhyw fylchau data neu wybodaeth. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

**7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?**

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw bolisïau diweddar fydd yn effeithio ar blant a phobl ifanc yr ardal.

**8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlynniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?**

Ni rhagwelir y bydd y cynnig arfaethedig yn cael effaith ar ddyletswydd statudol ysgolion i amddiffyn dysgwyr rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth.

Anelir i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a hybu'r ysgol amgen arfaethedig i barhau i ddilyn polisïau a gweithdrefnau cydraddoldeb. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei wireddu, rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd cyfartal wrth gael eu lleoli yn yr ysgol amgen gan y byddai'r dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd a gwersi wedi'u gwahaniaethu yn briodol ar gyfer yr ystod oedran.

Gan fod rhai o ddysgwyr sy'n byw yn nalgylch Ysgol Y Garreg eisoes yn mynychu Ysgol Cefn Coch mae cysylltiad rhwng yr ysgol a'r gymuned yn bodoli eisoes. Er hynny, pe gweithredir y cynnig arfaethedig, fe hyrwyddir cyfleon i'r ysgol adeiladu ar ei chysylltiadau presennol gyda dalgylch Ysgol Y Garreg.

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei chyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, sy'n greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn

grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau. O weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd a dysgu yn gydweithredol fel rhan o ddosbarth mwy.

**9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)**

Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn lleihau yr anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau fod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at fwy o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen. Rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd mwy cyfartal gan y byddai y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

Drwy weithredu'r cynnig arfaethedig, byddai dysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr o'r un oedran, a byddai'n sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg. Rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

**10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Ein disgwyliadau yw bod holl ddysgwyr y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys a gallu perthnasol er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Bydd angen i'r cynigion ar gyfer newid trefniadau lleol gymryd ystyriaeth lawn o'r holl effeithiau ieithyddol. Bydd cynnal a chynyddu defnydd o'r Gymraeg fel iaith addysgol a chymdeithasol ymhlith y dysgwyr yn ystyriaeth allweddol wrth lunio'r cynnig.

Yr un yw nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd y Sir, ac mae pob ysgol gynradd (namyn un ysgol) yn disgyn i gategori 3 yn unol â chanllaw categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru. Golyga hyn y bydd dysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg yn gallu parhau i dderbyn eu haddysg yn Gymraeg a dwyieithog yn unol â'r Polisi Iaith Addysg yn yr ysgol amgen, pe gweithredir y cynnig arfaethedig.

Ni ragwelir y byddai effaith negyddol pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, ac mae'n debygol y bydd y cynnig yn cael effaith bositif ar y Gymraeg wrth i ddysgwyr Ysgol Y Garreg elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol.

Fel y gwelir o'r tabl isod mae canran uchel o ddysgwyr Ysgol Cefn Coch yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref:

| Ysgol | Siarad Cymraeg yn rhugl gartref | Ddim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl | Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl | Ddim yn siarad Cymraeg gartref a nid yn rhugl | Ddim yn gallu siarad Cymraeg o gwbl |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Garreg | 0% | 50% | 0% | 50% | 0% |
| Cefn Coch | 58.1% | 1.4% | 8.8% | 6.8% | 17.6% |
| | Cymraeg Rhugl | | Ychydig o Gymraeg | | Dim Cymraeg |

*Ffynhonnell: CYBLD Ionawr 2026*

Pe gweithredir y cynnig arfaethedig rhagwelir y bydd digon o le yn yr ysgol amgen i unrhyw ddysgwyr o ddalgylch Ysgol Y Garreg i'r dyfodol.

Dengys yr asesiad y rhagwelir peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Y Garreg. Cydnabyddir y byddai cau Ysgol Y Garreg yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Llanfrothen, fodd bynnag nodai'r asesiad fod cyfran helaetho'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Cefn Coch, ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Cefn Coch a chymuned Ysgol Y Garreg yn bodoli eisoes.

Pe byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Y Garreg yn cael ei wireddu, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac yr ysgol amgen. I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Llanfrothen yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Llanfrothen, lle'n briodol. Yn ogystal, gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol yr ysgol amgen ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gynnwys cymuned Llanfrothen yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol.

**11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?**

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion.

Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig arfaethedig hwn, gall arwain at golli ysgol yn y gymuned, fodd bynnag mae nifer helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Cefn Coch, ac felly mae cyswllt rhwng yr ysgolion a chymuned yr ysgol honno yn bodoli eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y gymuned a'r ysgol amgen. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol yr ysgol amgen yn cynnwys y gymuned lle'n briodol.

Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

## CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

**12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?**

Na

## CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

**13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?**

**Effaith Gadarnhaol Sylweddol:**
Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy cyfartal wrth gael eu lleoli mewn ysgol amgen oherwydd bydd y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sydd yn seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol, ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

Drwy weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai dysgwyr Ysgol Y Garreg yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr yr un oedran, bydd yn sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg, ac yn caniatáu mynediad at fwy o weithgareddau perthnasol i'w lefel gallu. Byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

**Effaith Negyddol Sylweddol:**
Cydnabyddir y gall yr opsiwn arfaethedig gael effaith ar sefydliad o fewn y gymuned a chael effaith ar gydlyniant cymunedol, a rhagwelir yr angen i liniaru hyn drwy feithrin cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r gymuned.

Yr ysgol (a'u Corff Llywodraethu) sydd yn gyfrifol am weithredu ei pholisi cydraddoldeb a bydd yr Awdurdod, drwy ei weithdrefnau cefnogi a monitro arferol yn sicrhau cydymffurfiaeth.

**14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol**

Ddim yn berthnasol.

**15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?**

Ddim yn berthnasol.

**Noder y rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau**

Ddim yn berthnasol.

**16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?**

Yn dilyn cynnal y cyfnod gwrthwynebu statudol ar y cynnig arfaethedig, ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig. Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, bydd yr effaith yn parhau i gael ei fonitro fel rhan o ddyletswyddau statudol parhaus y Cyngor.

**17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn lleihau yr anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau fod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at fwy o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen. Byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy cyfartal gan y byddai'r dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

Drwy weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai dysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr yr un oedran, a byddai'n sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg. Byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

**18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Rhagwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith bositif ar y Gymraeg gan y byddai dysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg yn elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol.

Pe byddai'r ysgol yn cau, gallai'r Awdurdod Lleol a Chyrff Llywodraethol yr ysgol amgen ystyried dulliau i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn gymdeithasol trwy gyfrwng gweithgareddau allgyrsiol a chymunedol.

**19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?**

Oes

# CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

**20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:**

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol.

# CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisïau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu Fframwaith Fesur

**21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Amserlen | Cyfrifoldeb Arweiniol | Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|
| Cyfnod Gwrthwynebu | 25 Chwefror – 24 Mawrth 2026 | 28 diwrnod | Adran Addysg | Na |

**22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:**

| **Trefniadau Monitro ac Adolygu** (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi) | Amserlen ac Amlder | Cyfrifoldeb Arweiniol | Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei wireddu, byddwn yn monitro effaith cau'r ysgol ac yn ymdrechu i gynorthwyo gydag unrhyw effaith negyddol all ddeillio o ganlyniad y polisi. | Parhaol | Adran Addysg | Na |

**Gwerthusiad Opsiynau Ysgol Y Garreg**

**Allwedd:** **Glas - manteision** **Coch - anfanteision** **Du – sylwadau**

| | Dim newid – parhau gyda'r sefyllfa bresennol | Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos | Cau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen |
|---|---|---|---|
| **Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion** | Niferoedd isel iawn yn parhau yn Ysgol Y Garreg (Niferoedd Ionawr 2026: 2 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 0 dysgwr Meithrin).<br><br>Nifer llefydd gweigion yn parhau yn uchel iawn. (39 o lefydd gweigion (95%) Derbyn i Blwyddyn 6; 46 o lefydd gweigion (96%) Meithrin – Blwyddyn 6).<br><br>Mae dau ddosbarth yn Ysgol Y Garreg, nid oes defnydd o'r ail ddosbarth.<br><br>Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd. | Niferoedd isel iawn yn parhau yn Ysgol Y Garreg (Niferoedd Ionawr 2026: 2 ddysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 0 dysgwr Meithrin).<br><br>Nifer llefydd gweigion yn parhau yn uchel iawn. (39 o lefydd gweigion (95%) Derbyn i Blwyddyn 6; 46 o lefydd gweigion (96%) Meithrin – Blwyddyn 6).<br><br>Mae dau ddosbarth yn Ysgol Y Garreg, nid oes defnydd o'r ail ddosbarth.<br><br>Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd.<br><br>Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. | Mae niferoedd Ysgol Cefn Coch yn sefydlog gyda 132 o ddysgwyr Derbyn i Blwyddyn 6 ac 16 o ddysgwyr Meithrin ar y gofrestr (Ionawr 2026).<br><br>Cyfradd llai o lefydd gweigion yn y dalgylch. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran** | Mae 1 dosbarth yn Ysgol Y Garreg (Ionawr 2026) gyda 2 ddysgwr (Derbyn - Blwyddyn 6) a 0 dysgwr yn y dosbarth Meithrin.<br><br>Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd.<br><br>Mae maint dosbarthiadau Ysgol Y Garreg felly yn debygol o barhau yn fach iawn, gyda phosibilrwydd cryf y byddai amrediad oedran o 4 blynedd neu fwy ym mhob dosbarth. | Mae 1 dosbarth yn Ysgol Y Garreg (Ionawr 2026) gyda 2 ddysgwr (Derbyn - Blwyddyn 6) a 0 dysgwr yn y dosbarth Meithrin.<br><br>Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd.<br><br>Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd.<br>Maint dosbarthiadau Ysgol Y Garreg felly yn debygol o barhau yn fach iawn, gyda phosibilrwydd cryf y byddai amrediad oedran o 4 blynedd neu fwy ym mhob dosbarth. | Dysgwyr i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint addas. Mae dysgwyr Ysgol Cefn Coch yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas gyda chyfartaledd o 21 dysgwr ym mhob dosbarth (Ionawr 2026).<br><br>Mae 7 dosbarth yn Ysgol Cefn Coch gyda blynyddoedd 4,5 a 6 yn rhannu dau ddosbarth. |
| **Adnoddau Ariannol** | Byddai Ysgol Y Garreg yn derbyn dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £68,822 yn 2026-27 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol yn seiliedig ar niferoedd Medi 2025.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau.<br><br>Byddai cyfartaledd y dysgwr Ysgol Y Garreg yn parhau'n uchel (£21,471 y dysgwr) sydd yn seiliedig ar niferoedd | Byddai Ysgol Y Garreg derbyn dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £68,822 yn 2026-27 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol yn seiliedig ar niferoedd Medi 2025.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau.<br><br>Byddai cyfartaledd y dysgwr Ysgol Y Garreg yn parhau'n uchel (£21,471 y | Tynnu ysgol o'r rhwyd gwarchodaeth lleiafswm staffio a dim angen am ddyraniad gwarchodaeth yn yr ysgol amgen.<br><br>Bydd cost fesul dysgwr yn agosach at y cyfartaledd sirol.<br><br>Mae'n debygol o arwain at gynnydd yng nghostau cludiant i'r Awdurdod. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Medi 2025. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,998. | dysgwr) sydd yn seiliedig ar niferoedd Medi 2025. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,998.<br><br>Cyfle i wneud arbedion drwy rannu adnoddau a chyflogi staff ar draws y ffederasiwn wrth benodi yn y dyfodol. | |
| **Arweinyddiaeth a Staffio** | Rhagwelir y byddai'r anhawster staffio'r ysgol yn sefydlog yn parhau.<br><br>Bydd yr ysgol yn debygol o dderbyn gwarchodaeth lleiafswm staffio i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau. | Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.<br><br>Bydd yr ysgol yn debygol o dderbyn gwarchodaeth lleiafswm staffio i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.<br><br>Y baich yn parhau yn drwm ar y pennaeth sydd yn gyfrifol am ddwy ysgol drwy drefniant anffurfiol. | Mae strwythur staffio Ysgol Cefn Coch yn sicrhau athrawon ym mhob dosbarth ac yn caniatáu amser digyswllt i'r Pennaeth.<br><br>Byddai'n arwain at ddiddymu cytundebau staff Ysgol Y Garreg. |
| **Ffactorau Daearyddol** | Dim newid.<br><br>Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch. | Dim newid.<br><br>Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch. | Bydd angen cynnig cludiant i ddysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg yn unol â pholisi cludiant y sir.<br><br>Bydd rhai dysgwyr y dalgylch yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y maent yn bresennol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Y Garreg angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. |
| **Y Gymuned** | Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol yn Llanfrothen.<br><br>Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch.<br><br>Nid oes defnydd cymunedol o'r ysgol tu allan i oriau ysgol.<br><br>Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynaladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Y Garreg | Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol.<br><br>Cadw'r ysgol fel adnodd cymunedol ym mhentref Llanfrothen.<br><br>Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch<br><br>Nid oes defnydd cymunedol o'r ysgol tu allan i oriau ysgol.<br>Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynaladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Y Garreg. | Pentref Llanfrothen yn colli ysgol.<br><br>Cymuned ehangach ble gall y plant a'r rhieni elwa ar greu cysylltiadau cryfach rhwng 2 gymuned cyfagos. |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Dim newid - Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3. | Dim newid – Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3. | Dim newid – mae Ysgol Cefn Coch yn ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3. |
| **Sylwadau ychwanegol yn dilyn cyfarfod gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Y Garreg** | | **Gwendidau**<br>• Addasrwydd adeilad Ysgol Cefn Coch, maint y dosbarthiadau a nifer y staff yn gallu darparu ar gyfer holl ddysgwyr Llanfrothen. | **Gwendidau**<br>• Colli canolbwynt cymdeithasol a diwylliannol sydd wedi bodoli ers 143 mlynedd; effaith negyddol ar forâl ac undod y pentref.<br><br>**Cryfderau/cyfleoedd**<br>• Cadw'r adeilad fel ased addysgol drwy ei |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ailstrwythuro’n ganolfan arbenigol neu uned lles. |

**CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Polisi Iaith Addysg Gwynedd |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Dewi Jones, Aelod Cabinet Addysg |
| **Swyddog perthnasol:** | Siwan Llwyd Roberts. |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | Mehefin 9fed, 2026 |

## 1. Y Penderfyniad a geisir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw gwahodd y Cabinet i gymeradwyo a mabwysiadu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer ei gyflwyno fel Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol i ysgolion ystyried ei fabwysiadu a'i weithredu. *( Atodiad 1)*

## 2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

**2.1** Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo **Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol** sydd wedi'i lunio yn dilyn proses estynedig a chynhwysfawr o ymgysylltu gyda rhanddeiliaid.

**2.2** Daeth drafft o Bolisi Iaith Addysg Gwynedd enghreifftiol ar gyfer ysgolion Gwynedd gerbron y Cabinet ar 15 Rhagfyr 2025, a gofynnwyd i'r Cabinet ei fabwysiadu at ddibenion ymgysylltu cyhoeddus. Cynhaliwyd yr ymgysylltiad rhwng Ionawr 7fed a Chwefror 25ain , 2026. Mae'r adborth a dderbyniwyd wedi'i adolygu'n fanwl a lle bo'n briodol mae wedi'i ymgorffori wrth lunio'r polisi sydd gerbron. Gofynnir yn awr i'r Cabinet wneud penderfyniad ynghylch cymeradwyo a mabwysiadu'r polisi ar gyfer ysgolion Gwynedd.

**2.3** Yn dilyn mabwysiadu'r Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol, bydd y polisi yn cael ei gyflwyno i bob corff llywodraethu er mwyn iddynt ystyried ei fabwysiadu a'i weithredu.

**2.4** Argymhelliad cryf y Cyngor yw y dylai pob ysgol fabwysiadu Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol Cyngor Gwynedd a'i weithredu'n llawn erbyn Medi 2026.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

**3.1:** Mae Polisi Iaith Addysg Gwynedd yn rhan o strategaeth ehangach gan y Cyngor, i sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael cyfle i ddatblygu sgiliau ieithyddol cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**3.2** Mae'n amserol diweddaru Polisi Iaith Addysg presennol Gwynedd, er mwyn adlewyrchu sefyllfa ieithyddol gyfredol y sir a darparu cyfeiriad a chefnogaeth glir i ysgolion.

**3.3**: O dan Ddeddfwriaeth Addysg (2013), mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gytuno ar Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun

hwn yn weithredol am gyfnod o ddeng mlynedd (2023-2033), ac mae'n amlinellu'r prif egwyddorion sy'n sail i bolisïau iaith addysg Cyngor Gwynedd.

**3.4**: Yn 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth Cymraeg 2050: *Miliwn o Siaradwyr* sy'n pwysleisio pwysigrwydd cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg. Mae amcanion y strategaeth yn cyd-fynd â'r nodau strategol y mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn eu hyrwyddo ers nifer o ddegawdau.

**3.5**: O dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 mae'r Gymraeg yn elfen orfodol o'r cwricwlwm.

**3.6:** Disgwylir hefyd i strategaethau addysg Cyngor Gwynedd roi ystyriaeth i'r dogfennau canlynol: *Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb* (Llywodraeth Cymru; 2023) a *Canllaw gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, atebolrwydd a gwella* (Llywodraeth Cymru; 2024). Yn y dogfennau hyn, rhoddir dyletswydd ar yr awdurdodau lleol ac ysgolion yng Nghymru i gynllunio'n effeithiol ar gyfer cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg, ac sy'n gwneud hynny'n ddyddiol.

**3.7**: Er bod Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol ar 7 Gorffennaf 2025, nid yw mwyafrif y gofynion statudol eto mewn grym . Dros y blynyddoedd nesaf, wrth i rannau penodol o'r Ddeddf ddod i rym, bydd yn gosod dyletswyddau statudol ar ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Bwriad Cyngor Gwynedd yw gweithredu'n rhagweithiol drwy gydweithio ag ysgolion y sir i gynnal a hybu addysg Gymraeg ac i gryfhau ymrwymiad pob ysgol i sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu. Yn ogystal, mae'r Cyngor am sicrhau bod ysgolion Gwynedd mewn sefyllfa gadarn i ymateb i'r gofynion newydd fydd yn sicrhau bod pob disgybl yng Nghymru, erbyn diwedd eu haddysg orfodol, yn datblygu fel defnyddiwr annibynnol o'r Gymraeg.

**3.8 :** O fewn Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 bydd y gofynion sy'n ymwneud â chategoreiddio ysgolion yn cael eu gweithredu'n raddol. Disgwylir i'r codau a'r rheoliadau sy'n sail i'r system gategoreiddio statudol gael eu cyhoeddi erbyn Gorffennaf 2027, gyda'r trefniadau newydd yn cael eu gweithredu'n llawn drwy Gynlluniau Cyflawni ysgolion rhwng 2029 a 2030. Bydd hyn yn sefydlu categorïau iaith statudol ar gyfer pob ysgol. Ni fydd unrhyw ysgol yn cael symud yn ôl na lleihau ei lefel o ddarpariaeth Gymraeg; yn hytrach rhaid cynnal neu gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol.

**4.1 Cefndir/ Cyflwyniad**

**4.1.1** Yn ystod 2024–2025, cychwynnodd Cyngor Gwynedd broses gynhwysfawr o adolygu a diwygio Polisi Iaith Addysg Gwynedd, gyda'r nod o sicrhau bod y polisi yn adlewyrchu realiti ieithyddol cyfredol y sir ac yn ymateb i ofynion deddfwriaethol a strategol newydd. Roedd y gwaith hwn yn rhan o uchelgais ehangach y Cyngor i gryfhau addysg Gymraeg a sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn datblygu sgiliau dwyieithog cadarn.

**4.1.2** O dan arweiniad yr Ymgynghorydd Iaith, Meirion Prys Jones, cynhaliwyd cyfres helaeth o sesiynau ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys penaethiaid ysgolion,

dysgwyr, llywodraethwyr, mudiadau iaith, Fforymau Iaith a chynrychiolwyr Comisiynydd y Gymraeg. Daeth consensws clir i'r amlwg fod angen diweddaru'r polisi presennol er mwyn ymateb i newid yn sefyllfa gymdeithasol y Gymraeg ac i sicrhau mwy o gysondeb, eglurder ac atebolrwydd ar draws ysgolion y sir.

Yn sgil yr adborth hwn, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Chwefror 2025, lle amlygwyd yr angen am bolisi cryfach, mwy eglur ac uchelgeisiol. Ym mis Ebrill 2025, trafodwyd drafft diwygiedig o'r polisi gan y Pwyllgor Craffu, gyda galwadau pellach am dargedau mesuradwy, trefniadau monitro cadarn a mwy o eglurder ynghylch disgwyliadau ieithyddol ysgolion

**4.1.3** Yn dilyn hynny, sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen i fireinio'r polisi drafft. Cyflwynodd y grŵp gyfres o argymhellion ym Mehefin 2025 yn ymwneud â chryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg, defnyddio diffiniadau Bil y Gymraeg ac Addysg 2025, a sicrhau gwell dilyniant ieithyddol ar draws pob cyfnod addysgol. Trafodwyd hefyd yr angen am ddull gweithredu realistig a chynhwysol a fyddai'n cefnogi ysgolion, rhieni a dysgwyr drwy'r cyfnod trosiannol.

**4.1.4** : Yn Rhagfyr 2025, cyflwynwyd drafft diwygiedig o Bolisi Iaith Addysg Gwynedd i Gabinet Cyngor Gwynedd, gyda chais i'w fabwysiadu fel Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol at ddibenion ymgysylltu cyhoeddus. Pwysleisiodd yr adroddiad fod y polisi yn gam strategol pwysig wrth baratoi ysgolion Gwynedd ar gyfer gweithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, ac wrth wireddu gweledigaeth *Cymraeg 2050*.

**4.1.5** : Cynhaliwyd cyfnod ffurfiol o ymgysylltu cyhoeddus dros gyfnod o chwe wythnos rhwng Ionawr 7fed, 2026 a Chwefror 25ain, 2026.

Rhoddwyd cyfle i ymatebwyr nodi'r hyn yr oeddent yn ei gefnogi, yn ogystal â'r elfennau yr oedd ganddynt bryderon neu sylwadau yn eu cylch, mewn perthynas â chynnwys y Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol. Gwnaed hyn yng nghyd-destun y categorïau canlynol, gyda'r opsiwn i ymateb naill ai i'r polisi yn ei gyfanrwydd neu i'r adrannau oedd fwyaf perthnasol i'r ymatebydd.

- Cyn ysgol
- Meithrin i Flwyddyn2
- Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
- Uwchradd
- Addysg Arbennig
- Ysgolion Trosiannol
- Darpariaeth Trochi

Derbyniwyd 54 ymateb i'r ddogfen ymgysylltu. *(Atodiad 3)* Cafwyd rhai ymatebion a oedd yn canolbwyntio ar un categori yn unig ac eraill yn ymateb i fwy nag un categori:

Rhoddwyd cyfle i ymatebwyr nodi ym mha rôl roeddent yn ymateb.

| **Rôl** | **NIFER** |
|---|---|
| Rhiant | 13 |
| Llywodraethwr | 3 |
| Aelod o staff | 3 |
| Arall | 27 |

| | |
|---|---|
| Heb nodi | 5 |

Derbyniwyd 3 o ymatebion gan fudiadau.

Mae'r ymatebion a dderbyniwyd yn dangos barn amrywiol. Mynegwyd cefnogaeth sylweddol i addysg Gymraeg gyda lleiafrif yn mynegi pryderon ynghylch gweithredu'r polisi enghreifftiol.

Ym marn rhai ymatebwyr dylid:

- cryfhau'r gefnogaeth i ddysgwyr llai hyderus yn eu sgiliau iaith.
- ystyried ehangu darpariaeth trochi.
- mynd i'r afael â phryderon ynghylch datblygiad addysgol disgyblion yn y sector uwchradd.
- gwella eglurder wrth gyfathrebu nodau ac egwyddorion y Polisi.

Nodir bod yr ystyriaethau pennaf yn ymwneud â chyfnod addysg uwchradd.

Yn gyffredinol, mae consensws cryf bod y Gymraeg yn bwysig i ddyfodol Gwynedd, ac felly bod y Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol yn cefnogi disgyblion Gwynedd yn effeithiol.

**4.3 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

**4.3.1** Mae mabwysiadu Polisi Iaith Addysg Gwynedd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod trefniadau addysg y sir yn adlewyrchu gofynion deddfwriaethol a strategol yn ogystal ag anghenion ieithyddol Gwynedd.

O dan ddeddfwriaeth addysg a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2023–2033, mae dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i gynllunio'n fwriadol ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg a Saesneg disgyblion ac ehangu defnydd dyddiol o'r Gymraeg. Mae hyn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â gweledigaeth strategaeth Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*, sy'n pwysleisio'r angen i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus a defnyddiol.

Yn ogystal, mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn gwneud y Gymraeg yn elfen orfodol o'r cwricwlwm i bob dysgwr yng Nghymru ac mae canllawiau cenedlaethol diweddar Llywodraeth Cymru yn gosod disgwyliadau pendant ar awdurdodau lleol ac ysgolion i gynllunio'n effeithiol ar gyfer cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol.

Mae'r angen i fabwysiadu'r polisi hefyd yn amserol oherwydd cyflwyno Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. Er nad yw holl ofynion y Ddeddf mewn grym eto, bydd yn gosod dyletswyddau statudol newydd ar ysgolion ac awdurdodau lleol dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys system statudol newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth Gymraeg sy'n sicrhau na all ysgolion leihau eu darpariaeth Gymraeg, ond yn hytrach y bydd rhaid ei chynnal neu ei chryfhau.

Felly, mae mabwysiadu Polisi Iaith Addysg Gwynedd yn gam rhagweithiol a strategol er mwyn:

- sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a disgwyliadau cenedlaethol;
- darparu cyfeiriad clir a chyson i ysgolion y sir;
- diogelu a chryfhau'r Gymraeg fel iaith addysg a chymunedol yng Ngwynedd;

- paratoi ysgolion ar gyfer gofynion newydd Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025
- sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ddatblygu'n ddefnyddiwr hyderus ac annibynnol o'r Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd ei addysg orfodol.

Mae'r Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol diwygiedig yn adlewyrchu'r sylwadau a'r farn dderbyniwyd yn ystod proses hir, gynhwysfawr ac eang o ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwahoddir y Cabinet i'w gymeradwyo. Bydd wedyn yn cael ei gyflwyno fel Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol i ysgolion ystyried ei fabwysiadu a'i weithredu.

**4.3.2** Mae **Asesiad Cydraddoldeb** yn asesu effaith Polisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd ar holl boblogaeth y sir wedi ei gynnal , gan gydymffurfio â:

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol
- Safonau'r Gymraeg (Mesur 2011)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Deddf Lluoedd Arfog 2021

- Nodau'r Polisi yw sicrhau bod pob disgybl yng Ngwynedd, erbyn diwedd eu haddysg statudol, yn meddu ar sgiliau cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd hyn yn hyrwyddo ffyniant y Gymraeg a chynnal ei defnydd cymunedol; grymuso disgyblion i fyw a gweithio mewn byd amlieithog ac yn sicrhau tegwch ieithyddol a chymdeithasol i bob plentyn.

- Cynhaliwyd cyfres sylweddol o gyfarfodydd ymgysylltu wyneb yn wyneb rhwng Hydref a Rhagfyr 2024 ac ymgysylltiad cyhoeddus pellach rhwng Ionawr 7 a Chwefror 25 , 2026.

- **Asesiad o Effaith**

  **Effaith gadarnhaol :** Nid oes effaith negyddol amlwg ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig. Yn hytrach, rhagwelir effaith gadarnhaol sylweddol o ran hyrwyddo'r Gymraeg, cydraddoldeb cyfleoedd ac undod cymunedol. Bydd y polisi yn cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg o fewn addysg ac yn y gymuned ehangach, yn cynyddu cyfleoedd gwaith drwy feithrin sgiliau dwyieithog, ac yn cefnogi datblygiad hyder a hunaniaeth gadarn ymhlith dysgwyr. Yn ogystal, bydd yn sicrhau mynediad cyfartal i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

- **Risgiau posibl:** Gallai gweithredu'r polisi'n llawn osod pwysau ychwanegol ar ysgolion, gan amlygu'r angen am hyfforddiant parhaus a darparu adnoddau digonol i gefnogi'r gwaith. Ond, nid oes tystiolaeth fod y polisi yn arwain at effaith anghyfartal nac at unrhyw fath o wahaniaethu anghyfreithlon.

- **Ystyriaethau Cydraddoldeb ac Economaidd-Gymdeithasol.** Mae'r polisi yn cyfrannu at ddileu gwahaniaethu drwy sicrhau mynediad ieithyddol cyfartal i bawb. Mae hefyd yn hyrwyddo cyfle cyfartal drwy ehangu mynediad at addysg Gymraeg, tra'n meithrin

perthnasau cadarnhaol drwy gynlluniau ysgolion ac ethos Cymreig . Mae'r polisi yn ceisio mynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol drwy ddarparu cynlluniau trochi, cymorth i deuluoedd, a gwell mynediad at adnoddau a thechnoleg Gymraeg.

- **Ystyriaethau'r Gymraeg.** Mae'r polisi yn gweithredu'n unol â Safonau'r Gymraeg ac yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg fel prif iaith weinyddol ac addysgol. Mae'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ac yn hyrwyddo defnydd yr iaith yn y gymuned, ymhlith pobl ifanc ac yn y gweithle. Yn ogystal, mae'r polisi yn atgyfnerthu rôl ysgolion fel canolfannau allweddol ar gyfer yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig.

**4.3.3 Cyfraniad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ( Cymru) 2015.**
Mae'r polisi yn cyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant, gan gynnwys creu Cymru fwy cyfartal a chydnerth, gyda diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae hefyd yn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio drwy weithredu mewn modd hirdymor ac ataliol, tra'n hyrwyddo integreiddio, cydweithio a chynnwys wrth gynllunio a darparu addysg Gymraeg

**5. Camau Nesaf ac Amserlen**

**5.1** Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu cefnogi'r argymhelliad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn i gymeradwyo a mabwysiadu Polisi Iaith Addysg Gwynedd, byddai'r polisi'n cael ei gyflwyno fel Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol i ysgolion ystyried ei fabwysiadu a'i weithredu. Argymhelliad cryf Cyngor Gwynedd yw y dylai pob ysgol fabwysiadu Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol Cyngor Gwynedd a'i weithredu'n llawn erbyn Medi 2026.

**6. Sylwadau Swyddogion Statudol**

**6.1 Prif Swyddog Cyllid**
"Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol."

**6.2 Swyddog Monitro**
Mae cryn waith ac ystyriaeth wedi bod ar y polisi arfaethedig yma. Mae'n gam cychwynnol i adolygu trefniadau a chynnig polisi i gyrff llywodraethu fyddai yn paratoi y ffordd ar gyfer dod a Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 i rym yn helaeth. Yn dilyn a'r y cyfnod ymgysylltu mae'n rhoi cyfle i'r Cabinet gytuno ar y Polisi Enghreifftiol fydd yn cael ei argymell i Gyrff Llywodraethol yr ysgolion. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir

**7. Rhestr Atodiadau:**

**Atodiad 1** – Polisi Iaith Addysg Gwynedd 2025/2026
**Atodiad 2** – Canllaw i Bolisi Iaith Addysg Gwynedd 2025/2026
**Atodiad 3** - Dadansoddiad o ganlyniadau Ymgysylltiad Cyhoeddus Ionawr – Chwefror 2026
**Atodiad 4** – Asesiad Effaith Gyfansawdd.

**CYNGOR GWYNEDD: POLISI IAITH ADDYSG ENGHREIFFTIOL YSGOLION GWYNEDD.**

Rhagymadrodd:

Mae’r ddogfen hon yn cynnwys dwy ran:

1. Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol Cyngor Gwynedd (2026).
2. Canllaw arfaethedig i benaethiaid a llywodraethwyr ysgolion y sir ynghylch ateb y gofyniad gan Gyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru, o dan amodau *Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025*, i bob corff llywodraethu ddarparu Polisi Iaith Addysg ynghyd â Chynllun Cyflawni Addysg Gymraeg. Argymhelliad cryf Cyngor Gwynedd ydy fod pob ysgol yn y sir yn defnyddio geiriad Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol Cyngor Gwynedd. Mae hynny yn ateb y gofyniad yn y ddeddf newydd i bob corff llywodraethu dalu’r sylw dyledus i Bolisi Iaith Addysg yr awdurdod lleol wrth lunio’u Cynllun Cyflawni Addysg Gymraeg. Rôl Cyngor Gwynedd yw cymeradwyo Cynllun Cyflawni Addysg Gymraeg pob corff llywodraethu ynghyd â monitro ei weithrediad.

Cyd-destun:

Strategaeth Iaith Cyngor Gwynedd 2023-2033:

Mae Polisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd yn rhan greiddiol o Strategaeth Iaith Cyngor Gwynedd ac yn cyd-fynd â blaenoriaeth ganolog y Strategaeth, sef cynnal a grymuso’r Gymraeg . Bwriad y polisi hwn yw sicrhau bod gan bob disgybl yng Ngwynedd, erbyn diwedd eu cyfnod o addysg statudol, sgiliau cadarn yn y Gymraeg a’r Saesneg. Mae hyn yn sicrhau ffyniant y Gymraeg yng nghymunedau’r Sir, ac yn arfogi disgyblion Gwynedd i gamu’n hyderus i fyd amlieithog.

Nod y polisi ehangach yw *“creu strategaeth gynhwysol, gyda'r prif nod o gynyddu cyfleoedd i bob un o drigolion Gwynedd weld a defnyddio’r Gymraeg mewn nifer helaeth o wahanol gyd-destunau. Drwy weithio ar godi statws a chynyddu defnydd pobl o’r iaith ym mhob rhan o’u bywydau, byddwn yn cynyddu’r cymhelliant i eraill ddysgu’r iaith. Rydym am roi sylw penodol i ddefnydd iaith pobl ifanc dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys rhoi sylw i'w defnydd o’r Gymraeg gyda thechnoleg, dangos iddynt werth yr iaith fel sgil i’r byd gwaith, a chynyddu'r cyfleoedd anffurfiol iddynt ddefnyddio’r Gymraeg yn eu bywydau dyddiol”.*

**1: Polisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd (2026)**

**1.1: Darpariaeth Cyn-ysgol**

Cymraeg yw cyfrwng addysg y ddarpariaeth cyn-ysgol a gynhelir ledled y Sir. Mae’r cyfnod ffurfiannol hwn yn hanfodol i gyflwyno’r Gymraeg trwy chwarae a thrwy brofiadau naturiol, gan greu sylfaen gadarn i blant ddefnyddio a chaffael yr Iaith.

**1.2: Ysgolion Cynradd**

Mae pob ysgol gynradd yng Ngwynedd ag eithrio’r *ysgol drosiannol yn darparu addysg ‘Prif Iaith – Cymraeg’, sef ysgolion Categori 3 yn ôl y diffiniad cyfredol o gategori ieithyddol ysgolion

**Cyfnod Sylfaen hyd at Flwyddyn 2**

- Cymraeg yw unig gyfrwng addysg, asesu a gweithgareddau allgyrsiol y disgyblion.
- Darperir cyfleoedd parhaus i ddisgyblion ddefnyddio’r Gymraeg yn y dosbarth, y tu allan i’r dosbarth ac yn gymdeithasol.

  Darpariaeth i Siaradwyr Newydd:
- Mae ysgolion yn sicrhau bod pob disgybl sy’n siaradwr newydd (Blwyddyn 2) yn cael mynediad at y Gyfundrefn Drochi er mwyn sicrhau cyfranogiad llawn yn y cwricwlwm.

**Blwyddyn 3–6:**

- Darperir o leiaf 80% o addysg, asesu a gweithgareddau allgyrsiol pob disgybl drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cyflwynir y Saesneg fel pwnc, ac fel cyfrwng ar gyfer rhai tasgau o fewn unedau gwaith penodol a bennir gan yr ysgol, yn unol â Chynllun Cyflawni'r ysgol.

  Darpariaeth i Siaradwyr Newydd:
- Mae ysgolion yn sicrhau bod pob disgybl sy'n siaradwr newydd (Blynyddoedd 3 - 6) yn cael mynediad at y Gyfundrefn Drochi er mwyn sicrhau cyfranogiad llawn yn y cwricwlwm.

Cymraeg yw cyfrwng cyfathrebu mewnol ysgolion cynradd Gwynedd. Mae cyfathrebu â rhieni a gofalwyr bob amser yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog, yn ôl yr angen.

Mae gan bob ysgol ethos Cymraeg a Chymreig.

**1.3: Ysgolion Uwchradd**

Mae pob ysgol uwchradd yng Ngwynedd ag eithrio dwy *ysgol drosiannol yn darparu addysg 'Prif Iaith – Cymraeg' sef ysgolion Categori 3 yn ôl y diffiniad cyfredol o gategori ieithyddol ysgolion

- Darperir o leiaf 80% o addysg, asesu a gweithgareddau allgyrsiol pob disgybl drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cyflwynir y Saesneg fel pwnc, ac fel cyfrwng ar gyfer rhai tasgau o fewn unedau gwaith penodol a bennir gan yr ysgol, yn unol â Chynllun Cyflawni'r ysgol.

  Darpariaeth i Siaradwyr Newydd:

- Mae ysgolion yn sicrhau bod pob disgybl sy'n siaradwr newydd (Blynyddoedd 7 - 9) yn cael mynediad at y Gyfundrefn Drochi er mwyn sicrhau cyfranogiad llawn yn y cwricwlwm.
- Mae ysgolion yn darparu cymorth priodol i siaradwyr newydd sy'n cofrestru yn ystod blynyddoedd 10 ac 11, yn unol â Chynllun Cyflawni'r Ysgol.

Cymraeg yw prif gyfrwng cyfathrebu mewnol ysgolion uwchradd Gwynedd. Mae cyfathrebu â rhieni a gofalwyr yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog, yn ôl yr angen.

Mae gan bob ysgol ethos Cymraeg a Chymreig.

**1.4: Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

Mae dysgwyr ag ADY yn derbyn cyfle cyfartal ieithyddol i gael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'r polisi hwn. Mae'r ddarpariaeth a nodir ym mhob Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn cael ei weithredu yn y cyfrwng priodol, gan gydymffurfio'n llawn â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Cymru (2018) a Deddf Cydraddoldeb (2010).

***Ysgolion Trosiannol:**

Cynradd: Ysgol Ein Harglwyddes. Bangor

Uwchradd: Ysgol Friars, Bangor ac Ysgol Uwchradd Tywyn

Ein gweledigaeth hirdymor yw i bob ysgol yng Ngwynedd ddatblygu'n Ysgolion Prif Iaith Cymraeg, yn unol â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf. Mae Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i gefnogi ysgolion i wireddu'r nod hwn.

**Canllaw i Bolisi Iaith Addysg Enghreifftiol Cyngor Gwynedd .**

Nod y canllaw hwn yw cynnig arweiniad i ysgolion a chyrff llywodraethol wrth lunio Cynllun Cyflawni yng nghyd-destun Y Gymraeg. Wrth lunio Cynllun Cyflawni, disgwylir i ysgolion roi ystyriaeth lawn i Bolisi Iaith Addysg Enghreifftiol Cyngor Gwynedd (2026).

**Amcanion Gweithredu Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol Cyngor Gwynedd (2026):**

- Dylai pob ysgol fabwysiadu Polisi Iaith Addysg ynghyd â Chynllun Cyflawni Addysg Gymraeg.
- Rhaid i'r Corff Llywodraethu sicrhau bod yr ysgol yn darparu addysg Gymraeg yn unol â neu uwchlaw gofynion y Polisi.
- Mae gan y Corff Llywodraethu ddyletswydd statudol i gyflwyno drafft o'u Cynllun Cyflawni i Gyngor Gwynedd. Yn dilyn hynny bydd Cyngor Gwynedd un ai'n derbyn neu'n gwrthod y Cynllun Cyflawni. Os gwrthodir y Cynllun Cyflawni, bydd Cyngor Gwynedd yn gofyn i'r Corff Llywodraethu ail-ystyried y cynnwys.
- Rôl y Corff Llywodraethu yw sicrhau bod y Cynllun Cyflawni a gytunwyd yn cael ei weithredu'n llawn.
- Mae Polisi Iaith Addysg yr ysgol a'r Cynllun Cyflawni Addysg Gymraeg yn:
    - nodi'r nodau a'r amcanion ar gyfer addysgu'r Gymraeg ac ar gyfer addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
    - nodi faint o addysg Gymraeg a ddarperir, gan sicrhau bod yr ysgol yn darparu'r addysg Gymraeg honno, yn unol â chategori ieithyddol yr ysgol.
    - amlinellu sut mae'r Corff Llywodraethu yn cyflawni ei ddyletswyddau i ddarparu'r canran gofynnol o addysg Gymraeg, yn unol â chategori ieithyddol yr ysgol.
    - nodi'r camau a gymerir i sicrhau mynediad pob siaradwr newydd at addysg drochi hwyr.
    - nodi sut mae'r Corff Llywodraethu yn hyrwyddo ethos Cymraeg a Chymreig a defnydd o'r Gymraeg o fewn yr ysgol, a chefnogi rhieni nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg hyderus i gefnogi dysgu eu plant.
- Wrth lunio Cynllun Cyflawni'r Gymraeg mae disgwyl i'r Corff Llywodraethu ymgynghori gyda swyddogion Awdurdod Addysg Gwynedd ar ei gynnwys.
- Mae pob Cynllun Cyflawni Addysg Gymraeg yn gyfredol am gyfnod o dair blwyddyn ysgol.
- Rhaid cyflwyno drafft o Gynllun Cyflawni Addysg Gymraeg yr ysgol i Gyngor Gwynedd- o leiaf naw mis cyn iddo ddod i rym.
- Caiff Cynllun Cyflawni Addysg Gymraeg ei fonitro'n rheolaidd gan Gyngor Gwynedd.

**Atodiad 3**

**Cynhaliwyd cyfnod ffurfiol o ymgysylltu cyhoeddus dros gyfnod o chwe wythnos rhwng Ionawr 7fed, 2026 a Chwefror 25ain, 2026.**

Rhoddwyd cyfle i ymatebwyr nodi'r hyn yr oeddent yn ei gefnogi **(hoffi)** , yn ogystal â'r elfennau yr oedd ganddynt bryderon neu sylwadau yn eu cylch **( ddim yn hoffi**) , mewn perthynas â chynnwys y Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol. Gwnaed hyn yng nghyd-destun y categorïau canlynol, gyda'r opsiwn i ymateb naill ai i'r polisi yn ei gyfanrwydd neu i'r adrannau oedd fwyaf perthnasol i'r ymatebydd.

- Cyn ysgol
- Meithrin i Flwyddyn2
- Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
- Uwchradd
- Addysg Arbennig
- Ysgolion Trosiannol
- Darpariaeth Trochi

Derbyniwyd 54 ymateb i'r ddogfen ymgysylltu. Cafwyd rhai ymatebion a oedd yn canolbwyntio ar un categori yn unig ac eraill yn ymateb i fwy nag un categori:

Rhoddwyd cyfle i ymatebwyr nodi ym mha rôl roeddent yn ymateb.

| YMATEBWYR | NIFER |
|---|---|
| Rhiant | 13 |
| Llywodraethwr | 3 |
| Aelod o staff | 3 |
| Arall | 27 |
| Heb nodi | 5 |

Derbyniwyd 3 o ymatebion gan fudiadau.

**Crynodeb o'r Ymatebion fesul Categori**

**1.1 : Cyn-Ysgol**

**Cefnogaeth:** Mynegwyd cefnogaeth gref i'r egwyddor o ddarpariaeth 100% cyfrwng Cymraeg, ynghyd ag ymrwymiad gan Gyngor Gwynedd i sicrhau bod pob lleoliad cyn-ysgol yn y Sir yn cyflwyno'r holl weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Ystyriaethau:** Mynegwyd pryderon ynghylch diffyg cyfeiriad penodol at ddisgwyliadau o ran darpariaethau preifat o fewn y polisi enghreifftiol, a'r angen am eglurder ar sut y byddai'r darpariaethau hyn yn cael eu monitro i sicrhau bod y Gymraeg yn gyfrwng addysg ym mhob lleoliad cyn-ysgol yn y Sir. Nodwyd hefyd yr angen i gynyddu darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal, codwyd un pryder bod y newidiadau arfaethedig yn gallu arwain at effaith anffafriol ar siaradwyr di-Gymraeg.

**1.2 : Meithrin – Blwyddyn 2**

**Cefnogaeth:** Mynegwyd cefnogaeth i'r egwyddor o ddarpariaeth 100% cyfrwng Cymraeg, gyda chydnabyddiaeth bod addysg drochi yn galluogi plant i ddatblygu sgiliau Cymraeg yn gyflym. Nodwyd bod staff ysgolion yn gefnogol a mynegwyd bod datblygu'n ddwyieithog yn addysgol fuddiol. Er bod heriau'n cael eu cydnabod wrth anelu at Gymraeg fel unig gyfrwng addysg, pwysleisiwyd bod y Polisi enghreifftiol yn cryfhau statws y Gymraeg fel y norm ac yn adeiladu'n gadarn ar y ddarpariaeth gyn-ysgol statudol bresennol.

**Ystyriaethau:** Mynegwyd pryder ynghylch diffyg cyfeiriad at ofyniad i sicrhau bod pob llywodraethwr yn rhugl yn y Gymraeg. Codwyd pryder bod diffyg darpariaeth addysg drochi cyn Blwyddyn 2 yn gallu tanseilio'r ethos Gymraeg mewn dosbarthiadau.
Nodwyd y dylai disgyblion allu defnyddio eu hiaith ddewisol yn ystod amser chwarae, ac awgrymwyd y dylid osgoi unrhyw ymdeimlad o orfodaeth er mwyn atal agweddau negyddol tuag at y Gymraeg. Yn ogystal, mynegwyd pryder am ddiffyg hyblygrwydd i blant o gartrefi di-Gymraeg, a theimlad bod darpariaeth 100% cyfrwng Cymraeg yn rhy llym ac yn gallu cyfyngu ar gyfranogiad disgyblion mewn gweithgareddau allgyrsiol.

**1.3: Blwyddyn 3–6**

**Cefnogaeth:** Mynegwyd cefnogaeth gref i'r polisi enghreifftiol, gan gynnwys cefnogaeth i'w nodau a'i egwyddorion, a chydnabyddiaeth o'i effaith o ran datblygiad cryf yn y Gymraeg.

**Ystyriaethau:** Mynegwyd pryder y gallai rhai disgyblion ei chael yn anodd gofyn am gymorth a bod diffyg defnydd o'r Saesneg i egluro cysyniadau yn gallu amharu ar ddatblygiad addysgol rhai dysgwyr. Codwyd pryder bod dysgu drwy'r Gymraeg yn rhoi pwysau ychwanegol ar ddisgyblion sydd angen cefnogaeth.
Nodwyd un farn bod y polisi'n cyfyngu ar ddewis plant a rhieni, ac awgrymwyd y dylai'r polisi enghreifftiol fod yn un yn rhoi sylw i addysg ddwyieithog.

**1.4: Uwchradd**

**Cefnogaeth:** Mynegwyd cefnogaeth i'r egwyddor o gryfhau a chynnal y Gymraeg, gyda chydnabyddiaeth o bwysigrwydd ei chadw'n fyw. Nodwyd bod cyfleoedd dysgu mewn Canolfannau Trochi yn gweithio'n dda, a bod y polisi enghreifftiol yn cefnogi gwell dilyniant a chynnydd rhwng y sector cynradd ac uwchradd, gan adeiladu ar sylfeini cadarn osodir yn y cynradd. Awgrymwyd bod rhoi'r hyblygrwydd i ysgolion benderfynu pa elfennau o'r cwricwlwm a addysgir drwy'r Saesneg yn gallu cefnogi defnydd mwy naturiol a chyson o'r Gymraeg, gan gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion.

**Ystyriaethau:** Mynegwyd pryder bod y Gymraeg ar hyn o bryd yn cael ei thrin yn eilradd mewn rhai achosion. Nodwyd y byddai angen sicrhau lefel uchel iawn o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (95–100%) i atal dirywiad pellach yn yr iaith ac felly bod angen cryfhau'r polisi.
Galwyd am fwy o gefnogaeth i ddisgyblion trochi ar ôl iddynt dychwelyd i'w hysgolion, a phwyslais ar sicrhau bod pob disgybl di-Gymraeg yn cael mynediad at y gyfundrefn drochi.
Codwyd pryder bod diffyg hyblygrwydd o ran dewis iaith i ddisgyblion a rhieni. Nodwyd pryderon penodol am effaith ar ddysgwyr, gan gynnwys anhawster deall pynciau cymhleth drwy'r Gymraeg a phwysau ychwanegol yn enwedig ar lefel TGAU. Mynegwyd pryderon ynghylch gorfodi disgyblion i sefyll arholiadau neu ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau penodol, a'r posibilrwydd o effaith negyddol ar eu sgiliau Saesneg yn y dyfodol.
Yn ogystal, nodwyd pryder y gallai'r Polisi greu rhwystrau posibl i ddenu athrawon i addysgu ar draws pob pwnc.
Awgrymwyd y dylid ystyried sefydlu ffrwd Gymraeg a ffrwd Saesneg mewn ysgolion.
Codwyd pryderon ynghylch hawliau iaith disgyblion, effaith ar ddewis iaith, a'r posibilrwydd o wahaniaethu yn erbyn siaradwyr di-Gymraeg.

**1.5 : Addysg Arbennig**

**Cefnogaeth:** Mynegwyd cefnogaeth i'r egwyddor y dylai darpariaeth ADY trwy gyfrwng y Gymraeg fod ar gael i bob dysgwr. Nodwyd bwysigrwydd egluro bod modd i ddisgyblion newid cyfrwng iaith yn ystod eu taith addysgol, a bod dewis cynnar o addysg cyfrwng Saesneg e.e yn 6 oed, ddim yn golygu bod rhaid parhau â'r un cyfrwng drwy gydol eu haddysg

**Ystyriaethau:** Mynegwyd pryder bod y polisi enghreifftiol yn gallu arwain at wahaniaethu anffafriol tuag at ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Nodwyd hefyd fod diffyg manylion digonol yn y Polisi, gan gyfyngu ar eglurder ynghylch ei weithrediad.

**1.6: Ysgolion Trosiannol**

**Cefnogaeth:** Croesawyd y drafodaeth ar ysgolion trosiannol, gan nodi'r cyfle y maent yn ei gynnig i gefnogi pontio rhwng ieithoedd a hwyluso datblygiad iaith disgyblion

**Ystyriaethau:** Mynegwyd pryder am ddiffyg gwybodaeth i rieni, ynghyd ag effaith bosibl ar hyder disgyblion. Nodwyd hefyd bod rhai disgyblion yn gadael ysgolion trosiannol heb sgiliau Cymraeg digonol. Nodwyd bod disgyblion Cymraeg Iaith Gyntaf mewn ysgolion trosiannol yn gallu wynebu anfanteision o ran datblygiad iaith, cysylltiad â'u hunaniaeth a'u cymuned leol a bod angen cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgolion hyn. Awgrymwyd y dylai'r Awdurdod gynnal trafodaeth agored gyda rhieni a rhoi ystyriaeth i ddarparu trafnidiaeth am ddim i ysgolion Cymraeg, er mwyn sicrhau nad yw disgyblion yn gadael heb y gallu na'r hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhugl.

**1.7: Darpariaeth Trochi**

**Cefnogaeth:** Mynegwyd cefnogaeth i'r ddarpariaeth trochi, gyda chydnabyddiaeth ei bod yn gallu bod yn ffordd effeithiol o alluogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

**Ystyriaethau:** Mynegwyd pryder ynghylch diffyg cefnogaeth i ddisgyblion ar ôl cyfnod trochi, gyda chymorth yn aml yn cael ei ddarparu'n rhy hwyr, yn enwedig i ddisgyblion Blwyddyn 10, gan effeithio ar eu gallu i gyrraedd eu potensial addysgol. Nodwyd hefyd bod diffyg adnoddau o ran y gefnogaeth ychwanegol a gynigir.

**1.8: Hoffi/ddim yn ei hoffi am y polisi enghreifftiol.**

**Cefnogaeth:** Mynegwyd cefnogaeth lawn i'r Polisi, gyda phwyslais ar bwysigrwydd y Gymraeg yng Ngwynedd fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer y dyfodol, ynghyd â manteision dwyieithrwydd a rôl y polisi o ran cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol.
Nodwyd gwerth y cyfleoedd i ddisgyblion fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg, a chydnabyddiaeth bod amcanion y polisi enghreifftiol yn glir wrth geisio sicrhau bod y Gymraeg yn iaith naturiol ym mywyd dyddiol pob disgybl.
Disgrifiwyd y Polisi fel un blaengar a chlir sy'n rhoi'r Gymraeg yn ei lle priodol yn y system addysg ac yn un sy'n fodd o rymuso unigolion o bob oed i ymfalchïo yn yr iaith.

**Ystyriaethau:** Mynegwyd pryder nad yw'r polisi enghreifftiol yn rhoi digon o ystyriaeth i ganfyddiadau ymchwil, gan gynnwys Theori Llwyth Gwybyddol (Cognitive Load Theory), a'i effaith bosibl ar gynnydd addysgol disgyblion, yn enwedig disgyblion bregus, sy'n dysgu drwy ail iaith.
Galwyd am amserlen glir i gefnogi datblygiad iaith siaradwyr newydd. Pwysleisiwyd yr angen am adnoddau digonol i weithredu'r amcanion heb roi gormod o bwysau ar ddisgyblion, teuluoedd a staff.
Mynegwyd pryderon ynghylch diffyg dewis cyfrwng addysg, prinder athrawon cyfrwng Cymraeg ar gyfer rhai pynciau, a goblygiadau ehangach posibl fel denu teuluoedd a gweithwyr i'r ardal. Nodwyd pryder am yr effaith ar allu siaradwyr di-Gymraeg i gymryd rhan lawn ym mywyd ysgol, a theimlad o wahaniaethu yn eu herbyn.

**1.9: Materion neu effeithiau posib y dylid eu hystyried, ac nad ydynt eisoes wedi cael sylw gan y Cyngor.**

**Cefnogaeth:** Mynegwyd cefnogaeth i'r polisi enghreifftiol, gan nodi ei fod yn cefnogi hawliau pobl sy'n cael eu trin yn llai ffafriol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd monitro a sicrhau cysondeb ar draws pob ysgol, ardal a chyfnod oedran er mwyn sicrhau llwyddiant y Polisi, ynghyd â disgwyliad i weld cynnydd yn niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd erbyn 2031.

Nodwyd y dylid darparu addysg Gymraeg gyflawn i sicrhau bod disgyblion yn hyderus ac yn rhugl yn y Gymraeg, gan alluogi cyfleoedd cyflogaeth yn lleol a chefnogi'r economi. Awgrymwyd hefyd y dylai'r Gymraeg fod yn brif gyfrwng cyfathrebu mewnol ym mhob ysgol yng Ngwynedd.

Yn ogystal, pwysleisiwyd yr angen i Gynlluniau Cyflawni Addysg Gymraeg ysgolion gael eu monitro'n rheolaidd gan yr Awdurdod, a bod angen cryfhau'r Polisi er mwyn cefnogi'r nod strategol o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Awgrymwyd y dylai'r Polisi hefyd egluro'n glir y camau tuag at drawsnewid ysgolion yn rhai Cymraeg, ynghyd â chylch adrodd cynnydd clir ar y gwaith hwn.

**Ystyriaethau:** Mynegwyd pryder y gallai'r polisi enghreifftiol gael effaith negyddol ar rai , yn enwedig disgyblion mewn ysgolion trosiannol, gyda risg o symudiadau rhwng ysgolion a allai greu tensiynau cymunedol a chynyddu agweddau negyddol tuag at y Gymraeg. Galwyd am ddarpariaeth ddwyieithog neu ddwy ffrwd ieithyddol mewn ysgolion er mwyn diwallu anghenion disgyblion . Codwyd pryderon hefyd ynghylch adnoddau a chefnogaeth i ddisgyblion ADY, gallu rhieni di-Gymraeg i gefnogi dysgu eu plant, yr effaith bosibl ar gynnydd a lles disgyblion, ynghyd â heriau recriwtio gweithlu addas.
Yn ogystal, nodwyd pryder y gallai'r Polisi gyfyngu ar gyfleoedd addysg uwch a chyflogaeth rhai disgyblion, gan greu anfantais i ddysgwyr Gwynedd. Awgrymwyd nad yw'r dull arfaethedig yn hyrwyddo hawliau cyfartal ac y dylid ystyried addysgu dwyieithog.

### 1.10: Yr effeithiau y byddai'r Polisi enghreifftiol yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cefnogaeth:** Mynegwyd cefnogaeth gref i'r polisi enghreifftiol, gyda'r farn ei fod yn ehangu ar ethos Cymreig a Chymraeg y Sir ac yn helpu pobl ifanc i werthfawrogi gwerth yr iaith. Nodwyd pwysigrwydd sicrhau bod disgyblion yn deall y Gymraeg fel braint, a bod angen cynnal a chryfhau safonau.
Pwysleisiwyd bod y Polisi'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, gan gyfrannu at lefelau uwch o ddwyieithrwydd a gwella cyfleoedd i ddisgyblion. Ystyrir hefyd ei fod yn gam ymlaen tuag at sicrhau cydraddoldeb ieithyddol. Nodwyd yr angen i fonitro effaith y Polisi gan gynnwys y defnydd o'r Gymraeg ym mywyd dyddiol yr ysgol a chasglu data ar niferoedd yn sefyll arholiadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg.
Yn ogystal, nodwyd pwysigrwydd cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, a chodi ymwybyddiaeth staff o bwysigrwydd yr iaith. Awgrymwyd hefyd y dylid darparu eglurder pellach ynghylch y broses a'r disgwyliadau ar gyfer ysgolion sy'n symud tuag at ddarpariaeth fwy Cymraeg, er mwyn sicrhau tryloywder a fframwaith atebolrwydd clir.

**Ystyriaethau:** Mynegwyd pryder y gallai gorfodi'r Gymraeg arwain at lai o gymhelliant ymhlith disgyblion i'w dysgu, a'i gwneud yn llai hyfyw fel iaith gymunedol. Nodwyd pryderon bod diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.
Nodwyd bod angen sicrhau nad yw disgyblion di-Gymraeg, yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn llai ffafriol. Mynegwyd pryderon ynghylch effaith ar gyfleoedd addysgol a gyrfaol, gyda galwad am fwy o bwyslais ar y Saesneg mewn rhai cyd-destunau addysgol.

### 1.11. Sut fyddai modd llunio neu addasu'r polisi enghreifftiol er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cefnogaeth:** Awgrymwyd y dylai'r polisi enghreifftiol gryfhau safonau cyfathrebu drwy annog cyfathrebu Cymraeg yn bennaf wrth gyfathrebu â rhieni, a lleihau dibyniaeth ar gyfieithu digidol.
Pwysleisiwyd gwerth creu cyfleoedd i ysgolion mewn ardaloedd Saesneg gydweithio ag ysgolion mewn ardaloedd Cymraeg er mwyn rhannu arferion da a chefnogi datblygiad iaith.
Nodwyd pwysigrwydd annog disgyblion Cymraeg i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol i hyrwyddo'r iaith a chynyddu ei defnydd y tu allan i'r ysgol.
Awgrymwyd bod angen addysgu hanes Cymru a'r Gymraeg yn well i bob disgybl er mwyn gwella dealltwriaeth o statws yr iaith a herio rhagfarnau.
Mynegwyd cefnogaeth i ddatblygu darpariaeth addysg gynnar o fewn strwythurau ysgolion, yn hytrach na dibynnu ar y sector breifat.
Pwysleisiwyd yr angen am system fonitro gadarn ac ystwyth, gyda chefnogaeth i ysgolion lle mae angen cryfhau deilliannau, a chyfleoedd i gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Galwyd am gynyddu canran addysg Gymraeg mewn ysgolion cynradd. Nodwyd pwysigrwydd gweithredu'r polisi enghreifftiol yn llawn a monitro ei effaith yn barhaus, gyda'r gallu i'w gryfhau yn ôl y canlyniadau.

**Ystyriaethau:** Nodwyd y dylid blaenoriaethu llesiant addysgol disgyblion a gwerth ymarferol yr iaith, ac y dylid mynd i'r afael â'r "bwlch gwaith cartref" sy'n effeithio ar ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg.

Awgrymwyd y dylai'r polisi enghreifftiol ganolbwyntio ar greu cyfleoedd naturiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn hytrach na'i gorfodi, ac y dylid cynnwys Gwasanaethau Ieuenctid a lleoliadau gwaith i gryfhau dealltwriaeth disgyblion o werth dwyieithrwydd.

Pwysleisiwyd yr angen am "rhwyd ddiogelwch" addas i ddisgyblion ADY, yn ogystal â chydnabod rôl drochi hwyr neu ffrydiau trosiannol i gefnogi cynnydd academaidd.

Galwyd am fwy o hyblygrwydd o fewn y polisi, gan gynnwys cynnig dewis llawn i ysgolion neu ddewis iaith ar gyfer arholiadau allanol.

Yn ogystal, codwyd pryderon am effaith y Polisi ar baratoi disgyblion ar gyfer astudiaethau y tu allan i Gymru, a safbwynt bod angen ystyried y cyd-destun ehangach hwn wrth gynllunio.

### 1.12: Effaith y Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol?

**Cefnogaeth:** Mynegwyd y farn bod pobl o bob cefndir yn gallu dysgu'r Gymraeg ac y dylai cyfleoedd i wneud hynny fod ar gael i bawb. Nodwyd bod dysgu a defnyddio'r Gymraeg yn gallu dod â manteision economaidd-gymdeithasol, gan agor cyfleoedd gwaith a gyrfaol ehangach a gwella rhagolygon cyflogaeth, gan gynnwys mynediad at swyddi â lefelau sgiliau a chyflog uwch.

Pwysleisiwyd y gall dwyieithrwydd gyfrannu at ddatblygiad gwybyddol ac yn y pen draw gefnogi symud unigolion allan o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Nodwyd bod creu cymdeithas gwbl ddwyieithog yn gallu helpu lleihau anghydraddoldebau, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael yr un cyfle i ddatblygu sgiliau Cymraeg a manteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol.

**Ystyriaethau:** Mynegwyd pryder y gall costau trafnidiaeth i ysgolion cyfrwng Cymraeg greu rhwystr sylweddol i deuluoedd ar incwm isel, gan atgyfnerthu canfyddiadau bod y Gymraeg mewn rhai ardaloedd yn cael ei gweld fel iaith sydd fwyaf hygyrch i rai grwpiau cymdeithasol penodol. Nodwyd enghreifftiau o deuluoedd yn symud er mwyn sicrhau addysg Gymraeg i'w plant.
Awgrymwyd bod y polisi enghreifftiol yn gallu cyfyngu ar orwelion disgyblion yn hytrach na'u hymestyn, gyda phryderon ehangach am effaith bosibl ar dlodi ac anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol yng Ngwynedd. Mynegwyd pryder y gallai effeithio'n negyddol ar fudwyr a grwpiau bregus eraill.
Nodwyd nad yw disgyblion bob amser yn gallu teithio'n bell i gael mynediad at ddarpariaeth drochi, ac y gallai hyn waethygu anghydraddoldebau presennol, gan fod disgyblion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol llai ffafriol yn llai tebygol yn gyffredinol o gael mynediad at addysg Gymraeg a datblygu sgiliau Cymraeg.

**Casgliad**

Mae'r canlyniadau'n dangos barn gymysg ymysg ymatebwyr. Mynegwyd cefnogaeth sylweddol i addysg Gymraeg ond mae lleiafrif o ymatebwyr yn mynegi pryderon ynghylch gweithredu'r polisi enghreifftiol.

Y prif feysydd sydd angen sylw pellach ym marn rhai ymatebwyr unigol :
- cryfhau'r gefnogaeth i ddysgwyr llai hyderus yn eu sgiliau iaith.
- ystyried ehangu darpariaeth trochi.
- mynd i'r afael â phryderon ynghylch datblygiad addysgol disgyblion yn y sector uwchradd.
- gwella eglurder wrth gyfathrebu nodau ac egwyddorion y Polisi.

Nodir bod yr ystyriaethau pennaf yn ymwneud â chyfnod addysg uwchradd.

Yn gyffredinol, mae consensws cryf bod y Gymraeg yn bwysig i ddyfodol Gwynedd, a bod angen sicrhau bod y Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol yn cefnogi pob disgybl yn effeithiol.

# Asesiad Effaith Gyfansawdd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010**. Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
  - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
  - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
  - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

  Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i

sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg. Mae’r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma’n diogelu ac yn hyrwyddo’r defnydd a wneir o’r Gymraeg.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i’r 7 nod llesiant cenedlaethol.

- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gynghorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy’n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â’u teuluoedd.

**Awdur:** Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)

## CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

**1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy’n cael ei asesu?**

- Polisïau, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu rai sy'n cael eu hadolygu (sy'n golygu newid yn narpariaeth y gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)

**2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?**

Mae Polisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd yn rhan greiddiol o Strategaeth Iaith Cyngor Gwynedd ac yn cyd-fynd â blaenoriaeth ganolog y Strategaeth, sef cynnal a grymuso’r Gymraeg . Bwriad y polisi enghreifftiol hwn yw sicrhau bod gan bob disgybl yng Ngwynedd, erbyn diwedd eu cyfnod o addysg statudol, sgiliau cadarn yn y ddwy iaith. Bydd hyn yn sicrhau ffyniant Y Gymraeg yng nghymunedau’r Sir, ac yn eu harfogi i gamu’n hyderus i fyd amlieithog

**3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?**

Teuluoedd Gwynedd

Ysgolion Gwynedd

Cyrff Llywodraethu Ysgolion Gwynedd

Trigolion Gwynedd

## CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

**4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?**

Oes

**Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud**

<table>
<tr><th>Cyfarfodydd</th><th>Dyddiad</th><th>Gwybodaeth</th></tr>
<tr><td>Penaethiaid Uwchradd Arfon</td><td>3/10/24</td><td rowspan="11">Cynhaliwyd cyfres o sesiynau ymgysylltu i drafod Polisi Iaith Addysg presennol Cyngor Gwynedd. Bu cyfle i drafod a chasglu syniadau ac awgrymiadau ynglŷn â'r polisi a'r angen i'w ddiwygio yng ngoleuni canlyniadau Cyfrifiad 2021, Bil y Gymraeg ac Addysg ( cyn i'r Ddeddf y Gymraeg ac addysg gael ei phasio ym Mehefin 20250 a nodau Cymraeg 2025. Cyfarfodydd wyneb yn wyneb fu'r rhai yn bennaf a'r rheiny gydag ystod o randdeiliaid.<br><br>Cynhaliwyd cyfnod o ymgysylltu cyhoeddus rhwng Ionawr 7fed a Chwefror 25ain , 2026 gyda chyfle i'r cyhoedd nodi'r hyn yr oeddent yn ei gefnogi yn ogystal â'r elfennau yr oedd ganddynt bryderon neu sylwadau yn eu cylch, mewn perthynas â chynnwys y Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol. Gwnaed hyn yng nghyd-destun y categorïau canlynol, gyda'r opsiwn i ymateb naill ai i'r polisi yn ei gyfanrwydd neu i'r adrannau oedd fwyaf perthnasol i'r ymatebydd.<ul><li>Cyn ysgol</li></ul></td></tr>
<tr><td>Penaethiaid Cynradd ac Ysgolion Arbennig Arfon</td><td>3/10/24</td></tr>
<tr><td>Penaethiaid Cynradd Dwyfor</td><td>4/10/24</td></tr>
<tr><td>Penaethiaid Cynradd Meirionnydd</td><td>10/10/24</td></tr>
<tr><td>Penaethiaid Uwchradd Dwyfor</td><td>4/10/24</td></tr>
<tr><td>Penaethiaid Uwchradd Meirionnydd</td><td>10/10/24</td></tr>
<tr><td>Fforwm Iaith Uwchradd Dwyfor ( Ysgol Botwnnog)</td><td>15/10/24</td></tr>
<tr><td>Dysgwyr Ysgol Arbennig Hafod Lon</td><td>15/10/24</td></tr>
<tr><td>Dysgwyr Ysgol Gynradd yn Nwyfor</td><td>15/10/24</td></tr>
<tr><td>Dysgwyr Ysgol Uwchradd Categori Trosiannol- Ysgol Tywyn</td><td>16/10/24</td></tr>
<tr><td>Dysgwyr Ysgol Gynradd ym Meirionnydd</td><td>16/10/24</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| **Fforwm Iaith Uwchradd Meirionnydd - Ysgol y Moelwyn** | **16/10/24** | • Meithrin i Flwyddyn2<br>• Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6<br>• Uwchradd<br>• Addysg Arbennig<br>• Ysgolion Trosiannol<br>• Darpariaeth Trochi |
| **Fforwm Iaith Uwchradd Arfon - Ysgol Dyffryn Ogwen** | **27/11/24** | |
| **Dysgwyr Ysgol Gynradd yn Arfon - Ysgol Cae Top** | **27/11/24** | |
| **Mudiadau Iaith - Cylch yr Iaith, Cymdeithas yr Iaith, Dyfodol yr Iaith, Rhieni Dros Addysg Gymraeg** | **27/11/24** | |
| **Comisiynydd y Gymraeg** | **4/12/24** | |
| **Ymgysylltiad cyhoeddus** | **7/1/26 - 25/2/26** | |

**5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?**

| | **Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol** | **Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol** |
|---|---|---|
| **Hil** | Bwriad y polisi hwn yw sicrhau bod gan bob disgybl yng Ngwynedd, erbyn diwedd eu cyfnod o addysg statudol, sgiliau cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. | Does dim effaith wedi ei hadnabod yn ystod yr ymgysylltu |
| **Anabledd** | Bwriad y polisi hwn yw sicrhau bod gan bob disgybl yng Ngwynedd, erbyn diwedd eu cyfnod o addysg statudol, sgiliau cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd dysgwyr ag ADY yn derbyn cyfle cyfartal ieithyddol i gael addysg trwy'r Gymraeg yn unol â'r polisi hwn. Bydd y ddarpariaeth a nodir mewn Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn cael ei weithredu yn y cyfrwng priodol, gan gydymffurfio'n llawn â Deddf ADY a Thribiwnlys Cymru (2018) a Deddf Cydraddoldeb (2010 | Does dim gwahaniaethu ar sail anabledd wedi cael ei adnabod yn ystod yr ymgysylltu ac mae'r polisi yn sicrhau bod gan pob dysgwr gyfle cyfartal i gael addysg trwy'r Gymraeg. |
| **Rhyw** | Bwriad y polisi yw sicrhau bod gan bob disgybl yng Ngwynedd, erbyn diwedd eu cyfnod o addysg statudol, sgiliau cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. | Mae'r polisi yn sicrhau bod gan pob dysgwr gyfle cyfartal i gael addysg trwy'r Gymraeg. Does dim effaith wedi ei adnabod yn ystod yr ymgysylltu. |
| **Oedran** | Bwriad y polisi yw sicrhau bod gan bob disgybl yng Ngwynedd, erbyn diwedd eu cyfnod o addysg statudol, sgiliau cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg | O dderbyn y polisi bydd pob disgybl yng Ngwynedd yn derbyn cyfle cyfartal ieithyddol i gael addysg trwy'r Gymraeg. |

| | | |
|---|---|---|
| **Crefydd a Chred** | Bwriad y polisi yw sicrhau bod gan bob disgybl yng Ngwynedd, erbyn diwedd eu cyfnod o addysg statudol, sgiliau cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. | O dderbyn y polisi bydd pob disgybl yn derbyn cyfle cyfartal ieithyddol i gael addysg trwy'r Gymraeg |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Bwriad y polisi yw sicrhau bod gan bob disgybl yng Ngwynedd, erbyn diwedd eu cyfnod o addysg statudol, sgiliau cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. | O dderbyn y polisi bydd pob disgybl yng Ngwynedd yn derbyn cyfle cyfartal ieithyddol i gael addysg trwy'r Gymraeg. |
| **Ail-bennu rhywedd** | Bwriad y polisi yw sicrhau bod gan bob disgybl yng Ngwynedd, erbyn diwedd eu cyfnod o addysg statudol, sgiliau cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. | O dderbyn y polisi bydd pob disgybl yng Ngwynedd yn derbyn cyfle cyfartal ieithyddol i gael addysg trwy'r Gymraeg. |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | Bwriad y polisi yw sicrhau bod gan bob disgybl yng Ngwynedd, erbyn diwedd eu cyfnod o addysg statudol, sgiliau cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. | Does dim effaith wedi ei adnabod |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Bwriad y polisi yw sicrhau bod gan bob disgybl yng Ngwynedd, erbyn diwedd eu cyfnod o addysg statudol, sgiliau cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. | Does dim effaith wedi ei adnabod. |
| **Iaith Gymraeg** | Mae Polisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd yn rhan greiddiol o Strategaeth Iaith Cyngor Gwynedd ac yn cyd-fynd â blaenoriaeth ganolog y Strategaeth, sef cynnal a grymuso'r Gymraeg. Bwriad y polisi hwn yw sicrhau bod gan bob disgybl yng Ngwynedd, erbyn diwedd eu cyfnod o addysg statudol, sgiliau cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd hyn yn sicrhau ffyniant y Gymraeg yng nghymunedau'r Sir, ac yn eu harfogi i gamu'n hyderus i fyd amlieithog. | Effeithiau posib:<br>• sicrhau ffyniant y Gymraeg yng nghymunedau Gwynedd.<br>• arfogi disgyblion Gwynedd i gamu'n hyderus i fyd amlieithog<br>• datblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn nifer helaeth o wahanol gyd-destunau<br>• cynyddu cymhelliant i ddysgu'r iaith<br>• dangos gwerth iaith fel sgil byd gwaith i bobl ifanc<br>• cynyddu cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg. |
| **Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol** | Bwriad y polisi yw sicrhau bod gan bob disgybl yng Ngwynedd, erbyn diwedd eu cyfnod o addysg statudol, sgiliau cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd hyn yn sicrhau ffyniant y Gymraeg yng nghymunedau'r Sir, ac yn arfogi pobl ifanc Gwynedd i gamu'n hyderus i fyw a gweithio o fewn cymunedau lleol a thu hwnt mewn byd amlieithog. | Mae'r cyfle i bob un disgybl yng Ngwynedd ddod yn rhugl ddwyieithog wedi ei adnabod fel effaith cadarnhaol. |
| **Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu** | Bwriad y polisi yw sicrhau bod gan bob disgybl yng Ngwynedd, gan gynnwys plant y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn | Mae'r cyfle i bob un disgybl yng Ngwynedd ddod yn rhugl ddwyieithog wedi ei adnabod fel effaith cadarnhaol. . |

| | | |
|---|---|---|
| **Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghyd a'u Teuluoedd** | y Lluoedd arfog, sgiliau cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd eu cyfnod o addysg statudol. Bydd hyn yn sicrhau ffyniant y Gymraeg yng nghymunedau'r Sir, ac yn arfogi disgyblion i gamu'n hyderus i fyd amlieithog. | |
| **Hawliau Dynol** | Bwriad y polisi yw sicrhau bod gan bob disgybl yng Ngwynedd, erbyn diwedd eu cyfnod o addysg statudol, sgiliau cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd hyn yn sicrhau ffyniant y Gymraeg yng nghymunedau'r Sir, ac yn eu harfogi i gamu'n hyderus i fyd amlieithog. | Mae'r cyfle i bob un disgybl yng Ngwynedd ddod yn rhugl ddwyieithog wedi ei adnabod fel effaith cadarnhaol. |

**6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?**

Cynhaliwyd ymgysylltiad pellach gydag ysgolion, rhieni, Cyrff Llywodraethol a rhanddeiliaid eraill drwy gyfnod o ymgysylltu cyhoeddus rhwng Ionawr fed a Chwefror 25ain, 2026. Mae'r broses bellach wedi'i chwblhau, ac mae'r ymatebion a dderbyniwyd wedi'u hystyried wrth lunio'r fersiwn derfynol o'r polisi a'r adroddiad hwn.

**7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?**

Mae'n bosibl y bydd effaith gronnus yn deillio o gyflwyno'r Polisi Iaith Addysg, yn enwedig mewn cyd-destun ehangach o newidiadau polisi sy'n effeithio ar addysg yng Ngwynedd.

Disgwylir y gall y polisi gyfrannu at gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg a chefnogi datblygiad addysg Gymraeg yn y Sir. Mae'n bosibl hefyd y gallai arwain at bwysau ychwanegol ar ysgolion a staff addysgu os na ddarperir adnoddau a chefnogaeth briodol ar gyfer ei weithredu. Bydd yr Adran Addysg yn cefnogi ysgolion i weithredu'r polisi drwy ddarparu arweiniad a chefnogaeth briodol.

**8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?**

Effaith ar Gydraddoldeb

- Dileu gwahaniaethu: Cyfle i bob disgybl yng Ngwynedd dderbyn cyfle cyfartal ieithyddol i gael addysg trwy'r Gymraeg.

- Hyrwyddo cyfle cyfartal: Cynyddu mynediad at addysg Gymraeg i bawb.
- Meithrin perthnasau da: sicrhau bod pob ysgol yng Ngwynedd yn mabwysiadu Polisi Iaith Addysg ynghyd â Chynllun Cyflawni Addysg Gymraeg er mwyn sicrhau darpariaeth gyson yn ysgolion y sir.

**9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)**

Bydd Cynlluniau Cyflawni yn cael eu paratoi gan bob ysgol yn nodi sut y byddant yn :-

- nodi'r nodau a'r amcanion wrth addysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg.
- nodi'r swm o addysg Gymraeg a ddarperir, gan sicrhau bod yr ysgol yn darparu addysg Gymraeg, yn unol â chategori ieithyddol yr ysgol.
- amlinellu sut bydd y corff llywodraethu yn cyflawni ei ddyletswyddau i ddarparu'r canran o addysg Gymraeg, yn unol â chategori ieithyddol yr ysgol.
- nodi pa gamau bydd y corff llywodraethu yn eu cymryd i hybu addysg drochi hwyr.
- nodi sut bydd y corff llywodraethu yn hybu ethos Gymraeg a Chymreig a defnydd o'r Gymraeg o fewn yr ysgol, a chefnogi rhieni nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg hyderus i gefnogi dysgu eu plant.

**10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Mae Polisi Iaith presennol Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar egwyddor mai'r Gymraeg yw iaith naturiol y Cyngor ac mai'r Gymraeg felly yw'r brif iaith weinyddol a chyhoeddus, gyda phob gwasanaeth, cyfarfod, gohebiaeth ac arwydd yn ddwyieithog ond gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg. Mae'n sicrhau bod y cyhoedd a staff yn cael gwasanaeth llawn yn Gymraeg, bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol i bob swydd, ac mae disgwyl i gyrff sy'n derbyn cymorth gan y Cyngor hefyd hyrwyddo'r Gymraeg. O ran addysg, mae'r polisi'n pwysleisio rôl ganolog ysgolion a darparwyr addysg wrth drosglwyddo'r Gymraeg i'r genhedlaeth nesaf ac atgyfnerthu ei defnydd fel prif iaith dysgu a chymunedol.

Mae Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol Cyngor Gwynedd yn rhan greiddiol o Strategaeth Iaith Cyngor Gwynedd ac yn cyd-fynd â blaenoriaeth ganolog y Strategaeth, sef cynnal a grymuso'r Gymraeg. Bwriad y polisi hwn yw sicrhau bod gan bob disgybl yng Ngwynedd, erbyn diwedd eu cyfnod o addysg statudol, sgiliau cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd hyn yn sicrhau ffyniant y Gymraeg yng nghymunedau'r Sir, ac yn arfogi disgyblion Gwynedd i gamu'n hyderus i fyd amlieithog.

Nod y polisi ehangach yw "creu strategaeth gynhwysol, gyda'r prif nod o gynyddu cyfleoedd i bob un o drigolion Gwynedd weld a defnyddio'r Gymraeg mewn nifer helaeth o wahanol gyd-destunau. Drwy weithio ar godi statws a chynyddu defnydd pobl o'r iaith ym mhob rhan o'u bywydau, byddwn yn cynyddu'r cymhelliant i eraill ddysgu'r iaith.

Rydym am roi sylw penodol i ddefnydd iaith pobl ifanc dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys rhoi sylw i'w defnydd o'r Gymraeg gyda thechnoleg, dangos iddynt werth yr iaith fel sgil i'r byd gwaith, a chynyddu'r cyfleoedd anffurfiol iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau dyddiol".

**11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?**

Mae Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol Gwynedd yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Ddeddf mewn sawl ffordd:

1. Cymru lewyrchus – mae sgiliau dwyieithog yn cynyddu cyfleoedd gwaith ac yn cryfhau'r economi. Cymru gydnerth – mae'r iaith yn rhan o'n hunaniaeth .
2. Cymru iachach – mae dwyieithrwydd yn cefnogi lles emosiynol a hunaniaeth bositif, sy'n gysylltiedig â chryfhau iechyd meddwl
3. Cymru fwy cyfartal – mae mynediad at y Gymraeg yn sicrhau tegwch ieithyddol a chymdeithasol i bob plentyn, waeth beth fo'u cefndir.
4. Cymru o gymunedau cydlynus – mae'r iaith yn cysylltu pobl â'u cymunedau ac yn meithrin teimlad o berthyn.
5. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – addysg Gymraeg yw un o'r prif ddulliau i wireddu'r nod hwn.
6. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – drwy amddiffyn iaith leiafrifol, mae Cymru'n cyfrannu at amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol y byd.

Mae'r pum ffordd o weithio ar waith

Hirdymor – adeiladu sylfeini ieithyddol cadarn er mwyn cynnal y Gymraeg ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Atal – sicrhau nad yw plant yn colli'r cyfle i ddod yn rhugl yn y Gymraeg trwy weithredu'n gynnar.

Integreiddio – cysylltu ag addysg, diwylliant, iechyd a chydraddoldeb.

Cydweithio – partneriaethau rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a rhieni.

Cynnwys – rhoi llais i deuluoedd a dysgwyr wrth lunio a datblygu polisi

## CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

**12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?**

Na fydd

## CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

**13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?**

**Effaith Gadarnhaol Sylweddol:**

Mae'r ymgysylltu hyd yn hyn yn awgrymu effaith gadarnhaol sylweddol ar hyrwyddo a chryfhau defnydd y Gymraeg yn ysgolion Gwynedd. Mae'r polisi yn gymesur â nodau strategol Cyngor Gwynedd ac yn unol ag amcanion Deddf y Gymraeg ac Addysg 2025 a *Cymraeg 2050*.

Er bod rhai heriau'n bosibl e.e. sicrhau adnoddau digonol a darparu hyfforddiant a chefnogaeth briodol i ysgolion a staff, nid oes tystiolaeth bod y polisi'n creu canlyniadau anghyfartal i unrhyw grŵp penodol. Yn hytrach, mae'r polisi'n ceisio sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob dysgwr ddatblygu sgiliau Cymraeg, waeth beth fo'u cefndir ieithyddol neu gymdeithasol.

Felly, gellir ystyried bod yr effaith gyffredinol yn gadarnhaol ac yn gymesur, gan ddarparu manteision clir i'r gymuned addysg a'r Gymraeg yn ehangach.

**Effaith Negyddol Sylweddol:**

Fel y nodir yn yr adroddiad hwn mae rhai heriau'n bosibl e.e. sicrhau adnoddau digonol a darparu hyfforddiant a chefnogaeth briodol i ysgolion a staff ond nid oes tystiolaeth bod y polisi'n creu canlyniadau anghyfartal i unrhyw grŵp penodol. Nid yw eto 'n bosib rhagweld beth fydd maint yr effaith.

**14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn**

Mae'n bosibl y bydd rhai effeithiau negyddol bwriadol yn deillio o'r Polisi Iaith Addysg, er enghraifft:

- gofynion newydd i ysgolion a staff i sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfleoedd cyfartal i ddysgu Cymraeg, a all greu pwysau ychwanegol o ran sicrhau adnoddau ac amserlenni.
- addasiadau neu gyfyngiadau mewn dulliau addysgu i wella cyfleoedd cyfartal, a all olygu bod rhai dulliau confensiynol yn cael eu newid.

Fodd bynnag, **mae cyfiawnhad clir dros weithredu'r polisi**:

- mae'n sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl ddatblygu sgiliau Cymraeg, gan greu cyfleoedd cyfartal waeth beth fo'u cefndir ieithyddol neu gymdeithasol.
- mae'n hyrwyddo perthnasau cadarnhaol rhwng ysgolion gan greu system fwy cydlynol a chynhwysol.

- mae’r polisi a’r gweithredu yn seiliedig ar egwyddorion gwrthrychol ac ar weithred gadarnhaol, gan osgoi rhagfarn ac annhegwch wrth sicrhau manteision cymdeithasol a chenedlaethol hirdymor.

Mae’r effaith negyddol bwriadol wedi’i gynllunio’n ofalus ac yn gymesur, gyda’r nod o sicrhau manteision cadarnhaol hirdymor i’r holl ran ddeiliaid a chryfhau’r Gymraeg mewn addysg.

**15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?**

Na fydd

**Noder y rheswm dros ddweud hynny a’r cyfiawnhad dros barhau**

Mae Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol Cyngor Gwynedd yn cefnogi ac yn gwireddu amcanion craidd Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 drwy sicrhau bod pob disgybl yn datblygu sgiliau cadarn yn y Gymraeg a’r Saesneg erbyn diwedd eu haddysg statudol. Trwy roi’r Gymraeg wrth galon ei strategaeth addysg, mae’r Cyngor yn cyfrannu’n uniongyrchol at amcan y Ddeddf o feithrin dinasyddion dwyieithog hyderus, ac yn helpu i sicrhau cysondeb, safon ac uchelgais ieithyddol ar draws Cymru.

**16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai’n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?**

Cynhaliwyd cyfnod o ymgysylltu cyhoeddus, ac mae’r Adran Addysg wedi dadansoddi’r ymatebion a dderbyniwyd. Ni nodwyd yr angen am newidiadau sylfaenol i’r polisi, ond defnyddiwyd yr adborth i gryfhau eglurder trefniadau gweithredu a chefnogaeth i ysgolion. Rhoddwyd ystyriaeth i Ddyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010 wrth ddatblygu’r polisi, yn benodol o ran hyrwyddo cyfle cyfartal, dileu gwahaniaethu, ac feithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol.

**17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai’n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Er mwyn dangos ystyriaeth briodol i’r angen i leihau canlyniadau anghyfartal sy’n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol, mae'r canlynol yn cael eu hystyried wrth ddatblygu Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol Cyngor Gwynedd:

- darparu cefnogaeth i ddisgyblion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol drwy'r Gyfundrefn Drochi gan gynnig cyfleoedd dysgu estynedig i ddatblygu sgiliau Cymraeg a hyder ieithyddol.
- sicrhau mynediad cyfartal at addysg ac adnoddau Cymraeg o ansawdd uchel, gan gynnwys cefnogaeth dechnolegol lle bo angen.

- cynnig hyfforddiant safonol am ddim i staff addysgu drwy'r Ganolfan Ddysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn cryfhau gallu i gefnogi disgyblion.
- datblygu dulliau cyfathrebu a mynediad at gefnogaeth i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg, er mwyn cryfhau partneriaeth rhwng cartref ac ysgol.
- parhau i gasglu a dadansoddi data ar gyrhaeddiad a datblygiad ieithyddol disgyblion o wahanol gefndiroedd economaidd er mwy adnabod a mynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau.

Trwy weithredu'r camau hyn, bydd y Cyngor yn cryfhau ei allu i sicrhau bod pob disgybl — waeth beth fo'i gefndir cymdeithasol neu economaidd — yn cael cyfle cyfartal i ddatblygu sgiliau cadarn yn y Gymraeg ac i gyfrannu'n hyderus i gymdeithas ddwyieithog.

**18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Nod Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol Gwynedd yw sicrhau tegwch ieithyddol a chymdeithasol i bob plentyn, waeth beth fo'u cefndir. Mae'r iaith yn rhan o'n hunaniaeth a defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn hyderus yn cynyddu cyfleoedd gwaith. Mae hynny'n arwain at gryfhau'r economi . Anelir i adeiladu sylfeini ieithyddol cadarn yn ysgolion Gwynedd er mwyn cynnal y Gymraeg ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ymrwymir i sicrhau nad yw plant yn colli'r cyfle i ddod yn rhugl yn y Gymraeg trwy weithredu'n gynnar, cysylltu ag addysg, diwylliant, iechyd a chydraddoldeb a chynnal partneriaethau rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a rhieni. Rhoddir llais i deuluoedd a dysgwyr.

**19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?**

Oes

## CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

**20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail?**

Gellir symud ymlaen i gyflwyno'r polisi i aelodau'r Cabinet ar sail y dystiolaeth a'r wybodaeth a gasglwyd drwy Gamau 1–4, sydd yn cefnogi ei weithredu.

## CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

**21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:**

| Gweithrediad | Amserlen | Cyfrifoldeb Arweiniol | Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynnal adolygiadau cyfnodol gan yr Adran Addysg i asesu cynnydd yn erbyn targedau'r Cynlluniau Cyflawni a nodi meysydd i'w cryfhau. | Bob tair blynedd | Swyddogion Adran Addysg | Ia |
| Monitro gweithrediad y polisi drwy gasglu data rheolaidd ar gynnydd ieithyddol disgyblion a chyrhaeddiad, yn unol â Chynlluniau Cyflawni'r ysgolion. | Blynyddol | Swyddogion Adran Addysg | Ia |
| Cynnal dadansoddiad o ddata ansoddol a meintiol, gan gynnwys gwybodaeth sy'n deillio o'r Cynlluniau Cyflawni, er mwyn asesu effaith y polisi ar wahanol grwpiau disgyblion. | Blynyddol | Swyddogion Adran Addysg | Ia |
| Defnyddio adborth parhaus a gwybodaeth o'r Cynlluniau Cyflawni i lywio gwelliannau i weithrediad y polisi dros amser | Blynyddol | Swyddogion Adran Addysg | Ia |
| Adrodd canfyddiadau monitro ac adolygu, gan gynnwys data o'r Cynlluniau Cyflawni, i'r Cabinet yn ôl yr angen. | Blynyddol | Swyddogion Adran Addysg | Ia |

**22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:**

| **Trefniadau Monitro ac Adolygu** (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi) | **Amserlen ac Amlder** | **Cyfrifoldeb Arweiniol** | **Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth** |
|---|---|---|---|
| Cynlluniau Cyflawni pob ysgol yng Ngwynedd | Bob 3 blynedd | Swyddogion Adran Addysg | Ia |